Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Busnes

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26A – Biliau Preifat a Rheol Sefydlog 26B – Biliau Hybrid

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

2. Mae'r adroddiad yn argymell diwygiadau i Reol Sefydlog 26A mewn perthynas â Biliau Preifat, a Rheol Sefydlog newydd 26B mewn perthynas â Biliau Hybrid, yn ogystal â diwygiad canlyniadol i Reol Sefydlog 24. Mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn Atodiadau A ac C, ac mae'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiadau B a D.

## Cefndir

*Biliau Preifat*

3. Cyflwynwyd Rheol Sefydlog 26A ar Deddfau Preifat y Cynulliad ym mis Mehefin 2012, yn barod ar gyfer cyflwyno Bil Preifat mewn perthynas ag uno Prifysgol Cymru â'r Drindod Dewi Sant. Fel mae'n digwydd, gwireddwyd y Bil hwnnw, ond mae'r weithdrefn fel y saif yn gyfyngedig i Filiau Preifat na fwriedir iddynt awdurdodi neu hwyluso unrhyw waith adeiladu neu brynu unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir yn orfodol. Bydd y newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26A yn ymestyn ei chwmpas i gynnwys yr elfennau hyn yn dod â hi yr un fath â gweithdrefn mewn mannau eraill.

*Biliau Hybrid*

4. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cynulliad unrhyw weithdrefn ar gyfer Biliau Hybrid, sy'n cyfuno elfennau o Fil Cyhoeddus a Bil Preifat. Felly mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig Rheol Sefydlog Bil Hybrid newydd 26B, sy'n ymgorffori agweddau perthnasol ar Reol Sefydlog 26 (Biliau Cyhoeddus) a Rheol Sefydlog 26A (Biliau Preifat).

**Natur Biliau Preifat**

5. Caiff Bil Preifat ei gyflwyno gan unigolion neu sefydliadau y tu allan i'r Cynulliad (er enghraifft awdurdodau lleol neu gwmnïau) er mwyn cael pwerau iddynt eu hunain sydd uwchlaw, neu'n groes i gyfraith gyffredinol.

6. Mae Biliau Preifat yn wahanol i Filiau Cyhoeddus gan eu bod yn ceisio cyflwyno mesurau er budd preifat yr hyrwyddwr, ac y gall eraill eu gwrthwynebu. Felly mae gwneud yr achos dros Fil Preifat yn nwylo hyrwyddwr ac mae'r ymagwedd draddodiadol at ddeddfwriaeth breifat yn rhagdybio y gellir gadael y broses o wneud yr achos yn erbyn y Bil i'r rhai yr effeithir arnynt – y gwrthwynebwyr. Felly, mae trafodion ar Filiau Preifat yn wrthwynebol o ran natur.

7. O gofio mai dim ond Aelodau'r Cynulliad all gymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn, mae'n rhaid i hyrwyddwyr a gwrthwynebwyr fwydo'u

tystiolaeth i'r broses drwy bwyllgorau. Felly, mae hyd yn oed fwy o bwyslais ar waith craffu pwyllgorau na'r hyn sydd yn achos Biliau Cyhoeddus. Mae'r cyfnod Pwyllgor yn un lled-farnwrol a gall y broses ei hun gael ei herio yn y llysoedd.

**Newidiadau arfaethedig allweddol i weithdrefn bresennol Bil Preifat**

*(i) Diffiniad o Fil Preifat (Rheol Sefydlog 26.A.1 a Rheol Sefydlog 26.A.2)*

8. Fel y saif, mae'r diffiniad o Fil Preifat yn Rheol Sefydlog 26A yn benodol yn eithrio dau fath o Filiau Preifat: 'Biliau Personol' a 'Biliau Gweithfeydd'. I ddod â gweithdrefnau i gydweddu â deddfwrfeydd eraill ac ymestyn cwmpas y Rheolau Sefydlog i gynnwys y ddau fath yma o Filiau Preifat, mae'r diffiniad yn Rheolau Sefydlog 26A.1 a 26A.2 wedi cael ei newid.

9. Fel arfer, mae Biliau Preifat yn ceisio cael pwerau mewn perthynas â chynnal gwaith adeiladu neu waith arall neu darpariaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad sefydliadau penodol a materion eraill a allai effeithio ar fuddiannau preifat, ond sydd, yn eu diben ac effaith yn mynd y tu hwnt i faterion personol sy'n ymwneud ag unigolion. Byddai'r rhain yn cynnwys Biliau 'Gweithfeydd' y gallai fod angen eu cyflwyno drwy gyfrwng Bil Preifat neu Fil Hybrid, yn hytrach na gweithdrefnau o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 neu Orchymyn Caniatâd Datblygu.

10. Mae hefyd yn bosibl cael Bil Preifat a gynlluniwyd i gyflawni diben mewn perthynas â statws personol neu faterion unigolyn – 'Bil Personol'. Yn San Steffan, gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hysbysu ynghylch Bil Personol sy'n effeithio ar hawliau eiddo.

11. Mae Biliau Personol yn ymwneud, yn fwyaf aml, â materion a gadwyd mewn perthynas ag ysgariad neu briodas personau sy'n perthyn yn agos ac, ers pasio'r Ddeddf Priodasau (Graddfeydd Perthyn

wedi'u Gwahardd) 1986, mae Biliau o'r fath, ar y cyfan, yn brin. Fodd bynnag, mae gan unigolion hawl hir-sefydledig i geisio ateb deddfwriaethol lle gallant wneud yr achos dros wyro oddi wrth y gyfraith gyffredinol, ac mae gweithdrefnau yn San Steffan a'r Alban ar gyfer ystyried Bil Personol. Mae'n bosibl y gallai Bil Preifat gael ei gyflwyno yn y dyfodol sy'n cyffwrdd â buddiannau preifat mewn perthynas ag ystâd neu eiddo sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad (e.e. unrhyw bynciau sy'n effeithio ar dir, fel henebion ac adeiladau hanesyddol). Mae Bil o'r fath wedi'i eithrio ar hyn o bryd o'r diffiniad yn Rheol Sefydlog 26A.1.

*(ii) Gofynion statudol sy'n ymwneud â Bil 'Gweithfeydd' (Rheol Sefydlog 26A.12-16; Rheol Sefydlog 26A.30)*

12. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i Reol Sefydlog 26A.12-16 ynghylch dogfennau ategol, i gynnwys darpariaethau sy'n benodol berthnasol i Fil 'Gweithfeydd', i sicrhau bod yr holl ymgynghori a hsybysu perthnasol wedi ei wneud yn unol â deddfwriaeth ac unrhyw benderfyniad(au) a wnaed gan y Llywydd. Mae Rheol Sefydlog newydd 26A.30 hefyd yn caniatáu i ddatganiadau gael eu cyflwyno i'r Llywydd ynghylch y broses ymgynghori a hysbysu.

13. Rhaid i Fil Preifat sy'n cael ei gyflwyno gael ei osod gan neu ar ran yr hyrwyddwr. Fel yn achos Bil Cyhoeddus, mae'n rhaid iddo fod ar y ffurf briodol; ynghyd â datganiad gan y Llywydd sy'n nodi y byddai ei ddarpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; ynghyd â Memorandwm Esboniadol.

14. Byddai rhai gofynion statudol ychwanegol ar gyfer Bil 'Gweithfeydd' sy'n cynnwys caniatâd cynllunio, asesiadau amgylcheddol, a caffael gorfodol posibl o'r tir. Mae'r rhain yn cynnwys darparu dogfennau fel Datganiad Amgylcheddol a chynlluniau a mapiau, hysbysiad cyhoeddi'r dogfennau hynny, ac ymgynghori gorfodol gyda, neu hysbysiad i, unigolion a chyrff penodol.

15. Yn rheolau'r Alban, mae darpariaeth hefyd ar gyfer 'ymgyngoreion gorfodol' i gyflwyno datganiad am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan yr hyrwyddwr, a bwriedir cynnwys darpariaeth o'r fath yn Rheol Sefydlog ddiwygiedig 26A. Efallai na fyddai cyrff statudol penodol (e.e. yr awdurdod lleol perthnasol, a'r prif gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau tir, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW), yn pasio'r prawf i ddangos bod eu *buddiannau preifat* wedi cael eu heffeithio'n andwyol. Mae'r ddarpariaeth hon, felly, yn cynnig llwybr uniongyrchol iddynt godi unrhyw bryderon yn gynnar am unrhyw effaith andwyol ar y nwyddau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt.

*iii) Ffioedd a Chostau*

16. Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 26A yn darparu ar gyfer y Comisiwn i godi ffi untro i'r hyrwyddwr ar gyfer cyflwyno Bil Preifat (Rheol Sefydlog 26A.6), ond nid oes darpariaeth ar gyfer yr hyrwyddwr i dalu am y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â hynt y Bil, neu i'r Comisiwn, petai'n dewis gwneud hynny, godi ffi i wrthwynebwyr. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys cyflwyno darpariaeth ar gyfer costau gweinyddol, sy'n adlewyrchu arfer mewn mannau eraill.

*a) Costau Gweinyddol (Rheol Sefydlog 26A.15(vi))*

17. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Bil Gweithfeydd ar raddfa fawr i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Gall mesurau o'r fath gynnwys nifer fawr o wrthwynebwyr a'r angen am adnoddau sylweddol i ymdrin â gweinyddiaeth, gan gynnwys stenograffeg, dehongli a chyfieithu dogfennau a chynhyrchu cofnod y trafodion, yn ogystal â'r posibilrwydd o benodi aseswyr. O gofio y bydd y weithdrefn newydd yn caniatáu Biliau Gweithfeydd o'r fath, mae'n ddymunol felly i ganiatáu ar gyfer adennill costau gweinyddol o'r fath gan yr hyrwyddwr, fel sy'n wir yn yr Alban a San Steffan, ac i benderfyniad(au) a chanllawiau'r Llywydd i bennu'r costau hynny y gellir eu hadennill.

18. Felly, mae'r Rheol Sefydlog wedi cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r hyrwyddwr ymrwymo i dalu costau gweinyddol, gan gynnwys ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol i ymdrin â gwrthwynebiadau (Rheol Sefydlog 26A.15(vi). Byddai ymrwymiad yr hyrwyddwr i dalu am y costau hyn ar wahân i unrhyw ffioedd 'untro' a allai godi i dalu costau cynhyrchu dogfennau ac ati sydd eu hangen i gyflwyno'r Bil. Byddai penderfyniad(au) y Llywydd ac unrhyw ganllawiau ar gyfer Hyrwyddwyr a Gwrthwynebwyr Biliau Preifat yn adlewyrchu'r gofyniad hwn.

*b) Ffioedd ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau*

19. Pan ddrafftiwyd Rheol Sefydlog 26A yn wreiddiol, penderfynwyd na fyddai'n briodol codi ffioedd am wrthwynebiadau. Adolygwyd y penderfyniad hwn ar y sail y gallai Bil Preifat (neu Hybrid) godi gyda'r potensial i greu nifer uchel iawn o wrthwynebiadau i'w prosesu. Yn dilyn cyngor gan gyfreithwyr, ni argymhellir y gwneir unrhyw newid i Reol Sefydlog 26A mewn perthynas â ffioedd ar gyfer gwrthwynebwyr ar hyn o bryd.

20. Mae'r dadleuon yn erbyn codi tâl gosodedig ar wrthwynebwyr yn argyhoeddi. Maent yn cynnwys yr egwyddor na ddylai'r gwrthwynebydd 'dalu am y fraint' o geisio cynnal ei hawliau; a chwestiwn cyfreithiol ynghylch a yw ymdrin â gwrthwynebiadau yn 'wasanaeth' sy'n briodol i Gomisiwn y Cynulliad godi tâl amdano o dan Baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r ffi hefyd yn dybiannol o ran y gost wirioneddol o weinyddu gwrthwynebiadau, ac mae costau'n gysylltiedig o ran amser prosesu. Ceir materion yn ymwneud â thegwch ynghylch y mathau amrywiol o wrthwynebwyr i dalu; a chwestiynau ynghylch i ba raddau, mewn gwirionedd, mae'n atal gwrthwynebiadau 'gwamal' neu 'flinderus'. Hefyd, mae cynsail i awdurdodau lleol Cymru beidio â chodi tâl ar y cyhoedd am gyflwyno gwrthwynebiadau cynllunio.

21. Cymerodd y dadleuon hyn flaenoriaeth dros y baich ar gost i'r pwrs cyhoeddus / costau posibl i'r ddeddfwrfa, er y gallai'r Comisiwn,

ar sail profiad, ddewis argymell cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Rheolau Sefydlog yn y dyfodol.

22. Mae hefyd yn werth nodi bod Rheol Sefydlog 26A.62 yn darparu dull ar gyfer grwpio gwrthwynebiadau tebyg at ddibenion gwaith craffu pwyllgor, a gallai adennill costau cyfarfodydd ychwanegol sydd eu hangen i glywed nifer fawr o wrthwynebiadau gael eu cynnwys ym mhenderfyniad(au) y Llywydd fel cost gweinyddol i'w talu gan yr hyrwyddwr. Mae yr un darpariaethau hefyd ar gael i Senedd yr Alban.

*iv) Buddiannau yr Aelodau (Rheolau Sefydlog 26A.34-37)*

23. Ar hyn o bryd caiff Aelod ei wahardd rhag bod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat os oes ganddo rai buddiannau y mae'n ofynnol eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 2, a rhaid datgan unrhyw fuddiannau eraill a allai, ym marn yr Aelod, gael eu gweld i fod yn rhagfarnu yn erbyn ystyriaeth ddiduedd o'r Bil Preifat.

24. Yn San Steffan mae'n ofynnol i Aelodau lofnodi datganiad yn ymwneud â 'buddiannau personol neu etholaeth', ac mae Rheolau Senedd yr Alban yn cynnwys darpariaethau manwl ynghylch buddiannau mewn perthynas â prif breswylfa ac etholaeth/rhanbarth yr Aelod. Ar hyn o bryd, nid yw Rheol Sefydlog 26A yn cynnwys Biliau 'Gweithfeydd', ac mae'n dawel o ran unrhyw fuddiannau 'daearyddol' y gallai Aelod ei ddatgan. Efallai na'r fyddai'r Pwyllgor Busnes yn barnu unrhyw fuddiant o'r fath i atal aelodaeth o'r Pwyllgor Bil Preifat, ond, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.37 byddai'n cael ei roi yn y parth cyhoeddus drwy gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynnig i ethol Aelodau i'r Pwyllgor hwnnw.

25. Felly, mae Rheol Sefydlog 26A wedi cael ei diwygio i nodi'n fwy clir yr angen i Aelodau ddatgan i'r Pwyllgor Busnes unrhyw fuddiant personol/teuluol, neu unrhyw fuddiant etholaethol/rhanbarthol a fyddai'n berthnasol i drafodion y Bil Preifat (Rheol Sefydlog 26A.35). Mae'r geiriad hefyd yn gyson â gofyniad newydd yn y Rheolau Sefydlog

i ddatgan 'buddiant teuluol' yn y trafodion. Nid yw buddiant teuluol o'r fath wedi'i gynnwys yn y gofynion cofrestru o dan Reol Sefydlog 2, ond byddai'n sicr yn berthnasol i aelodaeth arfaethedig o Bwyllgor Bil Preifat.

*v) Penodi Asesydd neu Aseswyr Annibynnol (SO26A.56 a 57)*

26. Yn yr Alban a San Steffan, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu ar gyfer penodi aseswyr annibynnol i ystyried gwrthwynebiadau yng Nghyfnod 2 a rhoi cyngor i Bwyllgor y Bil Preifat, gan leihau'r baich ar Aelodau. Mewn perthynas â'r Forth Crossing Bill (Bil Hybrid), roedd Senedd yr Alban yn nodi bod defnyddio asesydd yn caniatáu i Filiau gael eu pasio mewn blwyddyn, yn hytrach nag *'efallai ddwbl y cyfnod hwnnw pan nad oes asesydd yn ymwneud â Chyfnod 2 y broses*.' Mae Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin wedi cael eu diwygio'n ddiweddar i benodi asesydd annibynnol i ystyried y Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y Bil Hybrid HS2. Mae'r Rheolau Sefydlog yn yr Alban a San Steffan yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesydd lunio adroddiad i'w gyflwyno i'r ddeddfwrfa.

27. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a chaiff diwygiadau eu cynnig i ganiatáu ar gyfer penodi asesydd, neu aseswyr, annibynnol, pe bai Pwyllgor y Bil Preifat yn ei ystyried yn angenrheidiol, ac er mwyn nodi'r swyddogaethau y gallai fod yn ofynnol i asesydd o'r fath eu cyflawni.

28. Byddai swyddogaethau craffu a neilltuir i'r asesydd yn fwy helaeth na'r rhai ymgynghorydd arbenigol a benodir gan bwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.55: gallent gynnwys ystyried gwrthwynebiad derbyniadwy ar ran y Pwyllgor, a gwneud argymhellion o ran grwpio gwrthwynebiadau, dethol tystion ac a wahoddir tystiolaeth ar lafar neu yn ysgrifenedig.

*vi) Ystyriaeth Fanwl Bellach gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 26A.100-108)*

29. Caiff Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad (cyfwerth â Chyfnod 3) ei thrafod gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Yn ychwanegol at y meini prawf arferol ar gyfer Biliau Cyhoeddus, yr unig reswm y mae gwelliannau yn dderbyniadwy erbyn hyn yw os ydynt i egluro geiriad darpariaeth Bil Preifat, rhoi effaith i ymrwymiadau a roddwyd ar ran yr hyrwyddwr yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu roi effaith i unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

30. Mae darpariaeth yn bodoli yn Senedd yr Alban i ohirio trafodion Cyfnod 3 i ddiwrnod diweddarach, ar gynnig heb hysbysiad gan Gynullydd Pwyllgor y Bil Preifat, er mwyn caniatáu i ystyried gwelliannau derbyniadwy pellach sy'n codi yn ystod y trafodion hynny. Mae darpariaeth yng Nghymru ar gyfer Trafodion Cyfnod 3 Pellach a Chyfnod Adrodd ar gyfer mathau eraill o Fil Cynulliad, sy'n caniatáu i'r Cynulliad ymdrin ag unrhyw newidiadau terfynol a allai godi yn ystod Cyfnod 3. Felly, cynigir cyflwyno Cyfnod 'Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad' i Reol Sefydlog 26A.

*(vii) Cyfeirio mater yn ôl i Bwyllgor y Bil Preifat (Rheol Sefydlog 26A.94-99)*

31. Mae Rheolau Senedd yr Alban ar gyfer Biliau Preifat yn caniatáu iddi gyfeirio rhan benodol o Fil Preifat yn ôl i Bwyllgor y Bil Preifat ar gyfer craffu pellach (Rheol 9A.10.6). Nid yw'r ddarpariaeth hon erioed wedi cael ei harfer gan y Senedd, ond mae'n darparu amddiffyniad pwysig i ganiatáu ar gyfer gwelliannau terfynol, cyfyngedig, i Fil Preifat ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3, cyn y caiff y Bil ei basio ar unwaith.

32. Mantais y ddarpariaeth hon yw caniatáu i Aelodau sydd wedi dilyn y broses led-farnwrol o ystyried y Bil Preifat, a gwrthwynebiadau iddo, wneud gwaith craffu pellach yn y Pwyllgor ac ystyried sut i ddeddfu'n briodol ar gyfer ymrwymiadau a roddwyd gan yr hyrwyddwr yng Nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

33. Cynigir diwygio'r weithdrefn i ganiatáu i'r Cynulliad gyfeirio mater yn ôl i Bwyllgor y Bil Preifat ar gyfer craffu pellach ar ddiwedd Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad os oes angen (Rheol Sefydlog 26A.94 – 99).

*(viii) Ail-gyflwyno Bil Preifat yn dilyn Diddymiad (Rheol Sefydlog 26A.144-150)*

34. Mae Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin yn caniatáu ar gyfer Atal Bil Preifat dros dro neu Adfywio Bil Preifat – gan ganiatáu i'r hyrwyddwr ail-gyflwyno Bil Preifat ar yr amod ei fod union yr un peth ag a gyflwynwyd eisoes. Mae hyn yn galluogi'r Bil i barhau ei daith o un sesiwn neu Senedd i'r nesaf, heb orfod ailadrodd cyfnodau o drafodion a gwblhawyd eisoes, ond gyda darpariaeth i ymdrin ag unrhyw ddeisebau (gwrthwynebiadau) i'r Bil nad ydynt wedi'u gwaredu. Mae'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Biliau Preifat yn ymdrin hefyd â Biliau Hybrid yn San Steffan, ac mae hynt y Bil Hybrid HS2 yn dilyn yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 2015 yn enghraifft o'r weithdrefn hon yn cael ei ddefnyddio. Mae rheolau tebyg yn bodoli hefyd yn yr Alban ar gyfer Biliau Preifat a Biliau Hybrid.

35. Mae'r diwygiadau a gynigiwyd i 26A yn caniatáu ar gyfer ail-gflwyno Bil Preifat o dan yr un telerau yn y Cynulliad nesaf. Byddai hyn yn caniatáu i Fil Preifat (er enghraifft ar gyfer prosiect seilwaith cymhleth a oedd yn debygol o fod yn rhychwantu mwy nag un Cynulliad), i gael ei ail-gyflwyno yn y Cynulliad canlynol heb fod angen ailadrodd cyfnodau ystyriaeth sydd eisoes wedi'u cwblhau. Mae darpariaeth o'r fath yn wahanol i drefniadau ar gyfer Biliau Cyhoeddus, a fyddai'n dod i ben pan fyddai Senedd y DU yn cael ei gohirio, neu pan gaiff Senedd yr Alban neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu diddymu.

*ix) Penderfyniadau Ariannol a Rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) (Rheol Sefydlog 26A.15)*

36. Mae Rheol Sefydlog 26 ar gyfer Biliau Cyhoeddus yn cynnwys gofyniad (o dan Reol Sefydlog 26.6(viii)) i Femorandwm Esboniadol Bil Cyhoeddus i gynnwys barn yr Archwilydd Cyffredinol ar briodoldeb unrhyw dâl ar Gronfa Gyfunol Cymru (CGC). Mae'n anodd dychmygu achlysur pan fyddai Bil Preifat yn ceisio codi tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, er y gellid ystyried hyn yn fwy tebygol o godi mewn darpariaethau Bil Hybrid. Ar achlysur annhebygol y byddai Bil Preifat yn cynnwys cymal yn datgan bod treuliau arbennig yn gost uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru, byddai hyn yn golygu y byddai arian yn gorfod cael ei dalu heb gyfeiriad pellach at y Cynulliad, h.y. ni fyddai'n cael ei gynnwys fel rhan o gynnig y gyllideb flynyddol sy'n destun craffu ac awdurdodiad y Cynulliad. Y rheswm am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn achosion o'r fath yw darparu'r Cynulliad â barn arbenigol annibynnol ynghylch a yw tâl o'r fath yn briodol – amddiffyniad pwysig mewn amgylchiadau o'r fath. Mewn tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Deddfu yng Nghymru, nododd yr Archwilydd Cyffredinol pa mor bwysig yw darparu gwybodaeth ariannol sy'n galluogi holl Aelodau'r Cynulliad i fod yn glir ynghylch prif oblygiadau costau pob Bil y maent yn pleidleisio arnynt.

37. Cynigir bod Rheol Sefydlog 26A.15 yn cael ei diwygio i gynnwys gofyniad tebyg i'r un yn Rheol Sefydlog 26 i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi adroddiad ynghylch a oedd unrhyw dâl arfaethedig ar Gronfa Gyfunol Cymru yn briodol ar yr adeg y cyflwynwyd y Bil Preifat.

**Rheol Sefydlog Bil Hybrid newydd 26B**

*Cyffredinol*

38. Mae Rheol Sefydlog drafft newydd 26B wedi'i drafftio ar sail y newidiadau drafft arfaethedig Rheol Sefydlog ar gyfer Biliau Preifat. Felly, mae'n adlewyrchu'r dull gyffredinol a ddefnyddir yng ngweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer taith Bil Cyhoeddus (e.e. y broses

graffu sylfaenol a sut y trafodir cynigion a gwelliannau yn y Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn), ond gyda'r addasiadau angenrheidiol sydd, fwy neu lai, yn gyson â gweithdrefnau Biliau Preifat a Biliau Hybrid yn Senedd yr Alban a San Steffan.

*Diffiniad o Fil Hybrid (Rheol Sefydlog 26B.1 a 26B.2)*

39. Unol ag arferion mewn mannau eraill, dim ond Gweinidogion Cymru gaiff gyflwyno Bil Hybrid. Mae'r diffiniad arfaethedig yn Rheol Sefydlog 26B.1 yn debyg i'r hyn a ddefnyddir yn yr Alban ac eithrio pan mae Senedd yr Alban yn disgrifio Bil o'r fath fel un sy'n '*effeithio'n andwyol'* ar fuddiant arbennig, nid yw'r diffiniad yma yn cynnwys y gair 'andwyol', gan y gallai hyn gael ei ystyried yn ymadrodd goddrychol yn dibynnu ar farn y person y caiff ei fuddiannau eu heffeithio. Fel gyda Rheol Sefydlog Bil Preifat arfaethedig gwell, mae'r Rheol Sefydlog ganlynol 26B.2 yn darparu ar gyfer Bil Hybrid 'Gweithfeydd' ac yn caniatáu i gyfeirio at ofynion penodol y Bil 'Gweithfeydd' o'r fath yng ngweddill y Rheol Sefydlog.

*Ffurf a Chyflwyno Bil (Rheol Sefydlog 26B.3-8)*

40. Mae hyn yr un fath ag ar gyfer Bil Cyhoeddus neu Fil Preifat, ac mae'n cynnwys yr un angen i Weinidog Cymru sy'n cyflwyno Bil Hybrid 'Gweithfeydd' gydymffurfio â gofynion ymgynghori a/neu hysbysiad perthnasol o ran Bil 'Gweithfeydd' Preifat.

*Gofynion ar gyfer Dogfennau Cysylltiedig (Rheol Sefydlog 26B.9 - 14)*

41. Mae'r rhain yn unol â Rheol Sefydlog Bil Preifat. O ran y memoranda ariannol, cymerir y weithdrefn arfaethedig ar gyfer Bil Hybrid nad yw'n Fil 'Gweithfeydd' o'r gweithdrefnau Biliau Cyhoeddus, ac ar gyfer Bil 'Gweithfeydd', mae'n dod o weithdrefn Bil Preifat. Mae hyn yn adlewyrchu rheolau'r Alban, sydd â dau o ofynion gwahanol ar gyfer y Memorandwm Ariannol i gyd-fynd â'r Bil, yn dibynnu ar p'un a yw'n Fil 'Gweithfeydd' Hybrid ai peidio.

*Hysbysiad o Gyflwyno a Gwrthwynebwyr y Bil (Rheol Sefydlog 26B.15-27)*

42. Byddai'r weithdrefn hysbysu a'r broses ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau yr un peth ag ar gyfer Bil Preifat.

*Pwyllgor y Bil Hybrid a Buddiannau'r Aelodau ( Rheol Sefydlog 26B.32-35)*

43. Mae'r weithdrefn Pwyllgor arfaethedig yr un fath ag ar gyfer Bil Preifat, gan gynnwys o ran buddiannau Aelodau a chymryd rhan ym mhroses led-farnwrol Pwyllgor y Bill.

*Cyfnodau Ystyriaeth - Cyfnodau Pwyllgor (Rheol Sefydlog 26B.42-78)*

44. Mae'r gweithdrefnau arfaethedig yr un fath ag ar gyfer Pwyllgor Bil Preifat, gan gynnwys caniatáu ar gyfer penodi asesydd / aseswyr yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor (sy'n cyfateb i Gyfnod 2). Caiff y geiriad yn Rheol Sefydlog 26B.52 - sy'n manylu ar yr hyn y mae'n rhaid i Bwyllgor y Bil Hybrid adrodd arno - wedi'i ddiwygio o Reolau Sefydlog Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. Nid oes dim gofyniad ar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i graffu ar roi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o fewn Bil Hybrid a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru, yn wahanol i'r gofyniad a osodir ar Bwyllor Cyfatebol Senedd yr Alban. Er ei bod yn debygol y byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried elfennau o'r Bil Hybrid mewn unrhyw achos, byddai gofyniad ar Bwyllgor y Bil Hybrid i wneud hynny yn sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg wrth graffu ar yr agwedd hon ar y Bil.

*Ystyriaeth y Cynulliad ac Atgyfeirio ar gyfer gwaith craffu pellach (Rheol Sefydog 26B.79-107)*

45. Mae'r gweithdrefnau arfaethedig yr un fath ag ar gyfer Biliau Preifat. Mae Rheol Sefydlog 26B.92 yn adlewyrchu'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 26A i ganiatáu cyfeirio yn ôl i Bwyllgor y Bil Hybrid ar

gyfer ystyried a gwaredu gwelliannau a gafodd eu dwyn ymlaen yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, a/neu graffu ymhellach, gan gynnwys yr opsiwn i gyfeirio'r Bil yn ôl i'r Pwyllgor yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

*Ail-gyflwyno Bil Hybrid mewn Cynulliad newydd (Rheol Sefydlog 26B.139-145)*

46. Mae gweithdrefn y Bil Hybrid arfaethedig yn cynnwys yr un ddarpariaeth â'r hyn sydd wedi'i ychwanegu at y weithdrefn Bil Preifat, i ganiatáu i Weinidogion Cymru ail-gyflwyno Bil Hybrid yn dilyn diddymiad, gyda'r ddealltwriaeth ei fod yn union yr un fath ag o'r blaen.

*Diwygiadau Canlyniadol*

47. Yn olaf, cynigir diwygiad canlyniadol i Reol Sefydlog 24, sy'n diffinio'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, i gynnwys Biliau Hybrid.

### Cam gweithredu

48. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog ar 8 Mawrth 2016 a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion yn Atodiadau B a D.

**Atodiad A**

**RHEOL SEFYDLOG 26A - Deddfau Preifat y Cynulliad**

| RHEOL SEFYDLOG 26A - Deddfau Preifat y Cynulliad | | |
|---|---|---|
| | **Biliau Preifat** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26A.1 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26A, mae Bil Preifat yn Fil a gyflwynir er mwyn sicrhau i berson unigol, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau ("yr hyrwyddwr") bwerau neu fanteision penodol sy'n fwy na'r gyfraith gyffredinol, neu sy'n gwrthdaro â hi, ac mae'n cynnwys Bil sy'n ymwneud ag ystâd, eiddo, statws neu ddull yr hyrwyddwr, neu sy'n ymwneud fel arall â buddiannau preifat yr hyrwyddwr. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** - Mae Biliau Preifat fel arfer yn ceisio pwerau mewn perthynas â gwaith adeiladu neu waith arall neu ddarpariaethau sy'n ymwneud â dull sefydliadau penodol o gynnal busnes a materion eraill a allai effeithio ar fuddiannau preifat, ond sydd, o ran eu diben a'u heffaith, yn mynd y tu hwnt i faterion personol yn unig sy'n ymwneud ag unigolion. Mae hefyd yn bosibl cael Bil Preifat sydd wedi'i gynllunio i gyflawni pwrpas mewn perthynas â statws neu sefyllfa bersonol unigolyn yn unig, sef 'Bil Personol'. Mae gan unigolion hawl hirsefydledig i geisio ateb deddfwriaethol os gallant gyflwyno achos o blaid gwyro o'r gyfraith gyffredinol. Mae'n bosibl y gall Bil Preifat ddod i law yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | dyfodol sy'n cyffwrdd â buddiannau preifat mewn perthynas ag ystâd neu eiddo sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad (e.e. unrhyw bynciau sy'n effeithio ar dir, fel henebion ac adeiladau hanesyddol). Felly, byddai’r diwygiad arfaethedig yn ehangu’r diffiniad o Fil Preifat, er mwyn bod yn gyflawn. |
| 26A.2 | ~~Mae Rheol Sefydlog 26A yn gymwys i unrhyw Fil Preifat heblaw un y bwriedir i’w ddarpariaethau~~ <u>Mae Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo yn Fil Preifat sy'n ceisio</u> awdurdodi neu hwyluso unrhyw waith adeiladu neu awdurdodi prynu’n orfodol unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir. ~~At y dibenion hyn, rhaid peidio â barnu bod trosglwyddo unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir sy’n rhan o asedau person neu gorff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus i berson neu gorff arall sydd hefyd yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yn golygu prynu’r ystâd honno neu’r buddiant hwnnw yn orfodol.~~ | **Rheol Sefydlog newydd** – Ar hyn o bryd mae Rheol Sefydlog 26A.2 *yn eithrio* yn benodol unrhyw Fil Preifat ar gyfer gwaith adeiladu neu brynu tir yn orfodol. Mae'r newid i Reol Sefydlog 26A.1 uchod yn cael gwared ar yr eithriad hwnnw ac yn ehangu cwmpas y Rheol Sefydlog. Mae gofynion penodol yn ymwneud â'r math hwn o Fil Preifat (er enghraifft bod yr hyrwyddwr yn ymgynghori ag unigolion neu gyrff penodol neu'n hysbysu unigolion neu gyrff penodol) – byddai’r rhain yn cael eu hychwanegu at yr adrannau perthnasol yn Rheol Sefydlog 26A isod, a byddant yn cyfeirio'n ôl at y Rheol Sefydlog 26A.2 |

| | | |
|---|---|---|
| | | arfaethedig newydd hon. Byddai'r ail frawddeg yn cael ei dileu gan nad oes angen gwneud hyn ar gyfer Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Biliau Preifat yn gyffredinol oherwydd y caiff dyfarniadau cyfreithiol eu gwneud fesul achos i bennu a yw'r Bil yn cynnwys prynu gorfodol. |
| | **Caniatâd i gyflwyno Bil Preifat** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| 26A.3 | Cyn cael eu cyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 26A.8, rhaid i Fil Preifat a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef y mae Rheolau Sefydlog 26A.1~~2~~3 i 26A.15 yn gofyn amdanynt gael eu hanfon gan yr hyrwyddwr at y Llywydd er mwyn i'r Llywydd benderfynu a ddylai ganiatáu i'r Bil gael ei gyflwyno. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** - Byddai'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog ar gyfer dogfennau ategol yn cael eu diweddaru. |
| 26A.4 | Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r hyrwyddwr am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26A.3 ac, os na fydd caniatâd yn cael ei roi, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r hyrwyddwr dros y penderfyniad hwnnw. | Cadw'r Rheol Sefydlog hon |
| 26A.5 | Rhaid i Fil Preifat beidio â chael ei gyflwyno heb gytundeb y Llywydd ymlaen llaw. | Cadw'r Rheol Sefydlog hon |

| | | |
|---|---|---|
| **Ffioedd** | | **Cadw’r Is-bennawd** |
| 26A.6 | Caiff y Comisiwn bennu ffioedd sy’n daladwy gan hyrwyddwyr wrth gyflwyno Biliau Preifat ac mewn perthynas â chyfnodau ystyried Biliau Preifat a nodir yn Rheol Sefydlog 26A. Caiff y Comisiwn beidio â chodi ffi neu ostwng ffi a fyddai’n daladwy fel arall. | Cadw’r Rheol Sefydlog hon |
| **Ffurf Biliau Preifat a sut i'w Cyflwyno** | | **Cadw’r Is-bennawd** |
| 26A.7 | Caniateir i Fil Preifat gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd. | Cadw’r Rheol Sefydlog hon |
| 26A.8 | Rhaid i Fil Preifat gael ei gyflwyno drwy gael ei osod gan yr hyrwyddwr neu ar ei ran. | Cadw’r Rheol Sefydlog hon |
| 26A. 9 | Rhaid peidio â gosod Bil Preifat oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd. | Cadw’r Rheol Sefydlog hon |
| 26A.10 | Pan gyflwynir Bil Preifat, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i’r datganiad hwnnw: | Cadw’r Rheol Sefydlog hon |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a<br><br>(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno. | |
| 26A.11 | Rhaid i Fil Preifat gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio pan na wneir hynny yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26A.9. | Cadw'r Rheol Sefydlog hon |
| 26A.12 | Rhaid i Fil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo beidio â chael ei gyflwyno oni bai bod yr hyrwyddwr wedi cyflawni unrhyw ymgynghoriad neu hysbysiad sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill, ynghyd ag unrhyw ofynion ymgynghori neu hysbysu ychwanegol a nodir mewn unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd. | **Mewnosod Rheol Sefydlog Newydd** – Er mwyn darparu ar gyfer ymgynghori gorfodol sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth ar gyfer Biliau Preifat o dan Reol Sefydlog 26A.2 sy'n ymwneud â gwaith adeiladu / prynu tir yn orfodol. Y Llywydd sydd â'r penderfyniad olaf o ran pa fath o ymgynghoriad sydd angen ei gynnal – e.e. i gydymffurfio â gofynion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 o ran hysbysu, cyhoeddi ac ymgynghori ag |

| | | |
|---|---|---|
| | | unigolion a chyrff. Yn San Steffan, mae gofyniad yn y Rheolau Sefydlog i gyhoeddi'r bwriad o gyflwyno Bil Preifat mewn papurau newydd ac yn y London Gazette, a darpariaeth ar gyfer yr hysbysiadau sydd i'w rhoi i fathau penodol o bobl mewn perthynas â mathau penodol o Filiau. Bydd penderfyniadau a wnaed gan y Llywydd yn cyd-fynd â Rheol Sefydlog ddiwygiedig 26A, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau eraill gan y Llywydd ar gyfer hyrwyddwyr, gwrthwynebwyr, Aelodau a'r cyhoedd. Bydd penderfyniadau'r Llywydd yn nodi'r gofynion ar gyfer ymgynghori, hysbysu ac ati, gan gynnwys y rhai penodol ar gyfer "Biliau Gwaith" o dan Reol Sefydlog 26A.2. |
| **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat** | | |
| ~~26A.12~~ | Ar yr un pryd ag y bydd hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** - Byddai'r Rheolau Sefydlog ar Ddogfennau Ategol (26A.13, 26A.14 a 26A.15) yn cael eu haralleirio |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.13 | Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae’n rhaid iddo:<br><br>(i) datgan y byddai darpariaethau’r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br><br>(ii) nodi’r rhesymau pam y mae darpariaethau’r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Preifat, gan roi sylw penodol i’r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.~~39~~45;<br><br>(iii) nodi amcanion y Bil Preifat;<br><br>(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu’r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;<br><br>(v) nodi’r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion y Bil Preifat a’r ffyrdd o’u gwireddu; a<br><br>(b) manylion y Bil Preifat, | rhywfaint a’u gwahanu i'w gwneud yn gliriach, a byddai'r cyfeiriadau ymhellach ymlaen yn y Rheolau Sefydlog yn cael eu hailrifo yn unol â hynny. Mae nifer o ddiwygiadau’n cael eu cynnig er mwyn cwmpasu gofynion ychwanegol i'w cynnwys mewn Memorandwm Esboniadol Bil Preifat ar gyfer adeiladu / prynu tir yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys gofynion a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a / neu reoliadau cynllunio sy'n gymwys yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| | ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;<br><br>(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;. | |
| 26A.14 | Yn achos Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys:<br><br>(i) manylion llawn am sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion a nodir yn Rheol Sefydlog 26A.12;<br><br>(ii) Datganiad Amcangyfrif o Dreuliau a Chyllid sy'n nodi amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect a gynigir yn y Bil Preifat a'r ffynonellau cyllid a ragwelir er mwyn talu am gost y prosiect ac unrhyw fanylion ariannol eraill y penderfynir arnynt gan y Llywydd; | **Mewnosod Rheol Sefydlog Newydd** – Yn achos Biliau "Gwaith", mae'n rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys manylion gofynion ymgynghori a hysbysu (e.e. mewn perthynas â hysbysiadau a chaniatadau cynllunio / gofynion prynu gorfodol a nodir mewn deddfwriaeth). Mae'n ofynnol darparu rhai dogfennau'n ymwneud â'r costau a'r cynlluniau ar gyfer y prosiect, ac asesiadau amgylcheddol hefyd. Bydd y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y math o brosiect – bydd penderfyniad y Llywydd yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau a fyddai'n berthnasol i'r prosiect dan sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | (iii) unrhyw fapiau, cynlluniau, trawsluniau a llyfrau o gyfeiriadau fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth neu gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd; a<br><br>(iv) Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi gwybodaeth am yr effaith amgylcheddol y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd. | Mae'r Rheol Sefydlog hon yn cyfeirio'n ôl at Reol Sefydlog 26A.12 uchod ynghylch gofynion o dan ddeddfwriaeth. |
| 26A.14A | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26A.13 a Rheol Sefydlog 26A.14, lle y bo'n berthnasol, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn gweithredu Argymhelliad 19(i) yn Adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn dangos yn glir ble yn y Memorandwm Esboniadol y ceir hyd i ofynion y Rheol Sefydlog (er enghraifft, trwy gyfrwng* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *mynegai priodol).* |
| 26A.14B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn gweithredu Argymhelliad 19 (iv) yn Adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn darparu tabl tarddiadau.* |
| 26A.14C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd:** I weithredu Argymhelliad 20 yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol bod Atodlenni Keeling ar gael i gyd-fynd â Bil pan gaiff ei gyflwyno (os yw'n cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol).* |
| ~~26A.12~~ | ~~(vii)~~Ynghyd â'r memorandwm esboniadol rhaid | |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.15 | darparu~~cynnwys~~ Datganiad Hyrwyddwr sy'n nodi:<br><br>(~~a~~i) yn achos Bil Preifat sy'n cynnwys darpariaeth a fydd yn effeithio ar eiddo, ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar hawliau neu ddyletswyddau contractiol eraill unrhyw berson heblaw'r hyrwyddwr, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr hyrwyddwr i unrhyw bersonau neu ddosbarthiadau o berson yr effeithir ar ei eiddo, ei ystâd neu ei fuddiant mewn tir, neu ar ei hawliau neu ei ddyletswyddau contractiol eraill a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;<br><br>(~~b~~ii) yn achos Bil Preifat lle mae'r hyrwyddwr yn gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau, fanylion penderfyniad ffurfiol y corff hwnnw neu'r gymdeithas honno i hyrwyddo'r Bil Preifat a chadarnhad bod y penderfyniad o dan sylw wedi'i wneud yn unol â chyfansoddiad y corff hwnnw neu'r gymdeithas honno; | (i) **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – Cafwyd cyngor cyfreithiol ar ddiwygio'r adran hon er mwyn cynnwys y derminoleg gywir ar gyfer Cymru a Lloegr ynghylch 'eiddo'. Byddai'r Rheol Sefydlog yn cael ei ddiwygio i gynnwys pob math o eiddo a hawliau y gallai Bil Preifat effeithio arnynt.<br><br>(ii) **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | (~~e~~iii) yn achos Bil Preifat sy'n cynnwys darpariaeth i roi pwerau i unrhyw gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau, heblaw'r hyrwyddwr, neu i ddiwygio'u cyfansoddiad, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr hyrwyddwr i'r corff corfforaethol neu'r gymdeithas anghorfforedig o bersonau a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;<br><br>(iv) datganiad yn rhestru'r mangreoedd lle y caniateir archwilio neu brynu unrhyw ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r Bil Preifat, ond nad ydynt yn ddogfennau ategol a gyhoeddir gan y Cynulliad;<br><br>(v) ymrwymiad i anfon copi o'r Bil Preifat a'r holl ddogfennau ategol perthnasol i'r mangreoedd y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26A.15(iv) ac, yn achos Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo, at y rhai y mae'n ofynnol ymgynghori â | (iii) **Cadw'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>(iv) a (v) **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – cynigir y diwygiad i wneud yn siŵr bod yr hyrwyddwr yn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio neu eu prynu, er enghraifft drwy awdurdodau lleol neu mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, ac yn achos y rhai y mae'n rhaid ymgynghori â hwy / eu hysbysu o dan y ddeddfwriaeth, yn darparu copïau o'r dogfennau hynny iddynt. Byddai manylion am y gofyniad hwn yn cael eu nodi ym mhenderfyniadau'r Llywydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | hwy neu eu hysbysu yn unol â Rheol Sefydlog 26A.12.<br><br>(vi) ymrwymiad i dalu unrhyw gostau y gall y Comisiwn eu hysgwyddo yn ystod hynt y Bil Preifat mewn perthynas ag unrhyw faterion y bydd y Comisiwn yn penderfynu arnynt;<br><br>(vii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | (vi) **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – cynigir y diwygiad i ganiatáu ar gyfer adennill costau gweinyddol gan yr hyrwyddwr. Byddai penderfyniadau'r Llywydd yn pennu'r costau hynny y gellir eu hadennill, gall y rhain gynnwys darparu gwasanaethau gan gyflenwyr trydydd parti na ellir talu amdanynt o adnoddau arferol Comisiwn y Cynulliad.<br><br>(vii) **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – cynigir y diwygiad i adlewyrchu'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(viii) i Femorandwm Esboniadol Bil Cyhoeddus gynnwys barn yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'n briodol codi gwariant uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Hysbysiad bod Bil Preifat wedi'i gyflwyno** | | **Cadw'r Is-bennawd** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.13~~<br><br>26A.16 | Cyn gynted ag y bydd Bil Preifat wedi'i gyflwyno, rhaid i'r hyrwyddwr gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan:<br><br>(i) effaith gyffredinol y Bil Preifat;<br><br>(ii) y gall y Bil Preifat a'r holl ddogfennau ategol gael ~~ei archwilio~~eu harchwilio yn y Cynulliad ac mewn un neu ragor o fannau yng Nghymru gan gynnwys, yn achos Bil Preifat sy'n ~~ymwneud ag~~effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, fan yn yr ardal honno;<br><br>(iii) y caiff personau sy'n credu y byddai'r Bil Preifat yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad gyntaf mewn papur newydd ("y cyfnod gwrthwynebu");<br><br>(iv) sut i gyflwyno gwrthwynebiad a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gwrthwynebiad hwnnw, gan roi sylw i Reol Sefydlog ~~26A.19~~26A.23;<br><br>(v) y caiff gwrthwynebiad ofyn naill ai i'r Bil Preifat beidio â chael ei gymeradwyo neu i newidiadau gael eu gwneud i'r Bil Preifat cyn iddo gael ei | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** – cynigir y diwygiad i sicrhau y byddai hysbysiad yr hyrwyddwr yn ymdrin â'r ffaith bod yr holl ddogfennau ategol perthnasol ar gael i'w harchwilio, ac nid dim ond y Bil. |

| | | |
|---|---|---|
| | gymeradwyo;<br><br>(vi) bod rhaid i'r person sy'n gwneud gwrthwynebiad gydymffurfio ag unrhyw ~~ganllawiau a gyhoeddir~~benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynghylch gwneud gwrthwynebiad. | |
| 26A.17 | Wrth gyfrifo'r cyfnod gwrthwynebu o dan Reol Sefydlog 26.16(iii), ni roddir ystyriaeth i unrhyw gyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r Cynulliad ac yn gorffen ar ddyddiad ailgyflwyno Bil Preifat yn y Cynulliad nesaf. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd** – Diwygiad canlyniadol yn ymwneud â Rheol Sefydlog 26A.144 isod yw hwn. Ar hyn o bryd, bydd Bil Preifat yn methu os bydd diddymiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.144 ond mae'r Rheolau Sefydlog yn San Steffan ac yn Senedd yr Alban yn caniatáu ailgyflwyno Bil Preifat yn yr un telerau yn y Senedd nesaf gan ailgydio â'r gwaith ar y pwynt lle daeth y trafodion blaenorol i ben. Mae'r diwygiad arfaethedig hwn yn eithrio cyfnod y diddymiad rhag cael ei gynnwys at ddibenion y cyfnod gwrthwynebu. |
| ~~26A.14~~ | Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~13~~16 gael ei gyhoeddi: | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.18 | (i) mewn o leiaf un papur newydd sy’n cylchredeg ledled Cymru (neu, os yw’r Bil Preifat yn ~~ymwneud ag~~effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, ledled yr ardal honno); a<br><br>(ii) drwy ba fodd arall bynnag sy’n briodol, yn unol ~~â chanllawiau a gyhoeddir~~ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd, i’w ~~sicrhau ei fod yn dod i~~ddwyn i sylw’r rhai y mae’r Bil Preifat yn debyg o effeithio ar eu buddiannau. | Cynigir diwygio’r Rheol Sefydlog i’w wneud yn gliriach. |
| ~~26A.15~~<br><br>26A.19 | Cyn gynted ag y bydd yr hyrwyddwr wedi cydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 26A.~~13~~16, rhaid i’r hyrwyddwr roi hysbysiad ysgrifenedig o’r ffaith honno i’r Llywydd, gan roi manylion y canlynol:<br><br>(i) sut y cydymffurfiwyd â’r gofynion hynny; a<br><br>(ii) y trefniadau a wnaeth yr hyrwyddwr i sicrhau y gallai’r Bil Preifat gael ei archwilio (heblaw yn y Cynulliad) yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~13~~16(ii). | **Diwygio’r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |
| **Gwrthwynebu** | | |
| ~~26A.16~~ | Caiff person unigol, corff corfforaethol neu | **Diwygio’r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.20 | gymdeithas anghorfforedig o bersonau sydd o'r farn y byddai Bil Preifat a gyflwynid yn y Cynulliad yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau ("gwrthwynebydd") wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd mewn ysgrifen, yn unol â hysbysiad a roddir o dan Reol Sefydlog 26A.~~13~~16, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26A.~~13~~16(iii). | |
| ~~26A.17~~<br><br>26A.21 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26A.~~16~~20, caiff aelod o'r llywodraeth fod yn wrthwynebydd hefyd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.18~~<br><br>26A.22 | Rhaid i'r Llywydd ddyfarnu a yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.19~~<br><br>26A.23 | Dim ond:<br><br>(i) os yw'n cydymffurfio ag unrhyw ~~ganllawiau a roddir~~benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ~~o dan Reol Sefydlog 6.17~~ ynglŷn â gwneud gwrthwynebiad;<br><br>(ii) os yw'n nodi natur y gwrthwynebiad; | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | (iii) os yw'n nodi'r darpariaethau yn y Bil Preifat sy'n arwain at y gwrthwynebiad;<br><br>(iv) os yw'n pennu sut y byddai'r Bil Preifat yn effeithio'n andwyol ar fuddiannau'r gwrthwynebydd<br><br>y bydd gwrthwynebiad yn dderbyniadwy. | |
| ~~26A20~~<br><br>26A.24 | Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r hyrwyddwr am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26A.~~18~~22 ac, os dyfernir nad yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r hyrwyddwr dros y penderfyniad hwnnw. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.21~~<br><br>26A.25 | Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, rhaid i'r Clerc gyhoeddi pob gwrthwynebiad derbyniadwy. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| | | |
| ~~26A.22~~<br><br>26A.26 | Os caiff y Llywydd wrthwynebiad ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben ond cyn y cyfarfod cyntaf ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ac os ceir gyda'r gwrthwynebiad hwnnw ddatganiad gan y | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | gwrthwynebydd sy'n esbonio'r oedi cyn cyflwyno'r gwrthwynebiad, rhaid i'r Llywydd benderfynu a yw wedi'i fodloni:<br><br>(iv) bod y gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~19~~<u>23</u>;<br>(ii) bod gan y gwrthwynebydd reswm da dros beidio â gwneud y gwrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu;<br><br>(iii) bod y gwrthwynebydd wedi gwneud y gwrthwynebiad cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; a<br><br>(iv) na fyddai'n afresymol ystyried y gwrthwynebiad hwnnw o gofio hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr a'r hyrwyddwr. | |
| ~~26A.23~~<br><br><u>26A.27</u> | Os yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly:<br><br>(i) rhaid iddo roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad;<br><br>(ii) rhaid i'r Clerc gyhoeddi'r gwrthwynebiad; a<br><br>(iii) rhaid i'r pwyllgor a sefydlir yn unol â Rheol | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | Sefydlog 26A.~~26~~32 roi ystyriaeth i'r gwrthwynebiad. | |
| ~~26A.24~~<br><br>26A.28 | Os nad yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly, rhaid iddo:<br><br>(i) rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad, a;<br><br>(ii) rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r gwrthwynebydd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.25~~<br><br>26A.29 | Caniateir i wrthwynebiad gael ei dynnu'n ôl gan y gwrthwynebydd, yn unol ag unrhyw ~~ganllawiau a roddir~~benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| **Datganiadau mewn perthynas ag ymgynghori** | | **Pennawd newydd** |
| 26A.30 | Caiff unrhyw berson yr ymgynghorwyd ag ef neu unrhyw berson a hysbyswyd, neu unrhyw berson y dylid bod wedi ymgynghori ag ef neu ei hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.12 yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ddwyn unrhyw ddiffyg yn y broses ymgynghori neu hysbysu i sylw'r Llywydd drwy | **Mewnosod Rheol Sefydlog Newydd**<br><br>Byddai'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i unrhyw berson neu gorff y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy neu eu hysbysu o dan ddeddfwriaeth sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflwyno datganiad ysgrifenedig. | berthnasol i'r Bil Preifat dan sylw roi sylwadau ar y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan yr hyrwyddwr yn gynnar. Ni fyddai rhai cyrff statudol (e.e. yr awdurdod lleol perthnasol a'r prif gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau ar y tir, fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) yn llwyddo i brofi bod effaith andwyol ar eu buddiannau preifat – mae hyn yn rhoi cyfle iddynt fynd ati'n uniongyrchol ar gam cynnar i fynegi pryderon ynghylch unrhyw effaith andwyol ar y nwyddau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt. |
| 26A.31 | Ni chaniateir trin datganiad o'r fath fel gwrthwynebiad o dan Reol Sefydlog 26A.20 ond caiff Pwyllgor Bil Preifat ei ystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26A.45(ii). | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r rheol newydd hon yn dilyn ymlaen o'r Rheol Sefydlog 26A.30 newydd. |
| **Pwyllgorau Biliau Preifat** | | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.26~~<br><br>26A.32 | Pan fydd Bil Preifat wedi'i gyflwyno, ~~ac ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26A.13(iii) ddod i ben,~~ rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig i sefydlu Pwyllgor Bil Preifat, yn unol â Rheol | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Byddai'r diwygiad hwn yn cael gwared ar y cyfyngiad sy'n golygu na chaiff y Pwyllgor Bil Preifat ei *sefydlu* tan fod y cyfnod gwrthwynebu |

| | | |
|---|---|---|
| | Sefydlog 16.5. | wedi dod i ben – er mwyn osgoi oedi diangen wrth iddo gael ei sefydlu, a thra bod Aelodau'n cael cyfarwyddyd / hyfforddiant a chyngor technegol – fel y gallai'r ystyriaeth gychwynnol o dan Reol Sefydlog 26A.44 ddechrau cyn gynted ag y daw’r cyfnod gwrthwynebu i ben. |
| ~~26A.27~~<br><br>26A.33 | Mae Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.7 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat ac eithrio bod rhaid iddo gynnwys dim llai na phedwar o aelodau. | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~*Buddiannau Aelodau a Chyfyngiadau o ran Aelodaeth Pwyllgorau*~~ | | |
| ~~26A.28~~<br><br>26A.34 | Rhaid i unrhyw Aelod y mae ganddo, neu y mae’n disgwyl y bydd ganddo, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan ei bartner neu y mae gan unrhyw blentyn dibynnol iddo, neu y mae’n~~nt yn~~ disgwyl y bydd ganddo~~ynt~~, fuddiant y mae’n ofynnol ei gofrestru o dan Reol Sefydlog 2 y gellid barnu ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar Fil Preifat, beidio â bod yn aelod o’r pwyllgor a sefydlir i ystyried y Bil hwnnw. | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Yng Nghymru, mae'r cyfrifoldeb ar yr Aelod Cynulliad i ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol o dan Reol Sefydlog 26A.34 a 26A.35, ac yn bwysig mae gofyniad yng Nghymru i gyhoeddi'r wybodaeth honno (gweler Rheol Sefydlog 26A.37 isod). |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| ~~26A.29~~<br><br>26A.35 | Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat roi gwybod i’r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o’r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26A.~~28~~34 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, etholaethol neu ranbarthol perthnasol arall ~~, heblaw buddiant o’r fath,~~ sydd ganddo neu ~~y mae’n disgwyl y bydd ganddo neu,~~ hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu~~ei bartner neu sydd gan unrhyw blentyn dibynnol iddo~~, neu y mae’n~~nt~~ ~~yn~~ disgwyl y bydd ganddo~~ynt~~, y ~~gellid, ym marn yr Aelod hwnnw, farnu~~gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Preifat. | **Diwygio’r Rheol Sefydlog**<br><br>Ar hyn o bryd nid yw darpariaethau'r Rheolau Sefydlog ar fuddiannau Aelodau yn cyfeirio'n benodol at unrhyw fudd sy'n deillio o brif fan preswylio'r Aelod neu'r etholaeth neu ranbarth y mae'n yn ei gynrychioli, ac nid yw Rheol Sefydlog 26A.34 yn cwmpasu'r rhain, gan ei fod yn berthnasol i gategorïau buddiannau Rheol Sefydlog 2 yn unig. Yn unol â gweithdrefnau deddfwrfeydd eraill y DU, cynigir y diwygiad i sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol y dylent fynegi unrhyw fuddiant o'r fath i'r Pwyllgor Busnes, ond mater i'r Pwyllgor Busnes fyddai penderfynu a fyddai hyn yn eu rhwystro rhag bod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat. O dan Reol Sefydlog 26A.37, câi'r buddiannau hynny |

| | | |
|---|---|---|
| | | bob amser eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynnig i ethol aelodau.<br><br>Mae geiriad Rheol Sefydlog 29A.35 hefyd yn cyd-fynd â'r gofyniad newydd yn y Rheolau Sefydlog i ddatgan 'buddiannau teuluol' yn y trafodion. Nid yw'r gofynion cofrestru o dan Reol Sefydlog 2 (a gwmpesir gan Reol Sefydlog 26A.35 uchod) yn cwmpasu buddiannau teuluol o'r fath, ond byddent yn sicr yn berthnasol i aelodaeth arfaethedig o Bwyllgor Bil Preifat. |
| ~~26A.30~~<br><br>26A.36 | At ddibenion Rheol~~au~~ Sefydlog 26A.~~28~~34 ~~a 26A.29~~, mae ystyron “partner” a “plentyn dibynnol” fel y’u diffiniwyd ym mharagraff 4 o’r Atodiad i Reol Sefydlog 2. | **Diwygio’r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.31~~<br><br>26A.37 | Rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~29~~35 ynglŷn ag Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat gael ei gyhoeddi yr un pryd â’r cynnig i sefydlu’r pwyllgor hwnnw. | **Diwygio’r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.32~~<br><br><u>26A.38</u> | Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Preifat, cyn cyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, ~~gyflawni~~<u>fod wedi cyflawni</u> cwrs hyfforddi perthnasol fel y pennwyd gan y Llywydd. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Os byddai aelod o Bwyllgor Bil Preifat eisoes wedi cael hyfforddiant ni fyddai angen iddo wneud hynny eto. |
| ~~26A.33~~<br><br><u>26A.39</u> | Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Preifat, yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, gytuno i weithredu'n ddiduedd, yn rhinwedd swydd yr Aelod hwnnw fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, a seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth a'r wybodaeth arall a ddarperir i'r pwyllgor hwnnw yn unig. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.34~~<br><br><u>26A.40</u> | Rhaid i aelodau Pwyllgor Bil Preifat, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Bil Preifat. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.35~~<br><br><u>26A.41</u> | Ni chaiff aelod o Bwyllgor Bil Preifat gymryd rhan mewn unrhyw drafodion ar y Bil Preifat oni bai:<br><br>(i) bod yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r Bil Preifat hwnnw a roddwyd ar lafar yn ystod trafodion y | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | pwyllgor wedi'i rhoi yng ngŵydd yr Aelod, neu<br><br>(ii) gyda chytundeb yr hyrwyddwr ac unrhyw wrthwynebydd y mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag ef, fod yr Aelod hwnnw wedi gweld recordiad neu wedi darllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth nas rhoddwyd yng ngŵydd yr Aelod. | |
| ~~26A.36~~<br><br>26A.42 | Nid yw Rheolau Sefydlog 17.12, 17.17 na 17.48 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon.** |
| ~~26A.37~~<br><br>26A.43 | Nid yw Rheol Sefydlog 17.49 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat, ac eithrio wrth i'r pwyllgor ystyried trafodion ar welliannau. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon.** |
| | **Yr Ystyriaeth Gychwynnol** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.38~~<br><br>26A.44 | Pan fydd y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26A.~~13~~16(iii) wedi dod i ben, rhaid i'r ~~Pwyllgor Busnes gyfeirio Bil a osodwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26A.8 at y~~ Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~26~~32 ("y pwyllgor"), ~~iddo~~ ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat a chyflwyno adroddiad ar hynny. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Gweler sylwadau o dan Reol Sefydlog 26A.32 uchod - y Pwyllgor Busnes a fyddai'n gwneud y cynnig i sefydlu Pwyllgor Bil Preifat, a fydd yn dechrau ystyriaeth gychwynnol ar ôl i'r cyfnod |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwrthwynebu ddod i ben. |
| ~~26A.39~~<br><br>26A.45 | Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat, rhaid i'r pwyllgor ystyried:<br><br>(i) a yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil ac a osodwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 26A.~~12~~13 i –15, ym marn y pwyllgor, yn ddigonol i ganiatáu gwaith craffu priodol ar y Bil;<br><br>(ii) a gynhaliodd yr hyrwyddwr ymgynghori digonol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno;<br><br>(iii) a yw darpariaethau'r Bil yn peri ei fod yn briodol i'w ystyried fel Bil Preifat yn unol â Rheol Sefydlog 26A, gan roi sylw penodol i'r canlynol:<br><br>(a) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn effeithio ar faterion o bolisi cyhoeddus;<br><br>(b) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth arall;<br><br>(c) maint yr ardal y mae'n ~~ymwneud â hi~~effeithio arni; | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog**<br><br>Yn unol â newidiadau i Reol Sefydlog 26A.13-15 uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | (d) nifer a natur y buddiannau y mae'n effeithio arnynt. | |
| ~~26A.40~~<br><br>26A.46 | Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor nad yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil yn ddigonol i alluogi'r pwyllgor i gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~38~~44, caiff y pwyllgor, cyn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat, ganiatáu unrhyw gyfnod rhesymol y mae'r pwyllgor yn credu ei fod yn briodol i'r hyrwyddwr ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ym marn y pwyllgor yn angenrheidiol ("dogfennau ategol ychwanegol"). | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.41~~<br><br>26A.47 | Rhaid i unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol gael eu gosod. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.42~~<br><br>26A.48 | Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, caiff y Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno i'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.43~~<br><br>26A.49 | Os ~~cytunir ar g~~derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~42~~48, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.44~~<br><br>26A.50 | Os ~~na chytunir ar g~~gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~42~~48, mae'r Bil yn methu. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.45~~<br><br>26A.51 | Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Cynulliad wedi cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat neu pan fydd y Bil yn methu fel rhan o'r Ystyriaeth Gychwynnol. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| **Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor** | | |
| ~~26A.46~~<br><br>26A.52 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.47~~<br><br>26A.53 | Rhaid i'r trafodion adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu hystyried gan y ~~p~~Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd ~~yn unol â~~o dan ~~Rheol~~ Reol Sefydlog 26A.~~26~~32 ~~ac a ystyriodd drafodion yr Ystyriaeth Gychwynnol ar y Bil Preifat~~. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>I'w grynhoi. |
| ~~26A.48~~<br><br>26A.54 | Adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor:<br><br>(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat a chyflwyno adroddiad arnynt; | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) ystyried unrhyw wrthwynebiadau derbyniadwy, heblaw unrhyw wrthwynebiad nad oes iddo, ym marn y pwyllgor, sail o sylwedd a chyflwyno adroddiad arnynt; a<br><br>(iii) ystyried manylion y Bil Preifat yn unol â Rheolau Sefydlog 26A.~~55~~65 i 26A.~~71~~80 (gan gynnwys unrhyw welliannau derbyniadwy). | |
| | | |
| ~~26A.49~~<br><br>26A.55 | Mae gan y personau a ganlyn hawl i gael eu gwrando gerbron y pwyllgor yn bersonol, neu i gael eu cynrychioli:<br><br>(i) yr hyrwyddwr;<br><br>(ii) unrhyw wrthwynebydd (yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.~~52~~62) sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad derbyniadwy y mae'r pwyllgor o'r farn bod iddo sail o sylwedd;<br><br>(iii) aelod o'r llywodraeth;<br><br>a chânt gymryd rhan yn y trafodion yn unol ag | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | unrhyw ddyfarniadau gan y Cadeirydd. | |
| | | |
| 26A.56 | Pan fydd Pwyllgor a sefydlwyd i ystyried Bil Preifat yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff benodi asesydd, neu aseswyr, i ystyried gwrthwynebiadau. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Cynigir y Rheol Sefydlog hon i'w gwneud yn bosibl penodi asesydd / aseswyr annibynnol i ystyried gwrthwynebiadau ac i gynghori'r Pwyllgor Bil Preifat, er mwyn lleihau'r baich ar amser yr Aelodau ac yn unol â'r gweithdrefnau mewn mannau eraill. |
| 26A.57 | Caiff yr asesydd, neu'r aseswyr, gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Bil Preifat ynghylch:<br><br>i) a oes sail o sylwedd ar gyfer gwrthwynebiadau derbyniadwy;<br>ii) argymhellion ar gyfer grwpio gwrthwynebiadau;<br>iii) dethol tystion ac a ddylid gofyn am dystiolaeth gan y tystion hynny ar lafar | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Byddai'r swyddogaethau craffu a neilltuir i'r asesydd yn fwy helaeth na'r rhai ar gyfer cynghorwr arbenigol o dan Reol Sefydlog 17.55: gallent gynnwys ystyried gwrthwynebiadau derbyniadwy ar ran y |

| | | |
|---|---|---|
| | neu'n ysgrifenedig; a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y penderfynir arnynt gan y Pwyllgor. | Pwyllgor, a gwneud argymhellion ar grwpio gwrthwynebiadau, dethol tystion ac a ddylid gofyn am dystiolaeth ar lafar neu'n ysgrifenedig. Yn ôl Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban a San Steffan, mae'n ofynnol i'r asesydd lunio adroddiad i'w gyflwyno i'r ddeddfwrfa. |
| ~~26A.50~~<br><br>26A.58 | Caiff y Cadeirydd, wrth ddyfarnu ar sut y caiff gwrthwynebydd (neu berson arall) gymryd rhan yn y trafodion, gymryd i ystyriaeth natur y gwrthwynebiad neu'r sylwadau eraill ac i ba raddau y mae natur y cyfraniad hwnnw yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r pwyllgor i ystyried y gwrthwynebiad a chyflwyno adroddiad arno. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.51~~<br><br>26A.59 | Caiff y Pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| 26A.60 | Rhaid i'r Pwyllgor Bil Preifat ystyried rhinweddau'r gwrthwynebiadau yng nghyd-destun-<br>(i) unrhyw dystiolaeth a gyflwynir iddo; neu<br>(ii) unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi gan unrhyw asesydd neu aseswyr a benodir yn unol â Rheol | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Cynigir y Rheol Sefydlog hon i roi manylion am sut y bydd rhinweddau'r gwrthwynebiadau yn |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Sefydlog 26A.56.</u> | cael eu hystyried gan y Pwyllgor a chydnabod rôl yr asesydd / aseswyr. |
| ~~26A.51~~<br><br><u>26A.61</u> | <u>Caiff y Pwyllgor Bil Preifat dderbyn neu wrthod–</u><br><u>(i) unrhyw wrthwynebiad yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono;</u><br><u>(ii) adroddiad asesydd yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono.</u> | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Fel y Rheol Sefydlog 26A.60 newydd arfaethedig uchod, ac unol â'r gweithdrefnau mewn mannau eraill. |
| ~~26A.52~~<br><br><u>26A.62</u> | Os yw'r pwyllgor o'r farn bod dau neu fwy o wrthwynebiadau yr un fath neu'n debyg i'w gilydd, caiff grwpio'r gwrthwynebiadau hynny gyda'i gilydd a dewis un neu ragor o wrthwynebwyr o'r grŵp hwnnw i roi tystiolaeth ac i gymryd rhan fel arall mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.53~~<br><br><u>26A.63</u> | Os yw'r pwyllgor, wrth baratoi ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~48~~<u>54</u>(i) a (ii), yn bwriadu argymell newid yn y Bil Preifat a phe bai'r newid hwnnw, o'i wneud, ym marn pwyllgor, yn effeithio ar fuddiannau'r personau eraill y cyfeirir atynt yn Rheol | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | Sefydlog 26A.~~54~~64, caiff y Pwyllgor gymryd unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol er mwyn sicrhau y caiff y personau eraill hynny gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwnnw. | |
| ~~26A.54~~<br><br>26A.64 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26A.~~53~~63, ystyr "personau eraill" yw:<br><br>(i) personau nad effeithiwyd ar eu buddiannau gan y Bil Preifat fel y'u cyflwynwyd ond y byddid yn effeithio ar eu buddiannau pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Preifat, neu<br><br>(ii) gwrthwynebwyr presennol y byddid yn effeithio ar eu buddiannau i raddau helaethach neu mewn ffyrdd newydd pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Preifat, gan arwain at seiliau newydd o sylwedd dros wrthwynebu. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.55~~<br><br>26A.65 | Caniateir i Fil Preifat gael ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.56~~ | Rhaid i 25 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.66 | y diwrnod y gosodir yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~48~~54(i) a (ii) a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor yn ystyried manylion y Bil Preifat ynddo yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~48~~54(iii). | |
| ~~26A.57~~<br>26A.67 | Heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i adroddiad y pwyllgor gael ei osod, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig na ddylai'r Bil Preifat fynd ymhellach. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.58~~<br>26A.68 | Os na chyflwynir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~57~~67, neu os cyflwynir cynnig o'r fath ond fe'i gwrthodir, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat a rhaid i'r pwyllgor fynd rhagddo i waredu gwelliannau i'r Bil Preifat, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~48~~54(iii). | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** – byddai Rheolau Sefydlog 26A.58 a 26A.61 yn cael eu cyfuno i'w crynhoi a byddent yn rhan o'r Rheol Sefydlog 26A.68 newydd (a gaiff ei hailrifo). |
| ~~26A.59~~<br>26A.69 | Rhaid trefnu bod amser ar gael i gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26A.~~57~~67 gael ei drafod o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad cyflwyno'r cynnig (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd). | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.60~~ | Os ~~cytunir â ch~~derbynnir cynnig a gyflwynir o dan | **Diwygio cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.70 | Reol Sefydlog 26A.~~57~~67, mae'r Bil Preifat yn methu. | |
| ~~26A.61~~ | ~~Os na chytunir â chynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26A.57, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat a rhaid i'r pwyllgor fynd rhagddo i waredu gwelliannau i'r Bil Preifat, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.48(iii).~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog** |
| ~~26A.62~~<br><br>26A.71 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y gosododd y pwyllgor ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~48~~54(i) a (ii). | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.63~~<br><br>26A.72 | O dan amgylchiadau eithriadol, caiff Cadeirydd y pwyllgor dderbyn gwelliant yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26A.~~98~~118. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr". | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.64~~<br><br>26A.73 | Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat, oni bai bod y pwyllgor wedi penderfynu fel arall. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.65~~<br><br>26A.74 | Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor hwnnw at y dibenion a ganlyn:<br><br>(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu<br><br>(ii) pleidleisio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.66~~<br><br>26A.75 | Caniateir i welliant gan Aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.67~~<br><br>26A.76 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, ~~rhaid barnu~~bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>I'w gwneud yn gliriach. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu **nad yw'r** Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen. |
| ~~26A.68~~<br><br>26A.77 | Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | |
| ~~26A.69~~<br><br>26A.78 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.70~~<br><br>26A.79 | Os caiff Bil Preifat ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ~~i fewnosod adran neu atodlen, neu i newid yn sylweddol ar unrhyw ddarpariaeth bresennol, caiff y pwyllgor ofyn~~rhaid i'r hyrwyddwr baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir y diwygiad yn unol â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| ~~26A.71~~<br><br>26A.80 | Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig ~~y gofynnir amdano~~a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26A.~~70~~79 gael ei osod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir y diwygiad yn unol â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| **Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad** | | |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.72~~<br><br><u>26A.81</u> | Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.73~~<br><br><u>26A.82</u> | Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.74~~<br><br><u>26A.83</u> | Rhaid i Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael ei hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.75~~<br><br><u>26A.84</u> | Caniateir i Fil Preifat gael ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.76~~<br><br><u>26A.85</u> | Caniateir i welliannau i'w hystyried adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd y cyfnod yn dechrau. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.77~~<br><br><u>26A.86</u> | Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.78~~ | Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.87 | mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat, oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes~~ (yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(ii))~~. | Dileu'r cyfeiriad at Reol Sefydlog 11.7(ii) gan fod y geiriad yn ddiangen – bydd pob Bil Preifat yn rhan o fusnes y Cynulliad. |
| ~~26A.79~~<br><br>26A.88 | Drwy gynnig heb hysbysiad gan y Pwyllgor Busnes ~~(yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(ii))~~, caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd). | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon**<br><br>Dileu'r cyfeiriad at Reol Sefydlog 11.7(ii) gan fod y geiriad yn ddiangen – bydd pob Bil Preifat yn rhan o fusnes y Cynulliad. |
| ~~26A.80~~<br><br>26A.89 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~79~~88, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:<br><br>(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu<br><br>(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | rhag cael ei chwtogi'n afresymol. | |
| ~~26A.81~~<br><br>26A.90 | Dim ond os ydynt, yn ychwanegol at y meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.~~100~~120, wedi'u bwriadu ar gyfer y canlynol:<br><br>(i) egluro geiriad darpariaeth yn y Bil Preifat (gan gynnwys dileu anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg neu rhyngddynt), neu<br><br>(ii) rhoi eu heffaith i ymrwymiadau a roddwyd ar ran yr hyrwyddwr adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu<br><br>(iii) rhoi eu heffaith i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~48~~54(i) a (ii),<br><br>y mae gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dderbyniadwy. | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |
| ~~26A.82~~<br><br>26A.91 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno<br><br>wedi'i waredu, ~~rhaid barnu~~bernir bod y Cynulliad wedi ~~derbyn~~cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>I'w gwneud yn gliriach. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu **nad yw'r** Pwyllgor wedi gwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen. |
| ~~26A.83~~<br>26A.92 | Os na chyflwynir gwelliant i adran neu atodlen, bernir bod y Cynulliad wedi ~~derbyn~~cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.84~~<br>26A.93 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i ~~derbyn~~chytuno, pa un bynnag yw'r olaf. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| | **Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor** | **Is-bennawd newydd** |
| 26A.94 | Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad wedi eu gwaredu yn unol â Rheol Sefydlog 26A.93, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod unrhyw ran o'r Bil Preifat a bennir yn y cynnig yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Bil Preifat ar gyfer Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Ar hyn o bryd ni ellir cyfeirio'r Bil Preifat yn ôl at y Pwyllgor ar ôl cyrraedd y Cyfnod Terfynol. Cynigir ychwanegu darpariaethau tebyg i'r rhai yn Senedd yr Alban i gyfeirio Bil Preifat yn ôl at y Pwyllgor Bil Preifat, er mwyn ystyried, a gwaredu, gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod |

| | | |
|---|---|---|
| | | trafodion Cyfnod 3 a / neu waith craffu pellach, cyn i'r Bil gael ei basio. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol yn achos Bil Preifat, yn enwedig o ystyried y gweithdrefnau arbennig lled-farnwrol ar gyfer ei ystyried. Mae darpariaeth yn Rheol Sefydlog 26A ar hyn o bryd i ailddechrau trafodion Pwyllgor os bydd yr hyrwyddwr yn newid (gweler Rheol Sefydlog 26A.127 isod). |
| 26A.95 | Mae Rheolau Sefydlog 26A.65 a 26A.71 hyd at 26A.80 yn gymwys i Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor" yn unol â hynny. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r rheol hon yn dilyn ymlaen (yr un fath â'r dull ar gyfer cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor). |
| 26A.96 | Yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor caiff y pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Os bydd y Pwyllgor o'r farn bod angen casglu rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â gwelliannau i'r Bil yng nghyfnod Ystyriaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fanwl Bellach y Pwyllgor, byddai'r Rheol Sefydlog hon yn gwneud hynny'n bosibl (mae'n adlewyrchu Rheol Sefydlog 26A.59 ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor). |
| 26A.97 | Mae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.94. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r rheol hon yn dilyn ymlaen (yr un fath â'r dull ar gyfer cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor). |
| 26A.98 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y dechreuodd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu Rheol Sefydlog 26A.71 ar Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor - o ran pryd y gellir cyflwyno gwelliannau. |
| 26A.99 | Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.120, mae gwelliannau yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dderbyniadwy dim ond os ydynt yn welliannau i'r darpariaethau a gyfeiriwyd yn ôl at y Pwyllgor Bil Preifat, neu os ydynt yn | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'n dilyn y dull a ddefnyddir yn Senedd yr |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>welliannau y byddai eu hangen o ganlyniad i dderbyn unrhyw welliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.</u> | Alban o ran y math o welliannau sy'n dderbyniadwy yn y cyfnod hwn. |
| **<u>Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad</u>** | | **Is-bennawd newydd** |
| <u>26A.100</u> | <u>Pan fydd Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26A.93, neu pan fydd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26A.78 os cafodd ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau mewn Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Caniateir trafod cynnig o'r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio.</u> | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Cynigir cynnwys darpariaeth alluogi ar gyfer trafodion Cyfnod 3 pellach yn Rheol Sefydlog 26A, yn yr un ffordd ag y mae darpariaeth ar gyfer Cyfnod Adrodd yn Rheol Sefydlog 26. (Disgwylir y byddai'r Cadeirydd neu aelod o'r Pwyllgor Bil Preifat yn gwneud y cynnig ar ran yr hyrwyddwr gan nad oes 'Aelod sy'n gyfrifol'). Cynigir y gellid trafod y cynnig ond nid ei ddiwygio, yn unol â chynnig yn ystod y Cyfnod Adrodd o dan Reol Sefydlog 26.45.<br><br>Byddai'r ddarpariaeth hon yn fesur diogelwch pwysig i'w gwneud yn bosibl ystyried |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwelliannau terfynol, cyfyngedig i Filiau Preifat ar ddiwedd trafodion Cyfnod 3, e.e. i weithredu ymrwymiadau a wneir gan yr hyrwyddwr, yn union cyn pasio'r Bil yng Nghyfnod 4. |
| 26A.100A | Mae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Cynulliad dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.100. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Byddai'r newid arfaethedig hwn yn sicrhau eglurder o ran pryd y mae Cyfnod Ystyriaeth Bellach y Cynulliad yn dechrau, pan fo'r Cynulliad yn cytuno i'w gynnal. |
| 26A.101 | Mae Rheolau Sefydlog 26A.82 i 26A.93 yn gymwys i drafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad". | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Diwygiad canlyniadol arfaethedig yn gyson â'r drefn ar gyfer y Cyfnod Adrodd o dan Reol Sefydlog 26. Byddai cwmpas unrhyw welliannau yn gyfyngedig, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.90. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Y Cyfnod Terfynol** | |
| ~~26A.85~~<br><br>26A.102 | Rhaid i Gyfnod Terfynol Bil Preifat gael ei gymryd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.86~~<br><br>26A.103 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.~~88~~107, caiff unrhyw Aelod, heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os cawsant eu cynnal, gyflwyno cynnig bod y Bil Preifat yn cael ei basio. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Mae hwn yn ddiwygiad canlyniadol i'r cynnig i gyflwyno'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 26A.100 uchod ar gyfer cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad, a / neu ar gyfer ail-draddodi'r Bil Preifat i'r Pwyllgor Bil Preifat cyn y Cyfnod Terfynol. |
| 26A.104 | Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.103 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Cynigir ychwanegu'r rheol hon i gyd-fynd â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| 26A.105 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.107, yn | **Rheol Sefydlog newydd** |

| | | |
|---|---|---|
| | union ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os caiff ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod y Bil Preifat yn cael ei basio. | Cynigir ychwanegu'r rheol hon i gyd-fynd â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| ~~26A.87~~<br>26A.106 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Preifat gael ei basio. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.88~~<br>26A.107 | Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Preifat yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Preifat ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.89~~<br>26A.108 | Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| | **Ailystyried Biliau Preifat a Basiwyd** | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.90~~<br>26A.109 | Yn unol ag adran 113 o'r Ddeddf, ~~A~~ar ôl i'r Bil Preifat gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:<br>(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Preifat wedi'i | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Yn unol ag adran 116(6)(b) o'r Ddeddf, gellir ailystyried Bil ar ôl ei basio mewn tair sefyllfa. |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf; a<br><br>(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a<br><br>(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall. | Ymdrinnir â'r cyntaf o'r rhain gan Reol Sefydlog 26A.109, sef yn achos Bil a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys ac a gyfeirir yn ddiweddarach at Lys Cyfiawnder Ewrop i gael dyfarniad rhagarweiniol. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol bod y Cynulliad yn bwriadu ailystyried y Bil – gweler y Rheol Sefydlog 26A.109A newydd arfaethedig isod – a rhaid i'r person a gyfeiriodd y Bil yn wreiddiol dynnu'r cyfeiriad hwnnw yn ôl – gweler Rheol Sefydlog 26A.109B isod – cyn y gall y Cyfnod Ailystyried ddechrau.<br><br>Nid yw holl ddarpariaethau'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y Rheolau Sefydlog presennol, ac mae'r diwygiadau drafft yn ceisio unioni'r pethau hynny sydd wedi'u hepgor.<br><br>Gellir hefyd ailystyried os bydd y Goruchaf Lys wedi dyfarnu, wedi i Fil gael ei gyfeirio ato, nad |

| | | |
|---|---|---|
| | | yw'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth oddi mewn iddo o fewn cymhwysedd, neu os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 114. Ymdrinnir â'r ddwy sefyllfa hyn gan **26A.110** a **26A.110A** isod. |
| 26A.109A | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.109 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'n adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf yn well, er mwyn eglurder. |
| 26A.109B | Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.109, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf. | **Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Fel uchod – o dan amgylchiadau Rheol Sefydlog 26A.109, ni all Cyfnod Ailystyried ond dechrau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. |
| ~~26A.91~~ | Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat: | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.110 | (i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynghylch cyfeiriad a wneir mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 o'r Ddeddf na fyddai'r Bil Preifat neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu<br><br>(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Preifat o dan adran 114 o'r Ddeddf. | Fel uchod – yr ail a'r drydedd sefyllfa lle gellir cynnal Cyfnod Ailystyried. |
| ~~26A.91A~~<br><br>26A.111 | Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.110, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw ~~gynnig a wneir o dan Reol Sefydlog 26A.90 neu 26A.91~~ gael ei dderbyn gan y Cynulliad. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Fel uchod. |
| ~~26A.91B~~ | ~~Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.~~ | **Dileu'r Rheol Sefydlog**<br><br>Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynnwys yn Rheol Sefydlog 26A.112 isod. |
| ~~26A.92~~<br><br>26A.112 | ~~Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.~~<br><br>Mae Rheolau Sefydlog 26A.82 i 26A.93 a 26A.100 i | **Diwygio'r Rheol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | 26A.101 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Ailystyried. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" ac “Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad” yn gyfeiriadau at “y Cyfnod Ailystyried” a “y Cyfnod Ailystyried pellach” yn unol â hynny. | Cynigir er mwyn eglurder a chysondeb – i'w gwneud yn eglur y byddai’r rhan fwyaf o ddarpariaethau Cyfnod 3 hefyd yn berthnasol i'r Cyfnod Ailystyried. Mae'r Rheol Sefydlog hon yn crynhoi'r Rheolau Sefydlog sy'n gymwys i'r Cyfnod Ailystyried fel y byddent ar gyfer Cyfnod 3. Mae geiriad gwreiddiol y Rheol Sefydlog hon wedi'i ddileu, ond caiff ei gwmpasu gan Reol Sefydlog 26A.83. |
| ~~26A.93~~<br><br>26A.113 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Preifat yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.~~100~~120, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:<br><br>(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;<br><br>(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu<br><br>(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf. | **Diwygio’r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.94~~<br><br>26A.114 | Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat. | |
| ~~26A.95~~<br><br>26A.115 | Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Preifat a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| **Gwelliannau i Filiau Preifat** | | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.96~~<br><br>26A.116 | Mae Rheolau Sefydlog 26A.~~97~~117 i 26A.~~105~~125 yn gymwys i welliannau yn ystod ~~d~~trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ~~i d~~trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad a ~~c i d~~thrafodion y Cyfnod Ailystyried. | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog**<br><br>Testun wedi ei ddiwygio i gadarnhau mai at welliannau mae'r rheol yn cyfeirio. |
| ~~26A.97~~<br><br>26A.117 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Preifat. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.98~~<br><br>26A.118 | Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir er mwyn eglurder ac er mwyn cysondeb |

| | | |
|---|---|---|
| | | â Rheolau Sefydlog eraill. Heb y newid hwn, byddai'r Rheol Sefydlog yn golygu na chaniateir cyflwyno gwelliannau *yn gynharach* na phum diwrnod gwaith cyn iddynt gael eu hystyried. |
| ~~26A.99~~<br><br>26A.119 | Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.100~~<br><br>26A.120 | Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:<br><br>(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~97~~117;<br><br>(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil Preifat neu ddarpariaethau'r Bil Preifat y byddai'n ei ddiwygio;<br><br>(iii) os yw'n anghyson â'r egwyddorion cyffredinol fel yr adroddwyd arnynt gan y pwyllgor ac fel y bernir y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu<br><br>(iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.101~~<br><br>26A.121 | Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o'i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai'n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26A.~~97~~117 i 26A.~~105~~125 fod yn gymwys yn unol â hynny. | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |
| ~~26A.102~~<br><br>26A.122 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.~~65~~74, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae'n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i'r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o'r fath, daw'r gwelliant yn welliant yn enw'r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i'r gwelliant ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.103~~<br><br>26A.123 | Caiff Cadeirydd y pwyllgor neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.104~~ | Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw'n amser trafod y gwelliant | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| <u>26A.124</u> | hwnnw, caniateir i'r gwelliant gael ei gynnig:<br><br>(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o'r pwyllgor; neu<br><br>(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, unrhyw Aelod arall. | |
| ~~26A.105~~<br><br><u>26A.125</u> | Caniateir i welliant sydd wedi'i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond:<br><br>(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o'r pwyllgor yn gwrthwynebu; neu<br><br>(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| **Newid Hyrwyddwr** | | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.106~~<br><br><u>26A.126</u> | Mae Rheolau Sefydlog 26A.~~107~~<u>127</u> i 26A.~~112~~<u>132</u> yn gymwys pan na fydd yr hyrwyddwr, cyn i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben, mwyach yn dymuno neu yn gallu sicrhau'r pwerau neu'r manteision a roddir gan y Bil hwnnw, a bod unigolyn, corff corfforaethol | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau ("yr hyrwyddwr newydd") yn dymuno sicrhau'r pwerau neu'r manteision hynny. | |
| ~~26A.107~~<br><br><u>26A.127</u> | Rhaid i'r hyrwyddwr newydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, osod memorandwm sy'n nodi'r rhesymau dros newid hyrwyddwr ac amgylchiadau newid hyrwyddwr. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.108~~<br><br><u>26A.128</u> | Rhaid i'r pwyllgor, gan gymryd i ystyriaeth y memorandwm a osodir o dan Reol Sefydlog 26A.~~107~~<u>127</u> ac unrhyw wybodaeth arall gan yr hyrwyddwr newydd y mae'r pwyllgor yn gofyn amdani, ystyried goblygiadau newid hyrwyddwr ar gyfer hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr, personau eraill ac ar gyfer cynnydd y Bil Preifat. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.109~~<br><br><u>26A.129</u> | Caiff y pwyllgor, os yw o'r farn bod hynny'n briodol er mwyn amddiffyn hawliau neu fuddiannau gwrthwynebwyr neu bersonau eraill, neu er mwyn sicrhau gwaith craffu priodol ar y Bil Preifat:<br><br>(i) ei gwneud yn ofynnol i'r hyrwyddwr newydd osod dogfennau ategol ychwanegol; | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| | (ii) ei gwneud yn ofynnol i'r hyrwyddwr newydd roi unrhyw ymrwymiadau y mae'r pwyllgor o'r farn eu bod yn briodol;<br><br>(iii) ei gwneud yn ofynnol i'r trafodion ar y Bil Preifat adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu i ran o'r trafodion hynny, ddechrau eto;<br><br>(iv) cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar oblygiadau'r newid hyrwyddwr, gydag argymhelliad na ddylai'r Bil Preifat fynd rhagddo gyda'r hyrwyddwr newydd. | |
| ~~26A.110~~<br><br>26A.130 | Rhaid i adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.~~109(iv)~~129(iv) gael ei ystyried gan y Cynulliad drwy gynnig gan Gadeirydd y pwyllgor. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.111~~<br><br>26A.131 | Os ~~cytunir ar g~~derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~110~~130, mae'r Bil Preifat yn methu. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| ~~26A.112~~<br><br>26A.132 | Os ~~na chytunir ar g~~gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.~~110~~130, rhaid i'r pwyllgor neu'r Cynulliad barhau i ystyried y Bil Preifat. | **Diwygio'r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |
| **Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw** | | **Cadw'r Is-bennawd** |

| | | |
|---|---|---|
| ~~26A.113~~<br><br>26A.133 | Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'r Bil Preifat yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil Preifat gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth ~~yn ystod y trafodion ar y Bil Preifat~~ mewn cyfarfod o'r Cynulliad. | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br><br>Cynigir er eglurder ac er mwyn gwahanu trafodion Cyfnod 3 a Chyfnod 4: caiff aelod o'r Llywodraeth ddynodi cydsyniad *unrhyw bryd* mewn cyfarfod o'r Cynulliad cyn y ddadl Cyfnod 4, ac nid dim ond yn ystod trafodion Cyfnod 3 / y Cyfnod Adrodd ar gyfer y Bil hwnnw. |
| **Penderfyniadau Ariannol** | | **Cadw'r Is-bennawd** |
| ~~26A.114~~<br><br>26A.134 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Preifat o dan Reolau Sefydlog 26A.~~115~~135 i 26A.~~120~~140. | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |
| ~~26A.115~~<br><br>26A.135 | Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth:<br><br>(i) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru; neu<br><br>(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:<br><br>(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | Gronfa honno;<br><br>(b) gwariant arwyddocaol sy’n daladwy o’r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu<br><br>(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy’n daladwy o’r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,<br><br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Preifat mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i’r Pwyllgor Bil Preifat gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~48~~54(i) a (ii) oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i’r gwariant neu’r cynnydd yn y gwariant gael ei godi ar y Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni. | |
| ~~26A.116~~<br><br>26A.136 | Os yw:<br><br>(i) Bil Preifat yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n gosod neu’n cynyddu (neu sy’n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu’n rhoi pŵer i’w gwneud yn ofynnol) i | **Diwygio’r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | unrhyw daliad gael ei wneud; a<br><br>(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o’r Ddeddf, i’r person y mae’r tâl neu’r taliad yn daladwy iddo dalu<br><br>symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai’n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)),<br><br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Preifat mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i’r Pwyllgor Bil Preifat gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~48~~<u>54</u>(i) a (ii) oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno â’r tâl, y cynnydd neu’r taliad. | |
| ~~26A.117~~<br><br><u>26A.137</u> | Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26A.~~116~~<u>136</u>:<br><br>(i) bydd yn gymwys dim ond os yw’r tâl, y cynnydd yn y tâl neu’r taliad yn arwyddocaol; a<br><br>(ii) ni fydd yn gymwys os yw’r tâl, y cynnydd yn y tâl neu’r taliad:<br><br>(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol | **Diwygio’r cyfeiriad at Reol Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu<br><br>(b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer. | |
| ~~26A.118~~<br><br><u>26A.138</u> | Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil Preifat, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Preifat na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.119~~<br><br><u>26A.139</u> | Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.120~~<br><br><u>26A.140</u> | Oni bai:<br><br>(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil Preifat gan Reolau Sefydlog 26A.~~115~~<u>135</u> neu 26A.~~116~~<u>136</u> yn cael ei gyflwyno o | **Diwygio'r cyfeiriadau at Reolau Sefydlog** |

| | | |
|---|---|---|
| | fewn chwe mis ar ôl y dyddiad y mae’r Pwyllgor Bil Preifat wedi cyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.~~48~~54(i) a (ii); a<br><br>(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,<br><br>mae’r Bil Preifat yn methu. | |
| **Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Preifat y Cynulliad** | | **Cadw’r Is-bennawd** |
| ~~26A.121~~<br><br>26A.141 | Rhaid i’r Clerc hysbysu’r Cynulliad ynglŷn â’r dyddiad y bydd Deddf Breifat Cynulliad yn cael y Cydsyniad Brenhinol. | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon** |
| **Biliau Preifat yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu’n Cael eu Tynnu’n ôl** | | |
| ~~26A.122~~<br><br>26A.142 | Os bydd Bil Preifat yn methu neu’n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil Preifat hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil Preifat sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil Preifat neu y cafodd ei wrthod. | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon** |
| ~~26A.123~~ | Mae Bil Preifat yn methu os nad yw wedi’i basio neu wedi’i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y | **Cadw’r Rheol Sefydlog hon** |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.143 | Cynulliad y'i cyflwynwyd ynddo. | |
| 26A.144 | Pan fydd Bil Preifat yn methu o dan Reol Sefydlog 26A.143, caiff yr hyrwyddwr gyflwyno Bil Preifat yn yr un telerau yn y Cynulliad nesaf. Rhaid i destun y Bil Preifat a gaiff ei gyflwyno fod yr un fath â'r fersiwn a oedd yn cael ei hystyried gan y Cynulliad blaenorol ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin yn caniatáu ar gyfer gohirio neu adfywio Bil Preifat – gan ganiatáu i'r hyrwyddwr ailgyflwyno'r Bil Preifat gan ymrwymo ei fod yn union yr un fath â'r Bil a gyflwynwyd yn flaenorol, i'w gwneud yn bosibl i'r Bil barhau ei daith o un sesiwn neu senedd i'r nesaf, heb orfod ailadrodd cyfnodau trafod sydd eisoes wedi'u gwaredu, ond gyda darpariaeth i ymdrin ag unrhyw ddeisebau (gwrthwynebiadau) sy'n weddill ynglŷn â'r Bil. Mae rheolau tebyg ar waith yn Senedd yr Alban. Byddai cynnwys darpariaeth o'r fath yn caniatáu i Fil Preifat sy'n debygol o rychwantu mwy nag un Cynulliad, er enghraifft ar gyfer prosiect seilwaith mawr, gael ei ailgyflwyno yn yr un telerau. |

| | | |
|---|---|---|
| 26A.145 | Rhaid i'r dogfennau i gyd-fynd â'r Bil yn y Cynulliad blaenorol y cawsant eu cyhoeddi neu eu gosod yn unol â Rheol Sefydlog 15 hyd at ddyddiad diddymu'r Cynulliad gael eu defnyddio at ddibenion y Bil Preifat pan fo'n cael ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r rheol hon yn dilyn ymlaen o'r hyn a gynigir uchod. Dylai hyn gynnwys pob dogfen hyd at adeg y diddymiad, nid dim ond y rhai sy'n ofynnol ar adeg cyflwyno Bil, a phob dogfen a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor / hyrwyddwr, pa un a oedd gofyniad i'w gosod ai peidio. |
| 26A.146 | Dim ond yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad nesaf ac yn dod i ben ar y degfed diwrnod gwaith ar hugain ar ôl y dyddiad hwnnw y caiff hyrwyddwr gyflwyno Bil Preifat o dan Reol Sefydlog 26A.144. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae hyn dilyn ymlaen o'r cynnig uchod ynghylch terfyn amser: mae'n rhaid i'r hyrwyddwr ailgyflwyno'r Bil o fewn 30 diwrnod gwaith i gyfarfod cyntaf y Cynulliad newydd. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno Bil yn y cyfnod rhwng y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiadau'r Cynulliad a thoriad yr haf, sef cyfnod o 40-45 diwrnod gwaith ers 1999. Felly, mae 30 diwrnod gwaith yn caniatáu rhywfaint o |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyblygrwydd ynghylch amserlen y Cynulliad yn y dyfodol (ac mae hefyd yn adlewyrchu'r terfyn amser a bennwyd gan Senedd yr Alban). |
| 26A.147 | Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad blaenorol gael eu trin fel gwrthwynebiadau i'r Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf a rhaid i unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Bil Preifat yn ystod y Cynulliad blaenorol mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny fod yn gymwys. Rhaid peidio â chael unrhyw gyfnod gwrthwynebu pellach ar gyfer Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf yn ychwanegol at y cyfnod gwrthwynebu a gafwyd ar gyfer y Bil Preifat yn y Cynulliad blaenorol. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen o'r Rheol Sefydlog newydd uchod ynghylch ymdrin â gwrthwynebiadau. |
| 26A.148 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.149, os nad oedd y Cyfnod yr oedd y Bil Preifat ynddo ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad ar ben, rhaid i drafodion y Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf fel arfer gychwyn ar ddechrau'r Cyfnod. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen ac mae'n unol â'r gweithdrefnau mewn mannau eraill. |
| 26A.149 | Caiff y trafodion gychwyn yn ddiweddarach yn ystod Cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor: | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd** |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) os yw'r hyrwyddwr a phob person a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd yn y Cynulliad blaenorol naill ai;<br>(ii) yn rhoi'r dystiolaeth honno ar lafar i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ("y Pwyllgor newydd"); neu<br>(iii) yn cytuno y caiff aelodau'r Pwyllgor newydd weld recordiad neu ddarllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth a roddwyd yn lle hynny. | Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen – ni fyddai angen dychwelyd i ddechrau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor os bydd pawb dan sylw yn fodlon. Mae'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 26A.35 ynghylch gwrando ar dystiolaeth lafar yn y Pwyllgor. |
| 26A.150 | Pan fydd asesydd wedi'i benodi ond heb gyflwyno adroddiad cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu, rhaid i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ystyried adroddiad yr asesydd. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br><br>Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen os caiff Bil Preifat ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf. |
| ~~26A.124~~<br><br>26A.151 | Caniateir i Fil Preifat gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr hyrwyddwr. | **Cadw'r Rheol Sefydlog hon** |

Atodiad B

## RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Cynulliad

### Biliau Preifat

26A.1 At ddibenion Rheol Sefydlog 26A, mae Bil Preifat yn Fil a gyflwynir er mwyn sicrhau i berson unigol, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau ("yr hyrwyddwr") bwerau neu fanteision penodol sy'n fwy na'r gyfraith gyffredinol, neu sy'n gwrthdaro â hi, ac mae'n cynnwys Bil sy'n ymwneud ag ystâd, eiddo, statws neu ddull yr hyrwyddwr, neu sy'n ymwneud fel arall â buddiannau preifat yr hyrwyddwr.

26A.2 Mae Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo yn Fil Preifat sy'n ceisio awdurdodi neu hwyluso unrhyw waith adeiladu neu awdurdodi prynu'n orfodol unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir.

### Caniatâd i gyflwyno Bil Preifat

26A.3 Cyn cael eu cyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 26A.8, rhaid i Fil Preifat a'r dogfennau sy'n cyd-fynd ag ef y mae Rheolau Sefydlog 26A.13 i 26A.15 yn gofyn amdanynt gael eu hanfon gan yr hyrwyddwr at y Llywydd er mwyn i'r Llywydd benderfynu a ddylai ganiatáu i'r Bil gael ei gyflwyno.

26A.4 Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r hyrwyddwr am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26A.3 ac, os na fydd caniatâd yn cael ei roi, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r hyrwyddwr dros y penderfyniad hwnnw.

26A.5 Rhaid i Fil Preifat beidio â chael ei gyflwyno heb gytundeb y Llywydd ymlaen llaw.

### Ffioedd

26A.6 Caiff y Comisiwn bennu ffioedd sy'n daladwy gan hyrwyddwyr wrth gyflwyno Biliau Preifat ac mewn perthynas â chyfnodau ystyried Biliau Preifat a nodir yn Rheol Sefydlog 26A. Caiff y Comisiwn beidio â chodi ffi neu ostwng ffi a fyddai'n daladwy fel arall.

**Ffurf Biliau Preifat a sut i'w Cyflwyno**

26A.7 Caniateir i Fil Preifat gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.

26A.8 Rhaid i Fil Preifat gael ei gyflwyno drwy gael ei osod gan yr hyrwyddwr neu ar ei ran.

26A. 9 Rhaid peidio â gosod Bil Preifat oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

26A.10 Pan gyflwynir Bil Preifat, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i’r datganiad hwnnw:

(i) nodi a fyddai darpariaethau’r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a

(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a’r rhesymau dros y farn honno.

26A.11 Rhaid i Fil Preifat gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio pan na wneir hynny yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26A.9.

26A.12 Rhaid i Fil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo beidio â chael ei gyflwyno oni bai bod yr hyrwyddwr wedi cyflawni unrhyw ymgynghoriad neu hysbysiad sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill, ynghyd ag unrhyw ofynion ymgynghori neu hysbysu ychwanegol a nodir mewn unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat**

26A.13 Ar yr un pryd ag y bydd hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae’n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Preifat, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.45;

(iii) nodi amcanion y Bil Preifat;

(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;

(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:

(a) amcanion y Bil Preifat a'r ffyrdd o'u gwireddu; a

(b) manylion y Bil Preifat,

ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;

(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil.

26A.14 Yn achos Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys:

(i) manylion llawn am sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion a nodir yn Rheol Sefydlog 26A.12;

(ii) Datganiad Amcangyfrif o Dreuliau a Chyllid sy'n nodi amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect a gynigir yn y Bil Preifat a'r ffynonellau cyllid a ragwelir er mwyn talu am gost

y prosiect ac unrhyw fanylion ariannol eraill y penderfynir arnynt gan y Llywydd;

(iii) unrhyw fapiau, cynlluniau, trawsluniau a llyfrau o gyfeiriadau fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth neu gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd; a

(iv) Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi gwybodaeth am yr effaith amgylcheddol y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd.

26A.14A Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26A.13 a Rheol Sefydlog 26A.14, lle y bo'n berthnasol, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.

26A.14B Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.

26A.14C Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.

26A.15 Ynghyd â'r memorandwm esboniadol rhaid darparu Datganiad Hyrwyddwr sy'n nodi:

(i) yn achos Bil Preifat sy'n cynnwys darpariaeth a fydd yn effeithio ar eiddo, ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar hawliau neu ddyletswyddau contractiol eraill unrhyw

berson heblaw'r hyrwyddwr, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr hyrwyddwr i unrhyw bersonau neu ddosbarthiadau o berson yr effeithir ar ei eiddo, ei ystâd neu ei fuddiant mewn tir, neu ar ei hawliau neu ei ddyletswyddau contractiol eraill a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;

(ii) yn achos Bil Preifat lle mae'r hyrwyddwr yn gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau, fanylion penderfyniad ffurfiol y corff hwnnw neu'r gymdeithas honno i hyrwyddo'r Bil Preifat a chadarnhad bod y penderfyniad o dan sylw wedi'i wneud yn unol â chyfansoddiad y corff hwnnw neu'r gymdeithas honno;

(iii) yn achos Bil Preifat sy'n cynnwys darpariaeth i roi pwerau i unrhyw gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau, heblaw'r hyrwyddwr, neu i ddiwygio'u cyfansoddiad, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr hyrwyddwr i'r corff corfforaethol neu'r gymdeithas anghorfforedig o bersonau a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;

(iv) datganiad yn rhestru'r mangreoedd lle y caniateir archwilio neu brynu unrhyw ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r Bil Preifat, ond nad ydynt yn ddogfennau ategol a gyhoeddir gan y Cynulliad;

(v) ymrwymiad i anfon copi o'r Bil Preifat a'r holl ddogfennau ategol perthnasol i'r mangreoedd y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26A.15(iv) ac, yn achos Bil Preifat y mae Rheol Sefydlog 26A.2 yn gymwys iddo, at y rhai y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy neu eu hysbysu yn unol â Rheol Sefydlog 26A.12.

(vi) ymrwymiad i dalu unrhyw gostau y gall y Comisiwn eu hysgwyddo yn ystod hynt y Bil Preifat mewn perthynas ag unrhyw faterion y bydd y Comisiwn yn penderfynu arnynt;

(vii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.

**Hysbysiad bod Bil Preifat wedi'i gyflwyno**

26A.16 Cyn gynted ag y bydd Bil Preifat wedi'i gyflwyno, rhaid i'r hyrwyddwr gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan:

(i) effaith gyffredinol y Bil Preifat;

(ii) y gall y Bil Preifat a'r holl ddogfennau ategol gael eu harchwilio yn y Cynulliad ac mewn un neu ragor o fannau yng Nghymru gan gynnwys, yn achos Bil Preifat sy'n effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, fan yn yr ardal honno;

(iii) y caiff personau sy'n credu y byddai'r Bil Preifat yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad gyntaf mewn papur newydd ("y cyfnod gwrthwynebu");

(iv) sut i gyflwyno gwrthwynebiad a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gwrthwynebiad hwnnw, gan roi sylw i Reol Sefydlog 26A.23;

(v) y caiff gwrthwynebiad ofyn naill ai i'r Bil Preifat beidio â chael ei gymeradwyo neu i newidiadau gael eu gwneud i'r Bil Preifat cyn iddo gael ei gymeradwyo;

(vi) bod rhaid i'r person sy'n gwneud gwrthwynebiad gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynghylch gwneud gwrthwynebiad.

26A.17 Wrth gyfrifo'r cyfnod gwrthwynebu o dan Reol Sefydlog 26.16(iii), ni roddir ystyriaeth i unrhyw gyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r Cynulliad ac yn gorffen ar ddyddiad ailgyflwyno Bil Preifat yn y Cynulliad nesaf.

26A.18 Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 26A.16 gael ei gyhoeddi:

(i) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg ledled Cymru (neu, os yw'r Bil Preifat yn effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, ledled yr ardal honno); a

(ii) drwy ba fodd arall bynnag sy'n briodol, yn unol ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd, i'w ddwyn i sylw'r rhai y mae'r Bil Preifat yn debyg o effeithio ar eu buddiannau.

26A.19 Cyn gynted ag y bydd yr hyrwyddwr wedi cydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 26A.16, rhaid i'r hyrwyddwr roi hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Llywydd, gan roi manylion y canlynol:

(i) sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny; a

(ii) y trefniadau a wnaeth yr hyrwyddwr i sicrhau y gallai'r Bil Preifat gael ei archwilio (heblaw yn y Cynulliad) yn unol â Rheol Sefydlog 26A.16(ii).

**Gwrthwynebu**

26A.20 Caiff person unigol, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau sydd o'r farn y byddai Bil Preifat a gyflwynid yn y Cynulliad yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau ("gwrthwynebydd") wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd mewn ysgrifen, yn unol â hysbysiad a roddir o

dan Reol Sefydlog 26A.16, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26A.16(iii).

26A.21 At ddibenion Rheol Sefydlog 26A.~~16~~20, caiff aelod o'r llywodraeth fod yn wrthwynebydd hefyd.

26A.22 Rhaid i'r Llywydd ddyfarnu a yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy.

26A.23 Dim ond:

(i) os yw'n cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynglŷn â gwneud gwrthwynebiad;

(ii) os yw'n nodi natur y gwrthwynebiad;

(iii) os yw'n nodi'r darpariaethau yn y Bil Preifat sy'n arwain at y gwrthwynebiad;

(iv) os yw'n pennu sut y byddai'r Bil Preifat yn effeithio'n andwyol ar fuddiannau'r gwrthwynebydd

y bydd gwrthwynebiad yn dderbyniadwy.

26A.24 Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r hyrwyddwr am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26A.22 ac, os dyfernir nad yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r hyrwyddwr dros y penderfyniad hwnnw.

26A.25 Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, rhaid i'r Clerc gyhoeddi pob gwrthwynebiad derbyniadwy.

26A.26 Os caiff y Llywydd wrthwynebiad ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben ond cyn y cyfarfod cyntaf ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ac os ceir gyda'r gwrthwynebiad hwnnw ddatganiad gan y gwrthwynebydd sy'n esbonio'r oedi cyn cyflwyno'r gwrthwynebiad, rhaid i'r Llywydd benderfynu a yw wedi'i fodloni:

(i) bod y gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.23;

(ii) bod gan y gwrthwynebydd reswm da dros beidio â gwneud y gwrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu;

(iii) bod y gwrthwynebydd wedi gwneud y gwrthwynebiad cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; a

(iv) na fyddai'n afresymol ystyried y gwrthwynebiad hwnnw o gofio hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr a'r hyrwyddwr.

26A.27 Os yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly:

(i) rhaid iddo roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad;

(ii) rhaid i'r Clerc gyhoeddi'r gwrthwynebiad; a

(iii) rhaid i'r pwyllgor a sefydlir yn unol â Rheol Sefydlog 26A.32 roi ystyriaeth i'r gwrthwynebiad.

26A.28 Os nad yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly, rhaid iddo:

(i) rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad, a;

(ii) rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r gwrthwynebydd.

26A.29 Caniateir i wrthwynebiad gael ei dynnu'n ôl gan y gwrthwynebydd, yn unol ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd.

<u>Datganiadau mewn perthynas ag ymgynghori</u>

26A.30 Caiff unrhyw berson yr ymgynghorwyd ag ef neu unrhyw berson a hysbyswyd, neu unrhyw berson y dylid bod wedi ymgynghori ag ef neu ei hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.12 yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ddwyn unrhyw ddiffyg yn y broses ymgynghori neu hysbysu i sylw'r Llywydd drwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig.

26A.31 Ni chaniateir trin datganiad o'r fath fel gwrthwynebiad o dan Reol Sefydlog 26A.20 ond caiff Pwyllgor Bil Preifat ei ystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26A.45(ii).

**Pwyllgorau Biliau Preifat**

26A.32 Pan fydd Bil Preifat wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig i sefydlu Pwyllgor Bil Preifat, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5.

26A.33 Mae Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.7 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat ac eithrio bod rhaid iddo gynnwys dim llai na phedwar o aelodau.

26A.34 Rhaid i unrhyw Aelod y mae ganddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan ei bartner neu y mae gan unrhyw blentyn dibynnol iddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru o dan Reol Sefydlog 2 y gellid barnu ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar Fil Preifat, beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor a sefydlir i ystyried y Bil hwnnw.

26A.35 Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26A.34 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, etholaethol neu ranbarthol perthnasol arall, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Preifat.

26A.36 At ddibenion Rheol Sefydlog 26A.34, mae ystyron "partner" a "plentyn dibynnol" fel y'u diffiniwyd ym mharagraff 4 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2.

26A.37 Rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir yn unol â Rheol Sefydlog 26A.35 ynglŷn ag Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Preifat gael ei gyhoeddi yr un pryd â'r cynnig i sefydlu'r pwyllgor hwnnw.

26A.38 Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Preifat, cyn cyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, fod wedi cyflawni cwrs hyfforddi perthnasol fel y pennwyd gan y Llywydd.

26A.39 Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Preifat, yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, gytuno i weithredu'n ddiduedd, yn rhinwedd swydd yr Aelod hwnnw fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, a seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth a'r wybodaeth arall a ddarperir i'r pwyllgor hwnnw yn unig.

26A.40 Rhaid i aelodau Pwyllgor Bil Preifat, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Bil Preifat.

26A.41 Ni chaiff aelod o Bwyllgor Bil Preifat gymryd rhan mewn unrhyw drafodion ar y Bil Preifat oni bai:

(i) bod yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r Bil Preifat hwnnw a roddwyd ar lafar yn ystod trafodion y pwyllgor wedi'i rhoi yng ngŵydd yr Aelod, neu

(ii) gyda chytundeb yr hyrwyddwr ac unrhyw wrthwynebydd y mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag ef, fod yr Aelod hwnnw wedi gweld recordiad neu wedi darllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth nas rhoddwyd yng ngŵydd yr Aelod.

26A.42 Nid yw Rheolau Sefydlog 17.12, 17.17 na 17.48 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat.

26A.43 Nid yw Rheol Sefydlog 17.49 yn gymwys i Bwyllgor Bil Preifat, ac eithrio wrth i'r pwyllgor ystyried trafodion ar welliannau.

**Yr Ystyriaeth Gychwynnol**

26A.44 Pan fydd y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26A.16(iii) wedi dod i ben, rhaid i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26A.32 ("y pwyllgor"), ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat a chyflwyno adroddiad ar hynny.

26A.45 Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat, rhaid i'r pwyllgor ystyried:

(i) a yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil ac a osodwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 26A.13 i 15, ym marn y pwyllgor, yn ddigonol i ganiatáu gwaith craffu priodol ar y Bil;

(ii) a gynhaliodd yr hyrwyddwr ymgynghori digonol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno;

(iii) a yw darpariaethau'r Bil yn peri ei fod yn briodol i'w ystyried fel Bil Preifat yn unol â Rheol Sefydlog 26A, gan roi sylw penodol i'r canlynol:

(a) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn effeithio ar faterion o bolisi cyhoeddus;

(b) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth arall;

(c) maint yr ardal y mae'n effeithio arni;

(d) nifer a natur y buddiannau y mae'n effeithio arnynt.

26A.46 Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor nad yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil yn ddigonol i alluogi'r pwyllgor i gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.44, caiff y pwyllgor, cyn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat, ganiatáu unrhyw gyfnod rhesymol y mae'r pwyllgor yn credu ei fod yn briodol i'r hyrwyddwr ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ym marn y pwyllgor yn angenrheidiol ("dogfennau ategol ychwanegol").

26A.47 Rhaid i unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol gael eu gosod.

26A.48 Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, caiff y Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno i'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat.

26A.49 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.48, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26A.50 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.48, mae'r Bil yn methu.

26A.51 Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Cynulliad wedi cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Preifat neu pan fydd y Bil yn methu fel rhan o'r Ystyriaeth Gychwynnol.

**Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor**

26A.52 Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben.

26A.53 Rhaid i'r trafodion adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu hystyried gan y Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26A.32.

26A.54 Adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor:

(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat a chyflwyno adroddiad arnynt;

(ii) ystyried unrhyw wrthwynebiadau derbyniadwy, heblaw unrhyw wrthwynebiad nad oes iddo, ym marn y pwyllgor, sail o sylwedd a chyflwyno adroddiad arnynt; a

(iii) ystyried manylion y Bil Preifat yn unol â Rheolau Sefydlog 26A.65 i 26A.80 (gan gynnwys unrhyw welliannau derbyniadwy).

26A.55 Mae gan y personau a ganlyn hawl i gael eu gwrando gerbron y pwyllgor yn bersonol, neu i gael eu cynrychioli:

(i) yr hyrwyddwr;

(ii) unrhyw wrthwynebydd (yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.62) sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad derbyniadwy y mae'r pwyllgor o'r farn bod iddo sail o sylwedd;

(iii) aelod o’r llywodraeth;

a chânt gymryd rhan yn y trafodion yn unol ag unrhyw ddyfarniadau gan y Cadeirydd.

26A.56 Pan fydd Pwyllgor a sefydlwyd i ystyried Bil Preifat yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff benodi asesydd, neu aseswyr, i ystyried gwrthwynebiadau.

26A.57 Caiff yr asesydd, neu’r aseswyr, gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Bil Preifat ynghylch:

- iv) a oes sail o sylwedd ar gyfer gwrthwynebiadau derbyniadwy;
- v) argymhellion ar gyfer grwpio gwrthwynebiadau;
- vi) dethol tystion ac a ddylid gofyn am dystiolaeth gan y tystion hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig;

a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y penderfynir arnynt gan y Pwyllgor.

26A.58 Caiff y Cadeirydd, wrth ddyfarnu ar sut y caiff gwrthwynebydd (neu berson arall) gymryd rhan yn y trafodion, gymryd i ystyriaeth natur y gwrthwynebiad neu’r sylwadau eraill ac i ba raddau y mae natur y cyfraniad hwnnw yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r pwyllgor i ystyried y gwrthwynebiad a chyflwyno adroddiad arno.

26A.59 Caiff y Pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae’n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth.

26A.60 Rhaid i'r Pwyllgor Bil Preifat ystyried rhinweddau'r gwrthwynebiadau yng nghyd-destun-

(i) unrhyw dystiolaeth a gyflwynir iddo; neu
(ii) unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi gan unrhyw asesydd neu aseswyr a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 26A.56.

26A.61 Caiff y Pwyllgor Bil Preifat dderbyn neu wrthod-

(i) unrhyw wrthwynebiad yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono;

(ii) adroddiad asesydd yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono.

26A.62 Os yw'r pwyllgor o'r farn bod dau neu fwy o wrthwynebiadau yr un fath neu'n debyg i'w gilydd, caiff grwpio'r gwrthwynebiadau hynny gyda'i gilydd a dewis un neu ragor o wrthwynebwyr o'r grŵp hwnnw i roi tystiolaeth ac i gymryd rhan fel arall mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny.

26A.63 Os yw'r pwyllgor, wrth baratoi ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.54(i) a (ii), yn bwriadu argymell newid yn y Bil Preifat a phe bai'r newid hwnnw, o'i wneud, ym marn pwyllgor, yn effeithio ar fuddiannau'r personau eraill y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26A.64, caiff y Pwyllgor gymryd unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol er mwyn sicrhau y caiff y personau eraill hynny gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwnnw.

26A.64 At ddibenion Rheol Sefydlog 26A.63, ystyr "personau eraill" yw:

(i) personau nad effeithiwyd ar eu buddiannau gan y Bil Preifat fel y'u cyflwynwyd ond y byddid yn effeithio ar eu buddiannau pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Preifat, neu

(ii) gwrthwynebwyr presennol y byddid yn effeithio ar eu buddiannau i raddau helaethach neu mewn ffyrdd newydd pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Preifat, gan arwain at seiliau newydd o sylwedd dros wrthwynebu.

26A.65 Caniateir i Fil Preifat gael ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26A.66 Rhaid i 25 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y gosodir yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.54(i) a (ii) a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor yn ystyried manylion y Bil Preifat ynddo yn unol â Rheol Sefydlog 26A.54(iii).

26A.67 Heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i adroddiad y pwyllgor gael ei osod, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig na ddylai'r Bil Preifat fynd ymhellach.

26A.68 Os na chyflwynir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.67, neu os cyflwynir cynnig o'r fath ond fe'i gwrthodir, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Preifat a rhaid i'r pwyllgor fynd rhagddo i waredu gwelliannau i'r Bil Preifat, yn unol â Rheol Sefydlog 26A.54(iii).

26A.69 Rhaid trefnu bod amser ar gael i gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26A.67 gael ei drafod o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad cyflwyno'r cynnig (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd).

26A.70 Os derbynnir cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26A.67, mae'r Bil Preifat yn methu.

26A.71 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y gosododd y pwyllgor ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.54(i) a (ii).

26A.72 O dan amgylchiadau eithriadol, caiff Cadeirydd y pwyllgor dderbyn gwelliant yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26A.118. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr".

26A.73 Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat, oni bai bod y pwyllgor wedi penderfynu fel arall.

26A.74 Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor hwnnw at y dibenion a ganlyn:

(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu

(ii) pleidleisio.

26A.75 Caniateir i welliant gan Aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor.

26A.76 Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26A.77 Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26A.78 Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf.

26A.79 Os caiff Bil Preifat ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor rhaid i'r hyrwyddwr baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26A.80 Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26A.79 gael ei osod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

**Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad**

26A.81 Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben.

26A.82 Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26A.83 Rhaid i Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael ei hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26A.84 Caniateir i Fil Preifat gael ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26A.85 Caniateir i welliannau i'w hystyried adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o'r diwrnod cyntaf y bydd y cyfnod yn dechrau.

26A.86 Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26A.87 Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat, oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu fel arall drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes.

26A.88 Drwy gynnig heb hysbysiad gan y Pwyllgor Busnes, caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd).

26A.89 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.88, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:

(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu

(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi'n afresymol.

26A.90 Dim ond os ydynt, yn ychwanegol at y meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.120, wedi'u bwriadu ar gyfer y canlynol:

(i) egluro geiriad darpariaeth yn y Bil Preifat (gan gynnwys dileu anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg neu rhyngddynt), neu

(ii) rhoi eu heffaith i ymrwymiadau a roddwyd ar ran yr hyrwyddwr adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu

(iii) rhoi eu heffaith i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.54(i) a (ii),

y mae gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dderbyniadwy.

26A.91 Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Preifat neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26A.92 Os na chyflwynir gwelliant i adran neu atodlen, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26A.93 Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf.

**Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor**

26A.94 Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad wedi eu gwaredu yn unol â Rheol Sefydlog 26A.93, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod unrhyw ran o'r Bil Preifat a bennir yn y cynnig yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Bil Preifat ar gyfer Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26A.95 Mae Rheolau Sefydlog 26A.65 a 26A.71 hyd at 26A.80 yn gymwys i Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor" yn unol â hynny.

26A.96 Yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor caiff y pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth.

26A.97 Mae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.94.

26A.98 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y dechreuodd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26A.99 Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.120, mae gwelliannau yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dderbyniadwy dim ond os ydynt yn welliannau i'r darpariaethau a gyfeiriwyd yn ôl at y Pwyllgor Bil Preifat, neu os ydynt yn welliannau y byddai eu hangen o ganlyniad i dderbyn unrhyw welliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

**Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad**

26A.100 Pan fydd Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26A.93, neu pan fydd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26A.78 os cafodd ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau mewn Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Caniateir trafod cynnig o'r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio.

26A.100 AMae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Cynulliad dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.100.

26A.101 Mae Rheolau Sefydlog 26A.82 i 26A.93 yn gymwys i drafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad".

**Y Cyfnod Terfynol**

26A.102 Rhaid i Gyfnod Terfynol Bil Preifat gael ei gymryd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26A.103 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.107, caiff unrhyw Aelod, heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y

Cynulliad,_neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os cawsant eu cynnal, gyflwyno cynnig bod y Bil Preifat yn cael ei basio.

26A.104 Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.103 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod.

26A.105 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.107, yn union ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os caiff ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod y Bil Preifat yn cael ei basio.

26A.106 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Preifat gael ei basio.

26A.107 Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Preifat yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Preifat ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26A.108 Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol.

**Ailystyried Biliau Preifat a Basiwyd**

26A.109 Yn unol ag adran 113 o’r Ddeddf, ar ôl i'r Bil Preifat gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:

(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Preifat wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;

(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a

(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall.

26A.109A Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.109 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno.

26A.109B Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.109, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf.

26A.110 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Preifat:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynghylch cyfeiriad a wneir mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 o'r Ddeddf na fyddai'r Bil Preifat neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Preifat o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26A.111 Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.110, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26A.112 Mae Rheolau Sefydlog 26A.82 i 26A.93 a 26A.100 i 26A.101 yn gymwys i drafodion y Cyfnod Ailystyried. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" ac “Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad” yn gyfeiriadau at “y Cyfnod Ailystyried” a “y Cyfnod Ailystyried pellach” yn unol â hynny.

26A.113 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Preifat yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26A.120, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;

(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26A.114 Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Preifat.

26A.115 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Preifat a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

**Gwelliannau i Filiau Preifat**

26A.116 Mae Rheolau Sefydlog 26A.117 i 26A.125 yn gymwys i welliannau yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad a thrafodion y Cyfnod Ailystyried.

26A.117 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Preifat.

26A.118 Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried.

26A.119 Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried.

26A.120 Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26A.117;

(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil Preifat neu ddarpariaethau'r Bil Preifat y byddai'n ei ddiwygio;

(iii) os yw'n anghyson â'r egwyddorion cyffredinol fel yr adroddwyd arnynt gan y pwyllgor ac fel y bernir y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu

(iv) os yw’n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi’i wneud yn y cyfnod pryd y mae’r gwelliant yn cael ei gynnig.

26A.121 Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o’i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai’n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26A.117 i 26A.125 fod yn gymwys yn unol â hynny.

26A.122 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.74, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae’n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i’r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o’r fath, daw’r gwelliant yn welliant yn enw’r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i’r gwelliant ac nad yw’n cytuno i’r gwelliant gael ei dynnu'n ôl.

26A.123 Caiff Cadeirydd y pwyllgor neu’r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw’n amser ei waredu.

26A.124 Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw’n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i’r gwelliant gael ei gynnig:

(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o’r pwyllgor; neu

(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, unrhyw Aelod arall.

26A.125 Caniateir i welliant sydd wedi’i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cynigiodd, ond dim ond:

(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o’r pwyllgor yn gwrthwynebu; neu

(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu.

**Newid Hyrwyddwr**

26A.126 Mae Rheolau Sefydlog 26A.127 i 26A.132 yn gymwys pan na fydd yr hyrwyddwr, cyn i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben, mwyach yn dymuno neu yn gallu sicrhau'r pwerau neu'r manteision a roddir gan y Bil hwnnw, a bod unigolyn, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau ("yr hyrwyddwr newydd") yn dymuno sicrhau'r pwerau neu'r manteision hynny.

26A.127 Rhaid i'r hyrwyddwr newydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, osod memorandwm sy'n nodi'r rhesymau dros newid hyrwyddwr ac amgylchiadau newid hyrwyddwr.

26A.128 Rhaid i'r pwyllgor, gan gymryd i ystyriaeth y memorandwm a osodir o dan Reol Sefydlog 26A.127 ac unrhyw wybodaeth arall gan yr hyrwyddwr newydd y mae'r pwyllgor yn gofyn amdani, ystyried goblygiadau newid hyrwyddwr ar gyfer hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr, personau eraill ac ar gyfer cynnydd y Bil Preifat.

26A.129 Caiff y pwyllgor, os yw o'r farn bod hynny'n briodol er mwyn amddiffyn hawliau neu fuddiannau gwrthwynebwyr neu bersonau eraill, neu er mwyn sicrhau gwaith craffu priodol ar y Bil Preifat:

(i) ei gwneud yn ofynnol i'r hyrwyddwr newydd osod dogfennau ategol ychwanegol;

(ii) ei gwneud yn ofynnol i'r hyrwyddwr newydd roi unrhyw ymrwymiadau y mae'r pwyllgor o'r farn eu bod yn briodol;

(iii) ei gwneud yn ofynnol i'r trafodion ar y Bil Preifat adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu i ran o'r trafodion hynny, ddechrau eto;

(iv) cyflwyno adroddiad i’r Cynulliad ar oblygiadau’r newid hyrwyddwr, gydag argymhelliad na ddylai’r Bil Preifat fynd rhagddo gyda'r hyrwyddwr newydd.

26A.130 Rhaid i adroddiad o dan Reol Sefydlog 26A.129(iv) gael ei ystyried gan y Cynulliad drwy gynnig gan Gadeirydd y pwyllgor.

26A.131 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.130, mae’r Bil Preifat yn methu.

26A.132 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26A.130, rhaid i’r pwyllgor neu’r Cynulliad barhau i ystyried y Bil Preifat.

**Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw**

26A.133 Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth, neu’n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai’r Bil Preifat yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i’r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai’r Bil Preifat gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi’i ddynodi gan aelod o’r llywodraeth mewn cyfarfod o’r Cynulliad.

**Penderfyniadau Ariannol**

26A.134 Rhaid i’r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ariannol ar gyfer Bil Preifat o dan Reolau Sefydlog 26A.135 i 26A.140.

26A.135 Os yw Bil Preifat yn cynnwys darpariaeth:

(i) sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru; neu

(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:

(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;

(b) gwariant arwyddocaol sy’n daladwy o’r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu

(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,

ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Preifat mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i'r Pwyllgor Bil Preifat gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.54(i) a (ii) oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i'r gwariant neu'r cynnydd yn y gwariant gael ei godi ar y Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni.

26A.136 Os yw:

(i) Bil Preifat yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n gosod neu'n cynyddu (neu sy'n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu'n rhoi pŵer i'w gwneud yn ofynnol) i unrhyw daliad gael ei wneud; a

(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o'r Ddeddf, i'r person y mae'r tâl neu'r taliad yn daladwy iddo dalu symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai'n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)), ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Preifat mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i'r Pwyllgor Bil Preifat gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.54(i) a (ii) oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno â'r tâl, y cynnydd neu'r taliad.

26A.137 Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26A.136:

(i) bydd yn gymwys dim ond os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad yn arwyddocaol; a

(ii) ni fydd yn gymwys os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad:

(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu

(b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer.

26A.138 Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil Preifat, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Preifat na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath.

26A.139 Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

26A.140 Oni bai:

(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil Preifat gan Reolau Sefydlog 26A.135 neu 26A.136 yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis ar ôl y dyddiad y mae'r Pwyllgor Bil Preifat wedi cyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26A.54(i) a (ii); a

(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,

mae'r Bil Preifat yn methu.

## Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Preifat y Cynulliad

26A.141 Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf Breifat Cynulliad yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

## Biliau Preifat yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl

26A.142 Os bydd Bil Preifat yn methu neu’n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil Preifat hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil Preifat sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil Preifat neu y cafodd ei wrthod.

26A.143 Mae Bil Preifat yn methu os nad yw wedi’i basio neu wedi’i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad y’i cyflwynwyd ynddo.

26A.144 Pan fydd Bil Preifat yn methu o dan Reol Sefydlog 26A.143, caiff yr hyrwyddwr gyflwyno Bil Preifat yn yr un telerau yn y Cynulliad nesaf. Rhaid i destun y Bil Preifat a gaiff ei gyflwyno fod yr un fath â'r fersiwn a oedd yn cael ei hystyried gan y Cynulliad blaenorol ar ddyddiad diddymu’r Cynulliad.

26A.145 Rhaid i'r dogfennau i gyd-fynd â'r Bil yn y Cynulliad blaenorol y cawsant eu cyhoeddi neu eu gosod yn unol â Rheol Sefydlog 15 hyd at ddyddiad diddymu’r Cynulliad gael eu defnyddio at ddibenion y Bil Preifat pan fo'n cael ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf.

26A.146 Dim ond yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad nesaf ac yn dod i ben ar y degfed diwrnod gwaith ar hugain ar ôl y dyddiad hwnnw y caiff hyrwyddwr gyflwyno Bil Preifat o dan Reol Sefydlog 26A.144.

26A.147 Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad blaenorol gael eu trin fel gwrthwynebiadau i'r Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf a rhaid i unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Bil Preifat yn ystod y Cynulliad blaenorol mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny fod yn gymwys. Rhaid peidio â chael unrhyw gyfnod gwrthwynebu pellach ar gyfer Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf yn ychwanegol at y cyfnod gwrthwynebu a gafwyd ar gyfer y Bil Preifat yn y Cynulliad blaenorol.

26A.148 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26A.149, os nad oedd y Cyfnod yr oedd y Bil Preifat ynddo ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad ar ben, rhaid i

drafodion y Bil Preifat a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf fel arfer gychwyn ar ddechrau'r Cyfnod.

26A.149 Caiff y trafodion gychwyn yn ddiweddarach yn ystod Cyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor:

(i) os yw'r hyrwyddwr a phob person a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlwyd yn y Cynulliad blaenorol naill ai;

(ii) yn rhoi'r dystiolaeth honno ar lafar i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ("y Pwyllgor newydd"); neu

(iii) yn cytuno y caiff aelodau'r Pwyllgor newydd weld recordiad neu ddarllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth a roddwyd yn lle hynny.

26A.150 Pan fydd asesydd wedi'i benodi ond heb gyflwyno adroddiad cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu, rhaid i'r Pwyllgor Bil Preifat a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ystyried adroddiad yr asesydd.

26A.151 Caniateir i Fil Preifat gael ei dynnu’n ôl ar unrhyw adeg gan yr hyrwyddwr.

**Atodiad C**

**RHEOL SEFYDLOG 26B – Deddfau Hybrid y Cynulliad**

| **Biliau Hybrid** | | |
|---|---|---|
| 26B.1 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26B, mae Bil Hybrid yn Fil Cyhoeddus a gyflwynir gan aelod o Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fuddiant preifat penodol unigolyn neu gorff yn wahanol i'r ffordd y mae'n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth. | Diffiniad arfaethedig sy'n debyg i'r un a ddefnyddir gan Senedd yr Alban ond heb y gair '*andwyol*' [effeithio ar fuddiant penodol] oherwydd y gellid ystyried ei fod yn derm goddrychol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o Fil Preifat yn Rheol Sefydlog 26A. |
| 26B.2 | Mae Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo yn Fil sy'n ceisio awdurdodi neu hwyluso unrhyw waith adeiladu neu awdurdodi prynu'n orfodol unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir. | Yr un dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y Rheol Sefydlog drafft ynghylch Biliau Preifat, sef cael adran ar wahân sy'n ymwneud â Bil Hybrid "Gwaith", gan fod gofynion penodol sy'n ymwneud â math hwn o Fil (e.e. i'r Aelod sy'n gyfrifol ymgynghori ag unigolion neu gyrff penodol) – mae'r gofynion hyn wedi eu hychwanegu at yr adrannau perthnasol isod, gan gyfeirio yn ôl at y Rheol Sefydlog hon. |

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Ffurf Biliau Hybrid a Sut i'w Cyflwyno</u>** | |
| <u>26B.3</u> | <u>Caniateir i Fil Hybrid gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.</u> | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26.1 / Rheol Sefydlog 26A.7. |
| <u>26B.4</u> | <u>Rhaid i Fil Hybrid gael ei gyflwyno drwy gael ei osod gan yr Aelod sy'n gyfrifol.</u> | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26.2 / Rheol Sefydlog 26A.8. |
| <u>26B.5</u> | <u>Rhaid peidio â gosod Bil Hybrid oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.</u> | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26.3 / Rheol Sefydlog 26A.9. |
| <u>26B.6</u> | <u>Pan gyflwynir Bil Hybrid, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw:</u><br><u>(i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a</u><br><u>(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno.</u> | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26.4 / Rheol Sefydlog 26A.10. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.7 | Rhaid i Fil Hybrid gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio os nad yw gwneud hynny yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26B.5. | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26.5 / Rheol Sefydlog 26A.11. |
| 26B.8 | Rhaid i Fil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo beidio â chael ei gyflwyno oni bai bod yr aelod sy'n gyfrifol wedi cyflawni unrhyw ymgynghoriad neu hysbysiad sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill, ynghyd ag unrhyw ofynion ymgynghori neu hysbysu ychwanegol a nodir mewn unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd. | * Yn unol â Rheol Sefydlog 26A.12.<br><br>Byddai hyn yn darparu ar gyfer gofynion ymgynghori, gofynion hysbysu a gofynion statudol eraill ar gyfer Biliau Hybrid o dan Reol Sefydlog 26A.2 sy'n ymwneud â gwaith adeiladu / prynu tir yn orfodol, sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26A. Byddai manylion y gofynion ymgynghori a hysbysu yn cael eu cynnwys ym mhenderfyniadau'r Llywydd ar gyfer Biliau Hybrid, a'u diwygio yn ôl yr angen yn unol ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth. |
| | **Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid** | |
| 26B.9 | Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae'n rhaid iddo: | Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig hon yn cwmpasu gofynion ychwanegol i'w cynnwys mewn Memorandwm Esboniadol Bil Hybrid ar gyfer adeiladu / prynu tir yn orfodol. Mae hyn |

| | | |
|---|---|---|
| | (i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;<br><br>(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;<br><br>(iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;<br><br>(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;<br><br>(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:<br>(a) amcanion y Bil Hybrid a'r ffyrdd o'u gwireddu; a<br>(b) manylion y Bil Hybrid, a<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);<br>(vi) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;<br>(vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw; | yn cynnwys gofynion a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a / neu reoliadau cynllunio sy'n gymwys yng Nghymru. Bydd canllawiau'r Llywydd yn pennu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Hybrid ei darparu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r ychwanegiadau arfaethedig yr un fath â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer Bil Preifat, fel y'u nodir yn y drafft newydd o Reol Sefydlog 26A.<br><br>Mae geiriad (v) a (vi) yn cyd-fynd â'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26 i weithredu argymhelliad 4 yn Adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer Bil a gyflwynir gan y Llywodraeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | (viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau’r Bil Hybrid ei wneud (i’r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi’r wybodaeth arall sy’n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;<br><br>(ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a’r costau gros eraill y byddai darpariaethau’r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i’r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai’r costau’n syrthio;<br><br>(x) unrhyw anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;<br><br>(xi) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n rhoi pŵer | Cymerwyd (ix) o'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.6) – ar gyfer Bil Hybrid nad yw'n Fil Hybrid 'Gwaith'. Mae’r geiriad yn cyd-fynd â newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 26 i weithredu argymhelliad 19(iii) yn Adroddiad ‘Deddfu yng Nghymru’ y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.<br>Ar gyfer Bil Hybrid sy'n Fil 'Gwaith', nodir y gofynion arfaethedig ar gyfer Memorandwm Ariannol yn Rheol Sefydlog 26B.10 isod ac fe’u cymerwyd o Reol Sefydlog ddrafft 26A ar Filiau Preifat.<br>(Dyma'r dull a ddefnyddir yn Rheolau Senedd yr Alban, sy'n cynnwys dau ofyniad gwahanol i gynnwys Memorandwm Ariannol gyda'r Bil, yn dibynnu ar p'un a yw'n Fil Hybrid 'Gwaith' ai peidio.) |

| | | |
|---|---|---|
| | i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o’r fath:<br><br>(a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac<br><br>(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); a<br><br>(xii) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio. | (xi) - mae'r geiriad hwn yr un fath â Rheol Sefydlog 26 ar gyfer Biliau Cyhoeddus, ar gyfer pwerau mewn Bil Hybrid i wneud is-ddeddfwriaeth.<br><br>(xii) Mae’r cynnig hwn yn adlewyrchu'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) i Femorandwm Esboniadol Bil Cyhoeddus gynnwys barn yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'n briodol codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru. Diben yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn achosion o'r fath yw rhoi barn arbenigol annibynnol i'r Cynulliad ynghylch a yw gwariant o'r fath yn briodol, ac mae hynny'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | fesur diogelwch pwysig o dan y fath amgylchiadau. |
| 26B.10 | Yn achos Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys:<br><br>(i) manylion llawn am sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion a nodir yn Rheol Sefydlog 26B.8;<br><br>(ii) Datganiad Amcangyfrif o Dreuliau a Chyllid sy'n nodi amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect a gynigir yn y Bil Hybrid a'r ffynonellau cyllid a ragwelir er mwyn talu am gost y prosiect ac unrhyw fanylion ariannol eraill y penderfynir arnynt gan y Llywydd;<br><br>(iii) y cyfryw fapiau, cynlluniau, trawsluniau a llyfrau o gyfeiriadau ag sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth neu gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd; a<br><br>(iv) Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi'r cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, a gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd, am yr effaith amgylcheddol y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael. | Mae'r Rheol Sefydlog hon yn cwmpasu'r gofynion penodol ychwanegol i'w cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer Biliau Hybrid "Gwaith".<br><br>Byddai hyn yn cynnwys y gofynion ymgynghori sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth (e.e. caniatâd cynllunio / prynu gorfodol). Yn yr un modd â Biliau Preifat, y rhagdybiaeth yw bod ymgynghoriad wedi ei gynnal, yn hytrach na defnyddio geiriad Rheol Sefydlog 26 ar gyfer Biliau Cyhoeddus: 'ymgynghori a gafwyd***, os cafwyd unrhyw ymgynghori***...' |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.11 | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26B.9 a Rheol Sefydlog 26B.10, os yn berthnasol, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall. | Byddai'r cynnig yn gweithredu Argymhelliad 19(i) yn Adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn dangos yn glir ble yn y Memorandwm Esboniadol y ceir hyd i ofynion y Rheol Sefydlog (er enghraifft, trwy gyfrwng mynegai priodol).* |
| 26B.12 | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Byddai'r cynnig yn gweithredu Argymhelliad 19 (iv) yn Adroddiad 'Deddfu yng Nghymru' y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *cynnwys gofyniad bod yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil yn darparu tabl tarddiadau.* |
| 26B.13 | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Byddai'r cynnig hwn yn gweithredu Argymhelliad 20 yn Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: *i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol bod Atodlenni Keeling ar gael i gyd-fynd â Bil pan gaiff ei gyflwyno (os yw'n cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol).* |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.14 | Pan osodir memorandwm esboniadol yn unol â Rheol Sefydlog 26B.9, rhaid cael Datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw nodi:<br><br>(a) yn achos Bil Hybrid sy'n cynnwys darpariaeth a fydd yn effeithio ar eiddo, ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar hawliau neu ddyletswyddau contractiol eraill unigolyn neu gorff mewn modd sy'n wahanol i'r ffordd y mae'n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol i unrhyw bersonau neu ddosbarthiadau o berson yr effeithir ar ei eiddo, ei ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar ei hawliau neu ei ddyletswyddau contractiol eraill a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;<br><br>(b) yn achos Bil Hybrid sy'n cynnwys darpariaeth i roi pwerau i unrhyw gorff corfforaethol neu unrhyw gymdeithas anghorfforedig o bersonau, neu i ddiwygio'u cyfansoddiad, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol i'r corff corfforaethol neu'r gymdeithas anghorfforedig o bersonau a manylion | (a) Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cwmpasu pob math o eiddo a hawliau y gallai Bil Hybrid effeithio arnynt.<br><br>(b) Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cwmpasu yr un gofyniad a'r hyn a gynigir yn y Rheol Sefydlog ar gyfer Biliau Preifat, sef bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cadarnhau yn y dogfennau ategol ei fod wedi gwneud yr hysbysiad perthnasol ynghylch y pwerau a roddwyd ac ati i gorff corfforaethol arall.<br><br>Cynigir (c) a (d) er mwyn gwneud yn siŵr bod |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>unrhyw ymateb a gafwyd;</u><br><br><u>(c) datganiad yn rhestru'r mangreoedd lle y caniateir archwilio neu brynu unrhyw ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r Bil Hybrid, ond nad ydynt yn ddogfennau ategol a gyhoeddir gan y Cynulliad;</u><br><br><u>(d) ymrwymiad i anfon copi o'r Bil Hybrid a'r holl ddogfennau ategol perthnasol i'r mangreoedd y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26B.14(c) ac, yn achos Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, at y rhai y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy neu eu hysbysu yn unol â Rheol Sefydlog 26B.8.</u><br><br><u>(e) ymrwymiad i dalu unrhyw gostau y gall y Comisiwn benderfynu arnynt ac y gall y Comisiwn eu hysgwyddo yn ystod hynt y Bil Hybrid mewn perthynas â phenodi a defnyddio asesydd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.54 a 26B.55.</u><br><br><u>(f) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.</u> | yr Aelod sy'n gyfrifol yn sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'w harchwilio neu eu prynu, ac yn achos y rhai hynny y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan ddeddfwriaeth, darparu copïau o'r dogfennau hynny iddynt. Bydd manylion am y gofyniad hwn yn cael eu nodi ym mhenderfyniad / penderfyniadau'r Llywydd.<br><br>(e) Mae'r cynnig hwn yn caniatáu ar gyfer adennill costau gweinyddol sy'n deillio o hynt Bil Hybrid, mewn perthynas â phenodi asesydd i ymdrin â gwrthwynebiadau, gan Lywodraeth Cymru. Fel sy'n digwydd yn San Steffan a'r Alban, bydd y Llywodraeth yn ad-dalu cost yr asesydd / aseswyr i'r Comisiwn, a'r costau ar gyfer penodi'r asesydd / aseswyr i ymdrin â gwrthwynebiadau i'r Bil Hybrid. Bydd hyn, a'r trefniadau disgwyliedig ar gyfer ad-dalu / talu costau yn cael eu nodi ym |

| | | |
|---|---|---|
| | | mhenderfyniad y Llywydd.<br><br>(f) Mae'r cynnig hwn yr un fath â'r drefn ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| | **Hysbysiad bod Bil Hybrid wedi'i gyflwyno** | |
| 26B.15 | Cyn gynted ag y bydd Bil Hybrid wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan:<br>(i) effaith gyffredinol y Bil Hybrid;<br>(ii) y gall y Bil Hybrid a'r holl ddogfennaeth ategol gael eu harchwilio yn y Cynulliad ac mewn un neu ragor o fannau yng Nghymru gan gynnwys, yn achos Bil Hybrid sy'n effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, fan yn yr ardal honno;<br>(iii) y caiff personau sy'n credu y byddai'r Bil Hybrid yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysid gyntaf mewn papur newydd ("y cyfnod gwrthwynebu");<br>(iv) sut i gyflwyno gwrthwynebiad a'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gwrthwynebiad hwnnw, gan roi sylw i Reol Sefydlog 26B.21;<br>(v) y caiff gwrthwynebiad ofyn naill ai i'r Bil Hybrid beidio â chael ei gymeradwyo neu i newidiadau gael eu gwneud i'r Bil Hybrid cyn iddo gael ei gymeradwyo; | Byddai disgwyl i'r hysbysiad a'r broses wrthwynebu fod yr un fath â'r drefn ar gyfer Bil Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | (vi) bod rhaid i'r person sy'n gwneud gwrthwynebiad gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynghylch gwneud gwrthwynebiad. | |
| 26B.16 | Wrth gyfrifo'r cyfnod gwrthwynebu o dan Reol Sefydlog 26B.15(iii), ni roddir ystyriaeth i unrhyw gyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r Cynulliad ac yn gorffen ar ddyddiad ailgyflwyno Bil Hybrid yn y Cynulliad nesaf. | Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r weithdrefn arfaethedig ar gyfer Biliau Preifat yn caniatáu ailgyflwyno Bil Preifat yn yr un telerau yn y Cynulliad nesaf gan ailgydio â'r gwaith ar y pwynt lle daeth y trafodion blaenorol i ben. Mae'r diwygiad hwn yn eithrio'r cyfnod y diddymiad rhag cael ei gynnwys at ddibenion y cyfnod gwrthwynebu. |
| 26B.17 | Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 26B.15 gael ei gyhoeddi:<br>(i) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg ledled Cymru (neu, os yw'r Bil Hybrid yn effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, ledled yr ardal honno); a<br>(ii) drwy ba fodd arall bynnag sy'n briodol, yn unol ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd, i'w ddwyn i sylw'r rhai y mae'r Bil Hybrid yn debyg o effeithio ar eu buddiannau. | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26A.14 cyfredol. |
| 26B.18 | Cyn gynted ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi cydymffurfio | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26A.15 |

| | | |
|---|---|---|
| | â gofynion Rheol Sefydlog 26B.15, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i'r Llywydd, gan roi manylion y canlynol:<br>(i) sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion hynny; a<br>(ii) y trefniadau a wnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol i sicrhau y gallai'r Bil Hybrid gael ei archwilio (heblaw yn y Cynulliad) yn unol â Rheol Sefydlog 26B.15(ii). | cyfredol. |
| | **Gwrthwynebu** | |
| 26B.19 | Caiff person unigol, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau sydd o'r farn y byddai Bil Hybrid a gyflwynid yn y Cynulliad yn effeithio'n andwyol ar eu buddiannau ("gwrthwynebydd") wneud gwrthwynebiad i'r Llywydd mewn ysgrifen, yn unol â hysbysiad a roddir o dan Reol Sefydlog 26B.15, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26B.15(iii). | Fersiwn ddiwygiedig o Reol Sefydlog 26A.16 cyfredol. |
| 26B.20 | Rhaid i'r Llywydd ddyfarnu a yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy. | Mae hyn yr un fath â'r drefn a gynigir ar gyfer Rheol Sefydlog 26A ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.21 | Dim ond:<br>(i) os yw'n cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynglŷn â gwneud gwrthwynebiad;<br>(ii) os yw'n nodi natur y gwrthwynebiad;<br>(iii) os yw'n nodi'r darpariaethau yn y Bil Hybrid sy'n arwain at | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer Rheol Sefydlog 26A ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | y gwrthwynebiad;<br>(iv) os yw'n pennu sut y byddai'r Bil Hybrid yn effeithio'n andwyol ar fuddiannau'r gwrthwynebydd<br>y bydd gwrthwynebiad yn dderbyniadwy. | |
| 26B.22 | Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26B.20 ac, os dyfernir nad yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r gwrthwynebydd dros y penderfyniad hwnnw. | Mae hyn yr un fath â Rheol Sefydlog 26A.20. |
| 26B.23 | Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, rhaid i'r Clerc gyhoeddi pob gwrthwynebiad derbyniadwy. | Mae hyn yr un fath â Rheol Sefydlog 26A ar Filiau Preifat. |
| | | |
| 26B.24 | Os caiff y Llywydd wrthwynebiad ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben ond cyn y cyfarfod cyntaf ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ac os ceir gyda'r gwrthwynebiad hwnnw ddatganiad gan y gwrthwynebydd sy'n esbonio'r oedi cyn cyflwyno'r gwrthwynebiad, rhaid i'r Llywydd benderfynu a yw wedi'i fodloni:<br>(i) bod y gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, yn unol â Rheol Sefydlog 26B.21;<br>(ii) bod gan y gwrthwynebydd reswm da dros beidio â gwneud y gwrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu;<br>(iii) bod y gwrthwynebydd wedi gwneud y gwrthwynebiad cyn | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ar gyfer Biliau Preifat heblaw bod 'Llywodraeth Cymru' yn cymryd lle'r 'hyrwyddwr'. |

| | | |
|---|---|---|
| | gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; a<br>(iv) na fyddai'n afresymol ystyried y gwrthwynebiad hwnnw o gofio hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr a Llywodraeth Cymru. | |
| 26B.25 | Os yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly:<br>(i) rhaid iddo roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad;<br>(ii) rhaid i'r Clerc gyhoeddi'r gwrthwynebiad; a<br>(iii) rhaid i'r pwyllgor a sefydlir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.30 roi ystyriaeth i'r gwrthwynebiad. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.26 | Os nad yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly, rhaid iddo:<br>(i) rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad, a;<br>(ii) rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r gwrthwynebydd. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.27 | Caniateir i wrthwynebiad gael ei dynnu'n ôl gan y gwrthwynebydd, yn unol ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Llywydd. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| | **Datganiadau mewn perthynas ag ymgynghori** | |
| 26B.28 | Caiff unrhyw berson yr ymgynghorwyd ag ef neu unrhyw berson a hysbyswyd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.8, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ddwyn unrhyw ddiffyg yn y broses ymgynghori neu hysbysu i sylw'r Llywydd drwy gyflwyno | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad arfaethedig at y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | datganiad ysgrifenedig. | |
| 26B.29 | Ni chaniateir trin datganiad o'r fath fel gwrthwynebiad o dan Reol Sefydlog 26B.19 ond caiff Pwyllgor Bil Hybrid ei ystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26B.43(ii). | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad arfaethedig at y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| | **Pwyllgorau Biliau Hybrid** | |
| 26B.30 | Pan fydd Bil Hybrid wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig i sefydlu Pwyllgor Bil Hybrid, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.31 | Mae Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.7 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid ac eithrio bod rhaid iddo gynnwys dim llai na phedwar o aelodau. | Mae hyn yr un fath â'r dull a gynigir ar gyfer sefydlu Pwyllgor Bil Preifat. |
| 26B.32 | Rhaid i unrhyw Aelod y mae ganddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan ei bartner neu y mae gan unrhyw blentyn dibynnol iddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru o dan Reol Sefydlog 2 y gellid barnu ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar Fil Hybrid, beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor a sefydlir i ystyried y Bil hwnnw. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.33 | Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26B.32 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, etholaethol neu ranbarthol | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad arfaethedig i'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat ac mae'n cyd-fynd â'r newidiadau a wnaed i Reolau Sefydlog ynghylch |

| | | |
|---|---|---|
| | perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Hybrid. | buddiannau Aelodau ym mis Mai 2015, gan gynnwys y gofyniad newydd i ddatgan 'buddiannau teuluol' yn y trafodion. |
| 26B.34 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26B.32, mae ystyron "partner" a "plentyn dibynnol" fel y'u diffiniwyd ym mharagraff 4 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.35 | Rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.32 ynglŷn ag Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid gael ei gyhoeddi yr un pryd â'r cynnig i sefydlu'r pwyllgor hwnnw. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.36 | Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Hybrid, cyn cyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, fod wedi cyflawni cwrs hyfforddi perthnasol fel y pennwyd gan y Llywydd. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.37 | Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Hybrid, yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, gytuno i weithredu'n ddiduedd, yn rhinwedd swydd yr Aelod hwnnw fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, a seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth a'r wybodaeth arall a ddarperir i'r pwyllgor hwnnw yn unig. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.38 | Rhaid i aelodau Pwyllgor Bil Hybrid, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Bil Hybrid. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.39 | Ni chaiff aelod o Bwyllgor Bil Hybrid gymryd rhan mewn unrhyw drafodion ar y Bil Hybrid oni bai:<br>(i) bod yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r Bil Hybrid hwnnw a roddwyd ar lafar yn ystod trafodion y pwyllgor wedi'i rhoi yng ngŵydd yr Aelod, neu<br>(ii) gyda chytundeb yr Aelod sy'n gyfrifol ac unrhyw wrthwynebydd y mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag ef, fod yr Aelod hwnnw wedi gweld recordiad neu wedi darllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth nas rhoddwyd yng ngŵydd yr Aelod. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.40 | Nid yw Rheolau Sefydlog 17.12, 17.17 na 17.48 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.41 | Nid yw Rheol Sefydlog 17.49 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid, ac eithrio wrth i'r pwyllgor ystyried trafodion ar welliannau. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| | **Yr Ystyriaeth Gychwynnol** | |
| 26B.42 | Pan fydd y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26B.15(iii) wedi dod i ben, rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.30 ("y pwyllgor"), ystyried a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid a chyflwyno adroddiad ar hynny. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.43 | Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid, rhaid i'r pwyllgor ystyried:<br>(i) a yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil ac a osodwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 26B.9 i 26B.14, ym marn y pwyllgor, yn ddigonol i ganiatáu gwaith craffu priodol ar y Bil;<br>(ii) a gynhaliodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymgynghori digonol cyn i'r Bil gael ei gyflwyno;<br>(iii) a yw darpariaethau'r Bil yn peri ei fod yn briodol i'w ystyried fel Bil Hybrid yn unol â Rheol Sefydlog 26B, gan roi sylw penodol i'r canlynol:<br>(a) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn effeithio ar faterion o bolisi cyhoeddus;<br>(b) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth arall;<br>(c) maint yr ardal y mae'n effeithio arni;<br>(d) nifer a natur y buddiannau y mae'n effeithio arnynt. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.44 | Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor nad yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil yn ddigonol i alluogi'r pwyllgor i gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.42, caiff y pwyllgor, cyn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid, ganiatáu unrhyw gyfnod rhesymol y mae'r pwyllgor yn credu ei fod yn briodol i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ym marn y pwyllgor yn | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | angenrheidiol ("dogfennau ategol ychwanegol"). | |
| 26B.45 | Rhaid i unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol gael eu gosod. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.46 | Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Hybrid gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno i'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.47 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.46, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.48 | Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.46, mae'r Bil yn methu. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.49 | Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Cynulliad wedi cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid neu pan fydd y Bil yn methu fel rhan o'r Ystyriaeth Gychwynnol. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| | **Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor** | |
| 26B.50 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.51 | Rhaid i'r trafodion adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu hystyried gan y Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26B.30. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.52 | Adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor:<br>(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Hybrid a chyflwyno adroddiad arnynt;<br>(ii) ystyried unrhyw wrthwynebiadau derbyniadwy, heblaw | Cynigir bod y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Hybrid yn cynnwys y gofyniad yn 26B.52(iii), gan nad oes gofyniad i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol graffu ar y |

| | | |
|---|---|---|
| | unrhyw wrthwynebiad nad oes iddo, ym marn y pwyllgor, sail o sylwedd a chyflwyno adroddiad arnynt;<br>iii) lle y bo'n briodol, ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil; a (iv) ystyried manylion y Bil Hybrid yn unol â Rheolau Sefydlog 26B.63 i 26B.78 (gan gynnwys unrhyw welliannau derbyniadwy). | broses o roi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o fewn Bil Hybrid a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n debygol y byddai pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn ystyried y fath elfennau o Fil Hybrid, ond drwy ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor y Bil Hybrid wneud hynny gellid sicrhau nad oes diffyg craffu ar yr agwedd hon ar y Bil. |
| 26B.53 | Mae gan y personau a ganlyn hawl i gael eu gwrando gerbron y pwyllgor yn bersonol, neu i gael eu cynrychioli:<br>(i) yr Aelod sy'n gyfrifol ac unrhyw aelod arall o'r llywodraeth;<br>(ii) unrhyw wrthwynebydd (yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.60) sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad derbyniadwy y mae'r pwyllgor o'r farn bod iddo sail o sylwedd;<br>a chânt gymryd rhan yn y trafodion yn unol ag unrhyw ddyfarniadau gan y Cadeirydd. | Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd â Rheol Sefydlog 26 a 26A. |
| | **Penodi asesydd i ystyried gwrthwynebiadau** | |
| 26B.54 | Pan fydd Pwyllgor a sefydlwyd i ystyried Bil Hybrid yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff benodi asesydd, neu aseswyr, i ystyried gwrthwynebiadau. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at Reol Sefydlog 26A ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.55 | Caiff yr asesydd, neu aseswyr, gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir |

| | | |
|---|---|---|
| | Bil Hybrid ynghylch:<br>i) a oes sail o sylwedd ar gyfer gwrthwynebiadau derbyniadwy;<br>ii) argymhellion ar gyfer grwpio gwrthwynebiadau;<br>iii) dethol tystion ac a ddylid gofyn am dystiolaeth gan y tystion hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig;<br>a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y penderfynir arnynt gan y Pwyllgor. | at Reol Sefydlog 26A ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.56 | Caiff y Cadeirydd, wrth ddyfarnu ar sut y caiff gwrthwynebydd (neu berson arall) gymryd rhan yn y trafodion, ystyried natur y gwrthwynebiad neu’r sylwadau eraill ac i ba raddau y mae natur y cyfraniad hwnnw yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r pwyllgor i ystyried y gwrthwynebiad a chyflwyno adroddiad arno. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.57 | Caiff y Pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae’n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.58 | Rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid ystyried rhinweddau'r gwrthwynebiadau yng nghyd-destun:<br>(i) unrhyw dystiolaeth a gyflwynir iddo; neu<br>(ii) unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi gan unrhyw asesydd | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | neu aseswyr a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.54. | |
| 26B.59 | Caiff y Pwyllgor Bil Hybrid dderbyn neu wrthod–<br>(i) unrhyw wrthwynebiad yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono;<br>(ii) adroddiad asesydd yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.60 | Os yw'r pwyllgor o'r farn bod dau neu fwy o wrthwynebiadau yr un fath neu'n debyg i'w gilydd, caiff grwpio'r gwrthwynebiadau hynny gyda'i gilydd a dewis un neu ragor o wrthwynebwyr o'r grŵp hwnnw i roi tystiolaeth ac i gymryd rhan fel arall mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.61 | Os yw'r pwyllgor, wrth baratoi ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii), yn bwriadu argymell newid yn y Bil Hybrid a phe bai'r newid hwnnw, o'i wneud, ym marn pwyllgor, yn effeithio ar fuddiannau'r personau eraill y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26B.62, caiff y Pwyllgor gymryd unrhyw gamau y mae'n barnu eu bod yn briodol er mwyn sicrhau y caiff y personau eraill hynny gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwnnw. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.62 | At ddibenion Rheol Sefydlog 26B.61, ystyr "personau eraill" | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | yw:<br>(i) personau nad effeithiwyd ar eu buddiannau gan y Bil Hybrid fel y'u cyflwynwyd ond y byddid yn effeithio ar eu buddiannau pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Hybrid, neu<br>(ii) gwrthwynebwyr presennol y byddid yn effeithio ar eu buddiannau i raddau helaethach neu mewn ffyrdd newydd pe câi'r newidiadau arfaethedig<br>eu gwneud yn y Bil Hybrid, gan arwain at seiliau newydd o sylwedd dros wrthwynebu. | ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.63 | Caniateir i Fil Hybrid gael ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.64 | Rhaid i 25 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y gosodir yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor yn ystyried manylion y Bil Hybrid ynddo yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(iv). | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat.<br>(Bydd y broses o ystyried rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn Bil Hybrid a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn digwydd yn ddiweddarach, ar ôl ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol / gwrthwynebiadau.) |
| 26B.65 | Heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i adroddiad y pwyllgor gael ei osod, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig na ddylai'r Bil Hybrid fynd ymhellach. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat, gan fod hwn yn Fil Preifat yn ei hanfod sy'n cael ei gyflwyno gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lywodraeth Cymru. |
| 26B.66 | Os na chyflwynir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.65, neu os cyflwynir cynnig o'r fath ond fe'i gwrthodir, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Hybrid a rhaid i'r pwyllgor fynd rhagddo i waredu gwelliannau i'r Bil Hybrid, yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(iv). | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.67 | Rhaid trefnu bod amser ar gael i gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B.65 gael ei drafod o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad cyflwyno'r cynnig (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd). | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.68 | Os derbynnir cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B.65, mae'r Bil Hybrid yn methu. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.69 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y gosododd y pwyllgor ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii). | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.70 | O dan amgylchiadau eithriadol, caiff Cadeirydd y pwyllgor dderbyn gwelliant yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26B.120. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr". | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer Rheolau Sefydlog 26 a 26A. |
| 26B.71 | Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid, oni bai bod y pwyllgor wedi penderfynu fel arall.</u> | ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.72 | Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor hwnnw at y dibenion a ganlyn:<br>(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu<br>(ii) pleidleisio. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.73 | Caniateir i welliant gan Aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor. | Mae hyn yr un fath â'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.74 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Hybrid neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A.<br><br>I'w gwneud yn gliriach. Mae geiriad presennol 26 a 26A yn awgrymu nad yw'r Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen. |
| 26B.75 | Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Hybrid neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A. |
| 26B.76 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A. |
| 26B.77 | Os caiff Bil Hybrid ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y | Mae hyn yn unol â newidiadau i Reol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor, rhaid i’r Aelod sy’n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig. | 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| 26B.78 | Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26B.77 gael ei osod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy’n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Mae hyn yn unol â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| | **Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad** | |
| 26B.79 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer Rheol Sefydlog 26A. |
| 26B.80 | Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy’n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Mae'r cyfnod amser rhwng Cyfnod 2 a Chyfnod 3 yr un fath â'r drefn ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.81 | Rhaid i Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael ei hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.82 | Caniateir i Fil Hybrid gael ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.83 | Caniateir i welliannau i’w hystyried adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o’r diwrnod cyntaf y bydd y cyfnod yn dechrau. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.84 | Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol |

| | | |
|---|---|---|
| | hwy adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.85 | Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid, oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu fel arall drwy gynnig a gyflwynir gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. | Bydd pob Bil Hybrid yn Fil Llywodraeth ac felly byddant yn fater i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth. |
| 26B.86 | Drwy gynnig heb hysbysiad a gyflwynir gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi'u grwpio gan y Llywydd). | Bydd pob Bil Hybrid yn Fil Llywodraeth ac felly byddant yn fater i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Fusnes y Llywodraeth. |
| 26B.87 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.86, rhaid i'r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i'r graddau y mae'r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:<br>(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu<br>(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi'n afresymol. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.88 | Dim ond os ydynt, yn ychwanegol at y meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.122, wedi'u bwriadu ar gyfer y canlynol:<br>(i) egluro geiriad darpariaeth yn y Bil Hybrid (gan gynnwys | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | dileu anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg neu rhyngddynt), neu<br>(ii) rhoi eu heffaith i ymrwymiadau a roddwyd ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu<br>(iii) rhoi eu heffaith i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i) a (ii), y mae gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dderbyniadwy. | |
| 26B.89 | Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Hybrid neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiadau a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A.<br><br>I'w gwneud yn gliriach. Mae geiriad presennol 26 a 26A yn awgrymu **nad yw'r** Pwyllgor wedi gwneud penderfyniad hyd yma, ond yn ymarferol cytunwyd eisoes ar yr adran neu'r atodlen. |
| 26B.90 | Os na chyflwynir gwelliant i adran neu atodlen, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiadau a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A. |
| 26B.91 | Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf. | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiadau a gynigir at Reolau Sefydlog 26 a 26A. |
| | **Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor** | |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.92 | Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad wedi eu gwaredu yn unol â Rheol Sefydlog 26B.91, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod unrhyw ran o'r Bil Hybrid a bennir yn y cynnig yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Bil Hybrid ar gyfer Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. | Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnig i Filiau Preifat ganiatáu cyfeirio Bil yn ôl at y Pwyllgor Bil Hybrid er mwyn ystyried, a gwaredu, gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod trafodion Cyfnod 3 a / neu waith craffu pellach. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys yr opsiwn i gyfeirio Bil yn ôl at y Pwyllgor yn ystod Cyfnod 3 yn achos Bil Hybrid, yn enwedig o ystyried y gweithdrefnau arbennig lled-farnwrol ar gyfer ei ystyried. |
| 26B.93 | Mae Rheolau Sefydlog 26B.63 a 26B.69 hyd at 26B.78 yn gymwys i Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor" yn unol â hynny. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.94 | Mae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.92. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.95 | Yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor caiff y pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.96 | Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y dechreuodd Ystyriaeth | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | Fanwl Bellach y Pwyllgor. | |
| 26B.97 | Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26B.122, dim ond os ydynt yn welliannau i'r darpariaethau a gyfeiriwyd yn ôl at y Pwyllgor Bil Hybrid, neu os ydynt yn welliannau y byddai eu hangen o ganlyniad i dderbyn unrhyw welliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor, y mae gwelliannau yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dderbyniadwy. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| | **Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad** | |
| 26B.98 | Pan fydd Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26B.91, neu pan fydd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26B.76 os cafodd ei chynnal, caiff unrhyw Aelod sy'n gyfrifol, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau mewn Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Caniateir trafod cynnig o’r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio. | Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth alluogi a gynigir ar gyfer Biliau Preifat ar gyfer trafodion Cyfnod 3 pellach, yn yr un ffordd ag y mae darpariaeth ar gyfer Cyfnod Adrodd yn Rheol Sefydlog 26. Cynigir y gellid trafod y cynnig ond nid ei ddiwygio, yn unol â chynnig yn ystod y Cynod Adrodd o dan Reol Sefydlog 26.45. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.99 | Mae Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Cynulliad dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.98. | Byddai'r newid arfaethedig hwn yn sicrhau eglurder o ran pryd y mae Cyfnod Ystyriaeth Bellach y Cynulliad yn dechrau, pan fo'r Cynulliad yn cytuno i'w gynnal. |
| 26B.100 | Mae Rheolau Sefydlog 26B.80 i 26B.91 yn gymwys i drafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad", a dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn unol â hynny. | Diwygiad canlyniadol arfaethedig yw hwn-mae'r geiriad yn cyd-fynd â'r geiriad ar gyfer y Cyfnod Adrodd o dan Reol Sefydlog 26. Byddai cwmpas unrhyw welliannau yn gyfyngedig, yn unol â Rheol Sefydlog 26B.88. |
| | **Y Cyfnod Terfynol** | |
| 26B.101 | Rhaid i Gyfnod Terfynol Bil Hybrid gael ei gymryd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.102 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.106, caiff unrhyw Aelod, heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os cawsant eu cynnal, gyflwyno cynnig bod y Bil Hybrid yn cael ei basio. | Mae hyn yn ganlyniadol i gyflwyno'r darpariaethau uchod am gyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad, a / neu ar gyfer ail-draddodi'r Bil Hybrid i'r Pwyllgor Bil Hybrid cyn y Cyfnod Terfynol. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.103 | Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.102 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod. | Mae hyn yn gyson â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| 26B.104 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.106, yn union ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os caiff ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod y Bil Hybrid yn cael ei basio. | Mae hyn yn gyson â newidiadau i Reol Sefydlog 26 a gytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref 2014. |
| 26B.105 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Hybrid gael ei basio. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.106 | Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Hybrid yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Hybrid ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.107 | Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| | **Ailystyried Biliau Hybrid a Basiwyd** | |
| 26B.108 | Yn unol ag adran 113 o'r Ddeddf, ar ôl i'r Bil Hybrid gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad | Mae hyn yr un fath â'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau |

| | | |
|---|---|---|
| | ailystyried y Bil Hybrid, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:<br>(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Hybrid wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;<br>(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a<br>(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall. | Cyhoeddus a Biliau Preifat.<br><br>Yn unol ag adran 116(6)(b) o'r Ddeddf, gellir ailystyried Bil ar ôl ei basio mewn tair sefyllfa. Ymdrinnir â'r cyntaf o'r rhain gan Reol Sefydlog 26A.109 – yn achos Bil a gyfeiriwyd at y Goruchaf Lys ac a gyfeirir yn ddiweddarach at Lys Cyfiawnder Ewrop i gael dyfarniad rhagarweiniol. Yn yr achos hwn, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol bod y Cynulliad yn bwriadu ailystyried y Bil – gweler y Rheol Sefydlog 26B.108 newydd arfaethedig isod – a rhaid i'r person a gyfeiriodd y Bil yn wreiddiol dynnu'r cyfeiriad hwnnw yn ôl – gweler Rheol Sefydlog 26B.110 isod – cyn y gall y Cyfnod Ailystyried ddechrau.<br><br>Nid yw holl ddarpariaethau'r Ddeddf yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y Rheolau Sefydlog presennol, ac mae'r diwygiadau drafft yn ceisio unioni'r pethau hynny sydd wedi'u hepgor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gellir hefyd ailystyried os bydd y Goruchaf Lys wedi dyfarnu, wedi i Fil gael ei gyfeirio ato, nad yw'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth oddi mewn iddo o fewn cymhwysedd, neu os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adran 114. Ymdrinnir â'r ddwy sefyllfa hyn gan 26B.111 a 26B.112 isod. |
| 26B.109 | Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.108 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno. | Mae'r geiriad yn adlewyrchu newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 26 a 26A gan fod hynny'n adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf yn well, er mwyn eglurder. |
| 26B.110 | Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.108, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf. | Fel y cynnig ar gyfer 26B.109 uchod – o dan amgylchiadau Rheol Sefydlog 26A.108, ni all Cyfnod Ailystyried ond dechrau yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. |
| 26B.111 | Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Hybrid:<br>(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynghylch cyfeiriad a wneir mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 o'r Ddeddf na | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | fyddai'r Bil Hybrid neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu<br>(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Hybrid o dan adran 114 o'r Ddeddf. | Fel uchod – dyma'r ail a'r drydedd sefyllfa lle gellir cynnal Cyfnod Ailystyried. |
| 26B.112 | Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.111, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Cynulliad. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.113 | Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.114 | Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.115 | Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Hybrid yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26B.122, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:<br>(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;<br>(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu<br>(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.116 | Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.117 | Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Hybrid a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| | **Gwelliannau i Filiau Preifat** | |
| 26B.118 | Mae Rheolau Sefydlog 26B.119 i 26B.127 yn gymwys i welliannau yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad a thrafodion y Cyfnod Ailystyried. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.119 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Hybrid. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.120 | Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried. | Mae hyn yr un fath â'r diwygiad arfaethedig i Reolau Sefydlog 26 a 26A. |
| 26B.121 | Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyried. | |

| | | |
|---|---|---|
| 26B.122 | Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:<br>(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26B.119;<br>(ii) os nad yw'n berthnasol i'r Bil Hybrid neu ddarpariaethau'r Bil Hybrid y byddai'n ei ddiwygio;<br>(iii) os yw'n anghyson â'r egwyddorion cyffredinol fel yr adroddwyd arnynt gan y pwyllgor ac fel y bernir y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu<br>(iv) os yw'n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud yn y cyfnod pryd y mae'r gwelliant yn cael ei gynnig. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.61). |
| 26B.123 | Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o'i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai'n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26B.119 i 26B.127 fod yn gymwys yn unol â hynny. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.62). |
| 26B.124 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.72, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae'n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i'r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o'r fath, daw'r gwelliant yn welliant yn enw'r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i'r gwelliant ac nad yw'n cytuno i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.63). |
| 26B.125 | Caiff Cadeirydd y pwyllgor neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol |

| | | |
|---|---|---|
| | grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu. | Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.64). |
| 26B.126 | Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw'n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i'r gwelliant gael ei gynnig:<br>(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o'r pwyllgor; neu<br>(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.65). |
| 26B.127 | Caniateir i welliant sydd wedi'i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a'i cynigiodd, ond dim ond:<br>(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o'r pwyllgor yn gwrthwynebu; neu<br>(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus (26.66). |
| | **Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw** | |
| 26B.128 | Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth, neu'n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai'r Bil Hybrid yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i'r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai'r Bil | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | Hybrid gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi'i ddynodi gan aelod o'r llywodraeth mewn cyfarfod o'r Cynulliad. | |
| | **Penderfyniadau Ariannol** | |
| 26B.129 | Rhaid i'r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ar gyfer Bil Hybrid o dan Reolau Sefydlog 26B.130 i 26B.135. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.130 | Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth:<br>(i) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, neu<br>(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:<br>(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;<br>(b) gwariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu<br>(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,<br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Hybrid mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i'r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i'r gwariant neu'r cynnydd yn y gwariant gael ei godi ar y | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni. | |
| 26B.131 | Os yw:<br>(i) Bil Hybrid yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n gosod neu'n cynyddu (neu sy'n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu'n rhoi pwer i'w gwneud yn ofynnol) i unrhyw daliad gael ei wneud; a<br>(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o'r Ddeddf, i'r person y mae'r tâl neu'r taliad yn daladwy iddo dalu symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai'n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)),<br>ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Hybrid mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i'r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno â'r tâl, y cynnydd neu'r taliad. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.132 | Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26B.131:<br>(i) bydd yn gymwys dim ond os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad yn arwyddocaol; a<br>(ii) ni fydd yn gymwys os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad:<br>(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |

| | | |
|---|---|---|
| | (b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer. | |
| 26B.133 | Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil Hybrid, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Hybrid hwnnw na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| 26B.134 | Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus. |
| 26B.135 | Oni bai:<br>(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil Hybrid gan Reol Sefydlog 26B.130 neu 26B.131 yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis i'r dyddiad i'r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii); a<br>(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,<br>mae'r Bil Hybrid yn methu. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| | **Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Hybrid y Cynulliad** | |
| 26B.136 | Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r dyddiad y bydd | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer y |

| | | |
|---|---|---|
| | <u>Deddf Hybrid y Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol.</u> | Rheolau Sefydlog ynghylch Biliau Cyhoeddus a Biliau Preifat. |
| | **<u>Biliau Hybrid yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl</u>** | |
| <u>26B.137</u> | <u>Os bydd Bil Hybrid yn methu neu'n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil Hybrid hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil Hybrid sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil Hybrid neu y cafodd ei wrthod.</u> | Mae hyn yr un fath â Rheol Sefydlog 26.76. |
| <u>26B.138</u> | <u>Mae Bil Hybrid yn methu os nad yw wedi'i basio neu wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad y'i cyflwynwyd ynddo.</u> | Mae hyn yr un fath â Rheol Sefydlog 26.77. |
| <u>26B.139</u> | <u>Pan fydd Bil Hybrid yn methu o dan Reol Sefydlog 26B.138, caiff aelod o'r Llywodraeth gyflwyno Bil Hybrid yn yr un telerau yn y Cynulliad nesaf.  Rhaid i destun y Bil Hybrid a gaiff ei gyflwyno fod yr un fath â'r fersiwn a oedd yn cael ei hystyried gan y Cynulliad blaenorol ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad.</u> | Mae hyn yr un fath â'r ychwanegiad arfaethedig at Reol Sefydlog 26A ar gyfer Biliau Preifat.<br><br>Mae Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin yn caniatáu ar gyfer atal neu adfywio Bil Preifat – gan ganiatáu i'r hyrwyddwr ailgyflwyno Bil Preifat gan ymrwymo ei fod yn union yr un fath â'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol, er mwyn caniatáu i'r Bil barhau ei daith o un sesiwn neu senedd i'r nesaf, heb orfod |

| | | |
|---|---|---|
| | | ailadrodd cyfnodau trafod sydd eisoes wedi'u gwaredu, ond gyda darpariaeth i ymdrin ag unrhyw ddeisebau (gwrthwynebiadau) i'r Bil sy'n weddill. Mae rheolau tebyg ar waith yn Senedd yr Alban. Byddai darpariaeth o'r fath yn caniatáu i Fil Hybrid sy'n debygol o rychwantu mwy nag un Cynulliad, er enghraifft ar gyfer prosiect seilwaith mawr, gael ei ailgyflwyno. |
| 26B.140 | Rhaid i'r dogfennau i gyd-fynd â'r Bil yn y Cynulliad blaenorol y cawsant eu cyhoeddi neu eu gosod yn unol â Rheol Sefydlog 15 hyd at ddyddiad diddymu'r Cynulliad gael eu defnyddio at ddibenion y Bil Hybrid pan fo'n cael ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf. | Mae hyn yn dilyn ymlaen o'r cynnig ar gyfer 26B.139 uchod. Byddai'n cynnwys pob dogfen hyd at adeg y diddymiad, nid dim ond y rhai sy'n ofynnol ar adeg cyflwyno Bil, a phob dogfen a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor / Aelod sy'n gyfrifol, pa un a oedd gofyniad i'w gosod ai peidio. |
| 26B.141 | Dim ond yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad nesaf ac yn dod i ben ar y degfed diwrnod gwaith ar hugain ar ôl y dyddiad hwnnw y caniateir cyflwyno Bil Hybrid o dan Reol Sefydlog 26B.139. | Mae hyn yn dilyn ymlaen o'r cynnig ar gyfer 26B.139 uchod ynghylch terfyn amser: dylai hyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno Bil Hybrid yn y cyfnod rhwng y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiadau'r Cynulliad a thoriad yr haf, sef cyfnod o 40-45 diwrnod gwaith ers 1999. Felly, mae 30 diwrnod gwaith yn caniatáu |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch amserlen y Cynulliad yn y dyfodol (ac mae'n adlewyrchu'r terfyn amser a bennwyd yn Senedd yr Alban hefyd). |
| 26B.142 | Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad blaenorol gael eu trin fel gwrthwynebiadau i'r Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf a rhaid i unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Bil Hybrid yn ystod y Cynulliad blaenorol mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau hynny fod yn gymwys. Rhaid peidio â chael unrhyw gyfnod gwrthwynebu pellach ar gyfer Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf yn ychwanegol at y cyfnod gwrthwynebu a gafwyd ar gyfer y Bil Hybrid yn y Cynulliad blaenorol. | Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen o'r cynnig yn Rheol Sefydlog 26B.139 uchod ynghylch ymdrin â gwrthwynebiadau. |
| 26B.143 | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.144, os nad oedd y Cyfnod yr oedd y Bil Hybrid ynddo ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad ar ben, rhaid i drafodion y Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf fel arfer gychwyn ar ddechrau'r Cyfnod. | Mae hyn yr un fath â'r newid a gynigir i'r Rheol Sefydlog ynghylch Biliau Preifat. |
| 26B.144 | Caiff y trafodion gychwyn yn ddiweddarach yn ystod Cyfnod Ystyriaeth Fanwl:<br>(i) os yw'r Aelod sy'n gyfrifol a phob person a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd yn y Cynulliad blaenorol naill ai:<br>(a) yn rhoi'r dystiolaeth honno ar lafar i'r Pwyllgor Bil Hybrid a | Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen o 26B.143 uchod – ni fyddai angen dychwelyd i ddechrau Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor pe bai pawb dan sylw yn fodlon. Mae hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau yn Rheol Sefydlog 26A.35 ar gyfer Biliau Preifat ynghylch |

| | | |
|---|---|---|
| | sefydlir yn y Cynulliad nesaf ("y Pwyllgor newydd"); neu<br>(b) yn cytuno y caiff aelodau'r Pwyllgor newydd weld recordiad neu ddarllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth a roddwyd yn lle hynny. | gwrando ar dystiolaeth lafar yn y Pwyllgor. |
| 26B.145 | Pan fydd asesydd wedi'i benodi ond heb gyflwyno adroddiad cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu, rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ystyried adroddiad yr asesydd. | Mae'r cynnig hwn yn dilyn ymlaen os caiff Bil Hybrid ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf. |
| 26B.146 | Caniateir i Fil Hybrid gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano ond rhaid peidio â'i dynnu'n ôl ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol gael ei chwblhau ac eithrio gyda chytundeb y Cynulliad. | Mae hyn yr un fath â'r drefn ar gyfer Biliau Cyhoeddus ac eithrio y ceisir caniatâd y Cynulliad ar ôl yr Ystyriaeth Gychwynnol yn hytrach nag ar ôl Cyfnod 1, h.y. ar ôl i'r Pwyllgor Bil Hybrid ystyried y gwrthwynebiadau a rhoi caniatâd i'r Bil symud ymlaen er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol. |
| | **Diwygiad canlyniadol i Reol Sefydlog 24.** | |
| 24.2 | Yn Rheol Sefydlog 24, ystyr "deddfwriaeth" yw<br><br>(i) Gorchmynion arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25; neu<br><br>(ii) Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog 25; neu<br><br>(iii) Biliau o dan Reol Sefydlog 26, a 26B. | Diwygiad canlyniadol yw hwn i Reol Sefydlog 24 – Diffiniad o Aelod sy'n Gyfrifol am Ddeddfwriaeth – i gynnwys Biliau Hybrid yn y diffiniad ar gyfer 'deddfwriaeth'. *(Mae'r geiriad arfaethedig ar gyfer Rheol Sefydlog 26B.1 hefyd yn ei gwneud yn glir mai Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r Bil Hybrid,* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *felly aelod o'r Llywodraeth fydd yr Aelod sy'n gyfrifol.)* |

**Atodiad D**

**RHEOL SEFYDLOG 26B – Deddfau Hybrid y Cynulliad**

**Biliau Hybrid**

26B.1 At ddibenion Rheol Sefydlog 26B, mae Bil Hybrid yn Fil Cyhoeddus a gyflwynir gan aelod o Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar fuddiant preifat penodol unigolyn neu gorff yn wahanol i'r ffordd y mae'n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth.

26B.2 Mae Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo yn Fil sy'n ceisio awdurdodi neu hwyluso unrhyw waith adeiladu neu awdurdodi prynu'n orfodol unrhyw ystâd neu fuddiant mewn tir neu dros dir.

**Ffurf Biliau Hybrid a Sut i'w Cyflwyno**

26B.3 Caniateir i Fil Hybrid gael ei gyflwyno ar ddiwrnod gwaith mewn wythnos eistedd.

26B.4 Rhaid i Fil Hybrid gael ei gyflwyno drwy gael ei osod gan yr Aelod sy'n gyfrifol.

26B.5 Rhaid peidio â gosod Bil Hybrid oni bai ei fod ar y ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

26B.6 Pan gyflwynir Bil Hybrid, rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw:

(i) nodi a fyddai darpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a

(ii) nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno.

26B.7 Rhaid i Fil Hybrid gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio os nad yw gwneud hynny yn unol ag unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26B.5.

26B.8 Rhaid i Fil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo beidio â chael ei gyflwyno oni bai bod yr aelod sy’n gyfrifol wedi cyflawni unrhyw ymgynghoriad neu hysbysiad sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol eraill, ynghyd ag unrhyw ofynion ymgynghori neu hysbysu ychwanegol a nodir mewn unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y Llywydd.

**Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid**

26B.9 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy’n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae’n rhaid iddo:

(i) datgan y byddai darpariaethau’r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad;

(ii) nodi’r rhesymau pam y mae darpariaethau’r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i’r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;

(iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;

(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu’r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;

(v) nodi’r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:

(a) amcanion y Bil Hybrid a’r ffyrdd o’u gwireddu; a

(b) manylion y Bil Hybrid, a

(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu’n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);

(vi) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;

(vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

(viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Hybrid ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

(ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:

(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;
(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;
(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;
(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac
(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;

(x) unrhyw anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;

(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:

(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac

(c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); a

(xii) os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio.

26B.10 Yn achos Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol hefyd gynnwys:

(i) manylion llawn am sut y cydymffurfiwyd â'r gofynion a nodir yn Rheol Sefydlog 26B.8;

(ii) Datganiad Amcangyfrif o Dreuliau a Chyllid sy'n nodi amcangyfrif o gyfanswm cost y prosiect a gynigir yn y Bil Hybrid a'r ffynonellau cyllid a ragwelir er mwyn talu am gost y prosiect ac unrhyw fanylion ariannol eraill y penderfynir arnynt gan y Llywydd;

(iii) y cyfryw fapiau, cynlluniau, trawsluniau a llyfrau o gyfeiriadau ag sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth neu gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd; a

(iv) Datganiad Amgylcheddol sy'n nodi’r cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, a gan unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd, am yr effaith amgylcheddol y rhagwelir y bydd y Bil yn ei chael.

26B.11 Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26B.9 a Rheol Sefydlog 26B.10, os yn berthnasol, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.

26B.12 Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.

26B.13 Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.

26B.14 Pan osodir memorandwm esboniadol yn unol â Rheol Sefydlog 26B.9, rhaid cael Datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol i gyd-fynd ag ef a rhaid i'r datganiad hwnnw nodi:

(a) yn achos Bil Hybrid sy’n cynnwys darpariaeth a fydd yn effeithio ar eiddo, ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar hawliau neu ddyletswyddau contractiol eraill unigolyn neu gorff mewn modd sy’n wahanol i’r ffordd y mae’n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â’r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol i unrhyw bersonau neu ddosbarthiadau o berson yr effeithir ar ei eiddo, ei ystâd neu fuddiant mewn tir, neu ar ei hawliau neu ei ddyletswyddau contractiol eraill a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;

(b) yn achos Bil Hybrid sy’n cynnwys darpariaeth i roi pwerau i unrhyw gorff corfforaethol neu unrhyw gymdeithas

anghorfforedig o bersonau, neu i ddiwygio'u cyfansoddiad, fanylion unrhyw hysbysiad ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol i'r corff corfforaethol neu'r gymdeithas anghorfforedig o bersonau a manylion unrhyw ymateb a gafwyd;

(c) datganiad yn rhestru'r mangreoedd lle y caniateir archwilio neu brynu unrhyw ddogfennau ategol sy'n berthnasol i'r Bil Hybrid, ond nad ydynt yn ddogfennau ategol a gyhoeddir gan y Cynulliad;

(d) ymrwymiad i anfon copi o'r Bil Hybrid a'r holl ddogfennau ategol perthnasol i'r mangreoedd y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26B.14(c) ac, yn achos Bil Hybrid y mae Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, at y rhai y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy neu eu hysbysu yn unol â Rheol Sefydlog 26B.8.

(e) ymrwymiad i dalu unrhyw gostau y gall y Comisiwn benderfynu arnynt ac y gall y Comisiwn eu hysgwyddo yn ystod hynt y Bil Hybrid mewn perthynas â phenodi a defnyddio asesydd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.54 a 26B.55.

(f) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.

**Hysbysiad bod Bil Hybrid wedi'i gyflwyno**

26B.15 Cyn gynted ag y bydd Bil Hybrid wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyhoeddi hysbysiad sy'n datgan:

(i) effaith gyffredinol y Bil Hybrid;

(ii) y gall y Bil Hybrid a'r holl ddogfennaeth ategol gael eu harchwilio yn y Cynulliad ac mewn un neu ragor o

fannau yng Nghymru gan gynnwys, yn achos Bil Hybrid sy’n effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, fan yn yr ardal honno;

(iii) y caiff personau sy’n credu y byddai’r Bil Hybrid yn effeithio’n andwyol ar eu buddiannau wneud gwrthwynebiad i’r Llywydd yn ystod y cyfnod o 40 diwrnod gwaith sy’n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysid gyntaf mewn papur newydd (“y cyfnod gwrthwynebu”);

(iv) sut i gyflwyno gwrthwynebiad a’r wybodaeth sydd i’w chynnwys yn y gwrthwynebiad hwnnw, gan roi sylw i Reol Sefydlog 26B.21;

(v) y caiff gwrthwynebiad ofyn naill ai i’r Bil Hybrid beidio â chael ei gymeradwyo neu i newidiadau gael eu gwneud i’r Bil Hybrid cyn iddo gael ei gymeradwyo;

(vi) bod rhaid i’r person sy’n gwneud gwrthwynebiad gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynghylch gwneud gwrthwynebiad.

26B.16 Wrth gyfrifo'r cyfnod gwrthwynebu o dan Reol Sefydlog 26B.15(iii), ni roddir ystyriaeth i unrhyw gyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r Cynulliad ac yn gorffen ar ddyddiad ailgyflwyno Bil Hybrid yn y Cynulliad nesaf.

26B.17 Rhaid i hysbysiad o dan Reol Sefydlog 26B.15 gael ei gyhoeddi:

(i) mewn o leiaf un papur newydd sy’n cylchredeg ledled Cymru (neu, os yw’r Bil Hybrid yn effeithio ar un ardal yn unig yng Nghymru, ledled yr ardal honno); a

(ii) drwy ba fodd arall bynnag sy’n briodol, yn unol ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y

Llywydd, i’w ddwyn i sylw’r rhai y mae’r Bil Hybrid yn debyg o effeithio ar eu buddiannau.

26B.18 Cyn gynted ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi cydymffurfio â gofynion Rheol Sefydlog 26B.15, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o’r ffaith honno i’r Llywydd, gan roi manylion y canlynol:

(i) sut y cydymffurfiwyd â’r gofynion hynny; a

(ii) y trefniadau a wnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol i sicrhau y gallai’r Bil Hybrid gael ei archwilio (heblaw yn y Cynulliad) yn unol â Rheol Sefydlog 26B.15(ii).

**Gwrthwynebu**

26B.19 Caiff person unigol, corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig o bersonau sydd o’r farn y byddai Bil Hybrid a gyflwynid yn y Cynulliad yn effeithio’n andwyol ar eu buddiannau (“gwrthwynebydd”) wneud gwrthwynebiad i’r Llywydd mewn ysgrifen, yn unol â hysbysiad a roddir o dan Reol Sefydlog 26B.15, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26B.15(iii).

26B.20 Rhaid i’r Llywydd ddyfarnu a yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy.

26B.21 Dim ond:

(i) os yw’n cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad neu benderfyniadau a wneir gan y Llywydd ynglŷn â gwneud gwrthwynebiad;

(ii) os yw’n nodi natur y gwrthwynebiad;

(iii) os yw’n nodi’r darpariaethau yn y Bil Hybrid sy’n arwain at y gwrthwynebiad;

(iv) os yw’n pennu sut y byddai’r Bil Hybrid yn effeithio’n andwyol ar fuddiannau’r gwrthwynebydd

y bydd gwrthwynebiad yn dderbyniadwy.

26B.22 Rhaid i'r Llywydd roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad o dan Reol Sefydlog 26B.20 ac, os dyfernir nad yw gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, rhaid i'r Llywydd roi rhesymau i'r gwrthwynebydd dros y penderfyniad hwnnw.

26B.23 Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, rhaid i'r Clerc gyhoeddi pob gwrthwynebiad derbyniadwy.

26B.24 Os caiff y Llywydd wrthwynebiad ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben ond cyn y cyfarfod cyntaf ar gyfer Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ac os ceir gyda'r gwrthwynebiad hwnnw ddatganiad gan y gwrthwynebydd sy'n esbonio'r oedi cyn cyflwyno'r gwrthwynebiad, rhaid i'r Llywydd benderfynu a yw wedi'i fodloni:

(i) bod y gwrthwynebiad yn dderbyniadwy, yn unol â Rheol Sefydlog 26B.21;

(ii) bod gan y gwrthwynebydd reswm da dros beidio â gwneud y gwrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu;

(iii) bod y gwrthwynebydd wedi gwneud y gwrthwynebiad cyn gynted ag yr oedd yn rhesymol ymarferol ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben; a

(iv) na fyddai'n afresymol ystyried y gwrthwynebiad hwnnw o gofio hawliau a buddiannau'r gwrthwynebwyr a Llywodraeth Cymru.

26B.25 Os yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly:

(i) rhaid iddo roi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad;

(ii) rhaid i'r Clerc gyhoeddi'r gwrthwynebiad; a

(iii) rhaid i'r pwyllgor a sefydlir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.30 roi ystyriaeth i'r gwrthwynebiad.

26B.26 Os nad yw'r Llywydd wedi'i fodloni felly, rhaid iddo:

(i) rhoi gwybod i'r gwrthwynebydd am ei benderfyniad, a;

(ii) rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i'r wrthwynebydd.

26B.27 Caniateir i wrthwynebiad gael ei dynnu'n ôl gan y gwrthwynebydd, yn unol ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Llywydd.

### Datganiadau mewn perthynas ag ymgynghori

26B.28 Caiff unrhyw berson yr ymgynghorwyd ag ef neu unrhyw berson a hysbyswyd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.8, yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ddwyn unrhyw ddiffyg yn y broses ymgynghori neu hysbysu i sylw'r Llywydd drwy gyflwyno datganiad ysgrifenedig.

26B.29 Ni chaniateir trin datganiad o'r fath fel gwrthwynebiad o dan Reol Sefydlog 26B.19 ond caiff Pwyllgor Bil Hybrid ei ystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26B.43(ii).

### Pwyllgorau Biliau Hybrid

26B.30 Pan fydd Bil Hybrid wedi'i gyflwyno, rhaid i'r Cynulliad ystyried cynnig i sefydlu Pwyllgor Bil Hybrid, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5.

26B.31 Mae Rheolau Sefydlog 17.3 a 17.7 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid ac eithrio bod rhaid iddo gynnwys dim llai na phedwar o aelodau.

26B.32 Rhaid i unrhyw Aelod y mae ganddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan ei bartner neu y mae gan unrhyw blentyn dibynnol iddo, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru o dan Reol Sefydlog 2 y gellid barnu ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar Fil Hybrid, beidio â bod yn aelod o'r pwyllgor a sefydlir i ystyried y Bil hwnnw.

26B.33 Rhaid i unrhyw Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y

cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26B.32 a hefyd am unrhyw fuddiant personol, etholaethol neu ranbarthol perthnasol arall sydd ganddo neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'n disgwyl y bydd ganddo, y gallai eraill ystyried yn rhesymol ei fod yn rhagfarnu ystyriaeth ddiduedd ar y Bil Hybrid.

26B.34 At ddibenion Rheol Sefydlog 26B.32, mae ystyron "partner" a "plentyn dibynnol" fel y'u diffiniwyd ym mharagraff 4 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2.

26B.35 Rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.32 ynglŷn ag Aelod y cynigir ei enw i fod yn aelod o Bwyllgor Bil Hybrid gael ei gyhoeddi yr un pryd â'r cynnig i sefydlu'r pwyllgor hwnnw.

26B.36 Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Hybrid, cyn cyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, fod wedi cyflawni cwrs hyfforddi perthnasol fel y pennwyd gan y Llywydd.

26B.37 Rhaid i bob aelod o Bwyllgor Bil Hybrid, yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw, gytuno i weithredu'n ddiduedd, yn rhinwedd swydd yr Aelod hwnnw fel aelod o'r pwyllgor hwnnw, a seilio penderfyniadau ar y dystiolaeth a'r wybodaeth arall a ddarperir i'r pwyllgor hwnnw yn unig.

26B.38 Rhaid i aelodau Pwyllgor Bil Hybrid, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor Bil Hybrid.

26B.39 Ni chaiff aelod o Bwyllgor Bil Hybrid gymryd rhan mewn unrhyw drafodion ar y Bil Hybrid oni bai:

(i) bod yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud â'r Bil Hybrid hwnnw a roddwyd ar lafar yn ystod trafodion y pwyllgor wedi'i rhoi yng ngŵydd yr Aelod, neu

(ii) gyda chytundeb yr Aelod sy'n gyfrifol ac unrhyw wrthwynebydd y mae'r dystiolaeth yn ymwneud ag ef, fod yr Aelod hwnnw wedi gweld recordiad neu wedi darllen

trawsgrifiad o’r holl dystiolaeth nas rhoddwyd yng ngŵydd yr Aelod.

26B.40 Nid yw Rheolau Sefydlog 17.12, 17.17 na 17.48 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid.

26B.41 Nid yw Rheol Sefydlog 17.49 yn gymwys i Bwyllgor Bil Hybrid, ac eithrio wrth i’r pwyllgor ystyried trafodion ar welliannau.

**Yr Ystyriaeth Gychwynnol**

26B.42 Pan fydd y cyfnod gwrthwynebu a bennir yn Rheol Sefydlog 26B.15(iii) wedi dod i ben, rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26B.30 (“y pwyllgor”), ystyried a ddylai’r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid a chyflwyno adroddiad ar hynny.

26B.43 Wrth ystyried a ddylai Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid, rhaid i'r pwyllgor ystyried:

(i) a yw’r dogfennau sy’n cyd-fynd â’r Bil ac a osodwyd yn unol â Rheolau Sefydlog 26B.9 i 26B.14, ym marn y pwyllgor, yn ddigonol i ganiatáu gwaith craffu priodol ar y Bil;

(ii) a gynhaliodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymgynghori digonol cyn i’r Bil gael ei gyflwyno;

(iii) a yw darpariaethau’r Bil yn peri ei fod yn briodol i’w ystyried fel Bil Hybrid yn unol â Rheol Sefydlog 26B, gan roi sylw penodol i’r canlynol:

(a) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn effeithio ar faterion o bolisi cyhoeddus;

(b) i ba raddau y mae ei ddarpariaethau yn diwygio neu’n diddymu deddfwriaeth arall;

(c) maint yr ardal y mae’n effeithio arni;

(d) nifer a natur y buddiannau y mae'n effeithio arnynt.

26B.44 Os yw'n ymddangos i'r pwyllgor nad yw'r dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil yn ddigonol i alluogi'r pwyllgor i gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.42, caiff y pwyllgor, cyn cyflwyno adroddiad ynghylch a ddylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid, ganiatáu unrhyw gyfnod rhesymol y mae'r pwyllgor yn credu ei fod yn briodol i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu unrhyw wybodaeth arall sydd ym marn y pwyllgor yn angenrheidiol ("dogfennau ategol ychwanegol").

26B.45 Rhaid i unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol gael eu gosod.

26B.46 Ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno'i adroddiad, caiff yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Hybrid gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno i'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid.

26B.47 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.46, mae'r Bil yn symud ymlaen i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26B.48 Os gwrthodir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.46, mae'r Bil yn methu.

26B.49 Mae'r Ystyriaeth Gychwynnol ar ben pan fydd y Cynulliad wedi cytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Hybrid neu pan fydd y Bil yn methu fel rhan o'r Ystyriaeth Gychwynnol.

**Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor**

26B.50 Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol ddod i ben.

26B.51 Rhaid i'r trafodion adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu hystyried gan y Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 26B.30.

26B.52 Adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r pwyllgor:

(i) ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil Hybrid a chyflwyno adroddiad arnynt;

(ii) ystyried unrhyw wrthwynebiadau derbyniadwy, heblaw unrhyw wrthwynebiad nad oes iddo, ym marn y pwyllgor, sail o sylwedd a chyflwyno adroddiad arnynt;

(iii) lle y bo'n briodol, ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil; a

(iv) ystyried manylion y Bil Hybrid yn unol â Rheolau Sefydlog 26B.63 i 26B.78 (gan gynnwys unrhyw welliannau derbyniadwy).

26B.53 Mae gan y personau a ganlyn hawl i gael eu gwrando gerbron y pwyllgor yn bersonol, neu i gael eu cynrychioli:

(i) yr Aelod sy'n gyfrifol ac unrhyw aelod arall o'r llywodraeth;

(ii) unrhyw wrthwynebydd (yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.60) sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad derbyniadwy y mae'r pwyllgor o'r farn bod iddo sail o sylwedd;

a chânt gymryd rhan yn y trafodion yn unol ag unrhyw ddyfarniadau gan y Cadeirydd.

**Penodi asesydd i ystyried gwrthwynebiadau**

26B.54 Pan fydd Pwyllgor a sefydlwyd i ystyried Bil Hybrid yn ystyried bod hynny'n briodol, caiff benodi asesydd, neu aseswyr, i ystyried gwrthwynebiadau.

26B.55 Caiff yr asesydd, neu aseswyr, gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Bil Hybrid ynghylch:

i) a oes sail o sylwedd ar gyfer gwrthwynebiadau derbyniadwy;
ii) argymhellion ar gyfer grwpio gwrthwynebiadau;

iii) dethol tystion ac a ddylid gofyn am dystiolaeth gan y tystion hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig;

a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaethau eraill yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y penderfynir arnynt gan y Pwyllgor.

26B.56 Caiff y Cadeirydd, wrth ddyfarnu ar sut y caiff gwrthwynebydd (neu berson arall) gymryd rhan yn y trafodion, ystyried natur y gwrthwynebiad neu’r sylwadau eraill ac i ba raddau y mae natur y cyfraniad hwnnw yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r pwyllgor i ystyried y gwrthwynebiad a chyflwyno adroddiad arno.

26B.57 Caiff y Pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae’n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth.

26B.58 Rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid ystyried rhinweddau'r gwrthwynebiadau yng nghyd-destun:
(i) unrhyw dystiolaeth a gyflwynir iddo; neu
(ii) unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi gan unrhyw asesydd neu aseswyr a benodir yn unol â Rheol Sefydlog 26B.54.

26B.59 Caiff y Pwyllgor Bil Hybrid dderbyn neu wrthod-
(i) unrhyw wrthwynebiad yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono;
(ii) adroddiad asesydd yn ei gyfanrwydd neu unrhyw ran ohono.

26B.60 Os yw’r pwyllgor o’r farn bod dau neu fwy o wrthwynebiadau yr un fath neu’n debyg i’w gilydd, caiff grwpio’r gwrthwynebiadau hynny gyda’i gilydd a dewis un neu ragor o wrthwynebwyr o’r grŵp hwnnw i roi tystiolaeth ac i gymryd rhan fel arall mewn perthynas â’r gwrthwynebiadau hynny.

26B.61 Os yw’r pwyllgor, wrth baratoi ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii), yn bwriadu argymell newid yn y Bil Hybrid a phe bai’r newid hwnnw, o’i wneud, ym marn pwyllgor, yn effeithio ar fuddiannau’r personau eraill y cyfeirir atynt yn Rheol Sefydlog 26B.62, caiff y Pwyllgor gymryd unrhyw gamau y mae’n barnu eu bod yn

briodol er mwyn sicrhau y caiff y personau eraill hynny gyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor mewn perthynas â'r argymhelliad hwnnw.

26B.62 At ddibenion Rheol Sefydlog 26B.61, ystyr "personau eraill" yw:

(i) personau nad effeithiwyd ar eu buddiannau gan y Bil Hybrid fel y'u cyflwynwyd ond y byddid yn effeithio ar eu buddiannau pe câi'r newidiadau arfaethedig eu gwneud yn y Bil Hybrid, neu

(ii) gwrthwynebwyr presennol y byddid yn effeithio ar eu buddiannau i raddau helaethach neu mewn ffyrdd newydd pe câi'r newidiadau arfaethedig

eu gwneud yn y Bil Hybrid, gan arwain at seiliau newydd o sylwedd dros wrthwynebu.

26B.63 Caniateir i Fil Hybrid gael ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26B.64 Rhaid i 25 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y gosodir yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) a dyddiad y cyfarfod cyntaf y bydd y pwyllgor yn ystyried manylion y Bil Hybrid ynddo yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(iv).

26B.65 Heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith ar ôl i adroddiad y pwyllgor gael ei osod, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig na ddylai'r Bil Hybrid fynd ymhellach.

26B.66 Os na chyflwynir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.65, neu os cyflwynir cynnig o'r fath ond fe'i gwrthodir, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Hybrid a rhaid i'r pwyllgor fynd rhagddo i waredu gwelliannau i'r Bil Hybrid, yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(iv).

26B.67 Rhaid trefnu bod amser ar gael i gynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B.65 gael ei drafod o fewn 10 diwrnod gwaith i ddyddiad cyflwyno'r cynnig (heb gyfrif diwrnodau gwaith mewn wythnos pan nad yw'r Cynulliad yn eistedd).

26B.68 Os derbynnir cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B.65, mae'r Bil Hybrid yn methu.

26B.69 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y gosododd y pwyllgor ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii).

26B.70 O dan amgylchiadau eithriadol, caiff Cadeirydd y pwyllgor dderbyn gwelliant yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor y rhoddwyd llai o hysbysiad ohono na'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26B.120. Cyfeirir at welliant o'r fath fel "gwelliant hwyr".

26B.71 Mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid, oni bai bod y pwyllgor wedi penderfynu fel arall.

26B.72 Dim ond Aelod sy'n aelod o'r pwyllgor a gaiff gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor hwnnw at y dibenion a ganlyn:

(i) cynnig gwelliant neu ofyn am gytundeb i dynnu gwelliant yn ôl; neu

(ii) pleidleisio.

26B.73 Caniateir i welliant gan Aelod nad yw'n aelod o'r Pwyllgor gael ei gynnig gan aelod o'r pwyllgor.

26B.74 Os cyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Hybrid neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i'r adran honno neu'r atodlen honno wedi'i waredu, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r

atodlen honno fel y'i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26B.75 Os na chyflwynir gwelliant i adran o'r Bil Hybrid neu atodlen iddo, bernir bod y pwyllgor wedi cytuno ar yr adran honno neu'r atodlen honno at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.

26B.76 Mae Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf.

26B.77 Os caiff Bil Hybrid ei ddiwygio yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig.

26B.78 Rhaid i unrhyw Femorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei baratoi o dan Reol Sefydlog 26B.77 gael ei osod o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

**Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad**

26B.79 Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor ddod i ben.

26B.80 Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng y diwrnod y mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dechrau a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26B.81 Rhaid i Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael ei hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26B.82 Caniateir i Fil Hybrid gael ei ddiwygio adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26B.83 Caniateir i welliannau i’w hystyried adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad gael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod o’r diwrnod cyntaf y bydd y cyfnod yn dechrau.

26B.84 Caiff y Llywydd ddethol y gwelliannau hynny yr ymdrinnir â hwy adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26B.85 Mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid, oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu fel arall drwy gynnig a gyflwynir gan y Gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

26B.86 Drwy gynnig heb hysbysiad a gyflwynir gan y Gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth, caiff y Cynulliad gytuno ar un neu fwy o derfynau amser sydd i fod yn gymwys mewn dadleuon ar welliannau (fel y maent wedi’u grwpio gan y Llywydd).

26B.87 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.86, rhaid i’r dadleuon ar y grwpiau hynny o welliannau gael eu gorffen erbyn y terfynau amser a bennwyd yn y cynnig, ac eithrio i’r graddau y mae’r Llywydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol:

(i) am fod peidio â chynnig gwelliant wedi arwain at newid trefn trafod y grwpiau; neu

(ii) i atal unrhyw ddadl ar grŵp o welliannau sydd eisoes wedi dechrau pan gyrhaeddir y terfyn amser rhag cael ei chwtogi’n afresymol.

26B.88 Dim ond os ydynt, yn ychwanegol at y meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.122, wedi’u bwriadu ar gyfer y canlynol:

(i) egluro geiriad darpariaeth yn y Bil Hybrid (gan gynnwys dileu anghysondebau yn y testunau Cymraeg a Saesneg neu rhyngddynt), neu

(ii) rhoi eu heffaith i ymrwymiadau a roddwyd ar ran yr Aelod sy'n gyfrifol adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, neu

(iii) rhoi eu heffaith i unrhyw argymhellion a wnaed gan y pwyllgor yn ei adroddiad o dan Reol Sefydlog 26B.52(i) a (ii), y mae gwelliannau adeg Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad yn dderbyniadwy.

26B.89 Os cyflwynir gwelliant i adran o’r Bil Hybrid neu atodlen iddo, pan fydd y gwelliant olaf i’r adran honno neu’r atodlen honno wedi’i waredu, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu’r atodlen honno fel y’i diwygiwyd, neu fel arall, at ddibenion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26B.90 Os na chyflwynir gwelliant i adran neu atodlen, bernir bod y Cynulliad wedi cytuno ar yr adran honno neu’r atodlen honno at ddibenion trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad.

26B.91 Mae Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi’i waredu neu pan fernir bod yr adran neu’r atodlen olaf wedi’i chytuno, pa un bynnag yw'r olaf.

**Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor**

26B.92 Pan fydd yr holl welliannau a ddetholwyd yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad wedi eu gwaredu yn unol â Rheol Sefydlog 26B.91, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod unrhyw ran o'r Bil Hybrid a bennir yn y cynnig yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Bil Hybrid ar gyfer Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26B.93 Mae Rheolau Sefydlog 26B.63 a 26B.69 hyd at 26B.78 yn gymwys i Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor" yn unol â hynny.

26B.94 Mae Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl derbyn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.92.

26B.95 Yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor caiff y pwyllgor wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol i roi tystiolaeth.

26B.96 Caniateir i welliannau i'w hystyried yn ystod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor gael eu cyflwyno heb fod yn gynharach na'r diwrnod gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y dechreuodd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor.

26B.97 Yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26B.122, dim ond os ydynt yn welliannau i'r darpariaethau a gyfeiriwyd yn ôl at y Pwyllgor Bil Hybrid, neu os ydynt yn welliannau y byddai eu hangen o ganlyniad i dderbyn unrhyw welliannau a gyflwynwyd yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor, y mae gwelliannau yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor yn dderbyniadwy.

**Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad**

26B.98 Pan fydd Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26B.91, neu pan fydd Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor ar ben yn unol â Rheol Sefydlog 26B.76 os cafodd ei chynnal, caiff unrhyw Aelod sy'n gyfrifol, heb hysbysiad, gynnig bod y Cynulliad yn ystyried gwelliannau mewn Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Caniateir trafod cynnig o'r fath ond ni chaniateir ei ddiwygio.

26B.99 Mae Cyfnod Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r Cynulliad dderbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.98.

26B.100 Mae Rheolau Sefydlog 26B.80 i 26B.91 yn gymwys i drafodion Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad. Dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad", a dylid dehongli cyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor" yn gyfeiriadau at "Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad" yn unol â hynny.

**Y Cyfnod Terfynol**

26B.101 Rhaid i Gyfnod Terfynol Bil Hybrid gael ei gymryd gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26B.102 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.106, caiff unrhyw Aelod, heb fod yn gynharach na phum diwrnod gwaith ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os cawsant eu cynnal, gyflwyno cynnig bod y Bil Hybrid yn cael ei basio.

26B.103 Rhaid cyflwyno cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.102 o leiaf un diwrnod gwaith cyn y caiff ei drafod.

26B.104 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.106, yn union ar ôl cwblhau Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu Ystyriaeth Fanwl Bellach y Cynulliad os caiff ei chynnal, caiff unrhyw Aelod, gyda chytundeb y Llywydd, gynnig heb hysbysiad fod y Bil Hybrid yn cael ei basio.

26B.105 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil Hybrid gael ei basio.

26B.106 Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil Hybrid yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil Hybrid ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

26B.107 Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 12.31(ii) mewn unrhyw drafodion Cyfnod Terfynol.

**Ailystyried Biliau Hybrid a Basiwyd**

26B.108 Yn unol ag adran 113 o'r Ddeddf, ar ôl i'r Bil Hybrid gael ei basio, caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Hybrid, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo:

(i) os oes cwestiwn ynglŷn â'r Bil Hybrid wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o'r Ddeddf;

(ii) os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol (o fewn ystyr adran 113(1)(b) o'r Ddeddf) wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; a

(iii) os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall.

26B.109 Os derbynnir cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.108 gan y Cynulliad, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cwnsler Cyffredinol a'r Twrnai Cyffredinol am y ffaith honno.

26B.110 Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.108, bydd y Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl tynnu'r cyfeiriad a wnaed mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 yn ôl yn dilyn cais am dynnu'r cyfeiriad yn ôl o dan adran 113(2)b o'r Ddeddf.

26B.111 Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig y dylai'r Cynulliad ailystyried y Bil Hybrid:

(i) os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynghylch cyfeiriad a wneir mewn perthynas â'r Bil o dan adran 112 o'r Ddeddf na fyddai'r Bil Hybrid neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; neu

(ii) os gwneir gorchymyn mewn perthynas â'r Bil Hybrid o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26B.112 Os bydd y Cynulliad yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26B.111, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn gan y Cynulliad.

26B.113 Rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau'r Cyfnod Ailystyried a dyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried.

26B.114 Rhaid i'r trafodion yn y Cyfnod Ailystyried gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

26B.115 Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil Hybrid yn y Cyfnod Ailystyried oni bai bod y gwelliannau, yn ychwanegol at feini prawf Rheol Sefydlog 26B.122, ac ym marn y Llywydd, wedi'u bwriadu dim ond i ddatrys y mater sy'n destun y canlynol:

(i) y cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol;

(ii) penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

(iii) y Gorchymyn o dan adran 114 o'r Ddeddf.

26B.116 Oni bai bod y Cynulliad wedi penderfynu, drwy gynnig gan y Pwyllgor Busnes, ym mha drefn y mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu, rhaid eu gwaredu yn y drefn y mae'r darpariaethau y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil Hybrid.

26B.117 Yn syth ar ôl cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, caiff unrhyw Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Cynulliad yn cymeradwyo Bil Hybrid a ddiwygiwyd wrth gael ei ailystyried. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

**Gwelliannau i Filiau Preifat**

26B.118 Mae Rheolau Sefydlog 26B.119 i 26B.127 yn gymwys i welliannau yn ystod trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, trafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad a thrafodion y Cyfnod Ailystyried.

26B.119 Rhaid i'r Llywydd benderfynu ar ffurf briodol gwelliannau i Fil Hybrid.

26B.120 Ni chaniateir ystyried gwelliant, ac eithrio gwelliant hwyr, oni bai ei fod wedi'i gyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith cyn iddo gael ei ystyried.

26B.121 Caiff unrhyw Aelod ychwanegu ei enw i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) drwy hysbysu'r Clerc ar unrhyw adeg hyd at ddiwedd y diwrnod

gwaith cyn bod y gwelliant i fod i gael ei ystyried. 26B.122 Nid yw gwelliant yn dderbyniadwy:

(i) os nad yw ar ei ffurf briodol yn unol â Rheol Sefydlog 26B.119;

(ii) os nad yw’n berthnasol i’r Bil Hybrid neu ddarpariaethau’r Bil Hybrid y byddai’n ei ddiwygio;

(iii) os yw’n anghyson â’r egwyddorion cyffredinol fel yr adroddwyd arnynt gan y pwyllgor ac fel y bernir y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad; neu

(iv) os yw’n anghyson â phenderfyniad sydd eisoes wedi’i wneud yn y cyfnod pryd y mae’r gwelliant yn cael ei gynnig.

26B.123 Caniateir cyflwyno gwelliant i welliant ac, o’i ddethol, rhaid iddo gael ei waredu cyn y gwelliant y byddai’n ei ddiwygio, a rhaid i Reolau Sefydlog 26B.119 i 26B.127 fod yn gymwys yn unol â hynny.

26B.124 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.72, caniateir i welliant (ac eithrio gwelliant hwyr) gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cyflwynodd ar unrhyw adeg cyn y diwrnod y mae’n cael ei ystyried ond dim ond gyda chytundeb unfrydol unrhyw Aelodau sydd wedi ychwanegu eu henwau i’r gwelliant. Os na sicrheir cytundeb o’r fath, daw’r gwelliant yn welliant yn enw’r Aelod cyntaf a ychwanegodd ei enw i’r gwelliant ac nad yw’n cytuno i’r gwelliant gael ei dynnu'n ôl.

26B.125 Caiff Cadeirydd y pwyllgor neu’r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw’n amser ei waredu.

26B.126 Os na fydd Aelod a gyflwynodd welliant yn cynnig y gwelliant pan ddaw’n amser trafod y gwelliant hwnnw, caniateir i’r gwelliant gael ei gynnig:

(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gan aelod o’r pwyllgor; neu

(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, gan unrhyw Aelod arall.

26B.127 Caniateir i welliant sydd wedi’i gynnig gael ei dynnu'n ôl gan yr Aelod a’i cynigiodd, ond dim ond:

(i) yn y pwyllgor adeg Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, os na fydd aelod o’r pwyllgor yn gwrthwynebu; neu

(ii) yn nhrafodion Ystyriaeth Fanwl y Cynulliad, neu yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried, os na fydd Aelod yn gwrthwynebu.

**Cydsyniad Ei Mawrhydi a Dug Cernyw**

26B.128 Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth, neu’n cael ei ddiwygio i gynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai, pe bai’r Bil Hybrid yn Fil ar gyfer Deddf Senedd y Deyrnas Unedig, yn gofyn cydsyniad Ei Mawrhydi neu gydsyniad Dug Cernyw, rhaid i’r Cynulliad beidio â thrafod y cwestiwn a ddylai’r Bil Hybrid gael ei basio (neu ei gymeradwyo yn dilyn y Cyfnod Ailystyried) oni bai bod y cydsyniad hwnnw ar gyfer y ddarpariaeth honno wedi’i ddynodi gan aelod o’r llywodraeth mewn cyfarfod o’r Cynulliad.

**Penderfyniadau Ariannol**

26B.129 Rhaid i’r Llywydd benderfynu ym mhob achos a oes angen penderfyniad ar gyfer Bil Hybrid o dan Reolau Sefydlog 26B.130 i 26B.135.

26B.130 Os yw Bil Hybrid yn cynnwys darpariaeth:

(i) sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, neu

(ii) y byddai ei heffaith debygol yn arwain at:

(a) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant a godir ar y Gronfa honno;

(b) gwariant arwyddocaol sy’n daladwy o’r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben newydd; neu

(c) cynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno ar wasanaeth neu ddiben presennol,

ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Hybrid mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i’r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) oni bai bod y Cynulliad wedi cytuno, drwy benderfyniad ariannol, y caniateir i’r gwariant neu’r cynnydd yn y gwariant gael ei godi ar y Gronfa honno neu, yn ôl fel y digwydd, ei dalu ohoni.

26B.131 Os yw:

(i) Bil Hybrid yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n gosod neu’n cynyddu (neu sy’n rhoi pŵer i osod neu i gynyddu) unrhyw dâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol (neu’n rhoi pwer i’w gwneud yn ofynnol) i unrhyw daliad gael ei wneud; a

(ii) yn ofynnol, gan neu o dan adran 120(1) o’r Ddeddf, i’r person y mae’r tâl neu’r taliad yn daladwy iddo dalu symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol Cymru (neu os byddai’n ofynnol gwneud hynny heblaw am unrhyw ddarpariaeth a wnaed o dan adran 120(2)),

ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y Bil Hybrid mewn unrhyw Gyfnod ar ôl i’r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii) oni bai bod y Cynulliad, drwy benderfyniad ariannol, wedi cytuno â’r tâl, y cynnydd neu’r taliad.

26B.132 Mewn perthynas â Rheol Sefydlog 26B.131:

(i) bydd yn gymwys dim ond os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad yn arwyddocaol; a

(ii) ni fydd yn gymwys os yw'r tâl, y cynnydd yn y tâl neu'r taliad:

(a) yn ymwneud â darparu nwyddau ac yn rhesymol o'i gymharu â'r nwyddau a ddarperir; neu

(b) wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill cost darparu unrhyw wasanaeth y mae'r tâl yn cael ei osod ar ei gyfer neu y mae'n ofynnol gwneud y taliad ar ei gyfer.

26B.133 Os byddai gwelliant (neu welliannau) i Fil Hybrid, o'i dderbyn (neu o'u derbyn), yn golygu y byddai angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Hybrid hwnnw na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant (neu'r gwelliannau) oni bai bod y Cynulliad wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol o'r fath.

26B.134 Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath.

26B.135 Oni bai:

(i) bod hysbysiad ynglŷn â chynnig ar gyfer unrhyw benderfyniad ariannol y gofynnir amdano mewn perthynas â Bil Hybrid gan Reol Sefydlog 26B.130 neu 26B.131 yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis i'r dyddiad i'r Pwyllgor Bil Hybrid gyflwyno adroddiad yn unol â Rheol Sefydlog 26B.52(i), (ii) a (iii); a

(ii) bod y cynnig yn cael ei dderbyn,

mae'r Bil Hybrid yn methu.

**Hysbysu ynghylch Cydsyniad Brenhinol i Ddeddfau Hybrid y Cynulliad**

26B.136 Rhaid i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf Hybrid y Cynulliad yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**Biliau Hybrid yn Methu, yn Cael eu Gwrthod neu'n Cael eu Tynnu'n ôl**

26B.137 Os bydd Bil Hybrid yn methu neu'n cael ei wrthod gan y Cynulliad, rhaid peidio â chymryd dim trafodion pellach ar y Bil Hybrid hwnnw a rhaid peidio â chyflwyno Bil Hybrid sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg, yn yr un Cynulliad o fewn y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad y methodd y Bil Hybrid neu y cafodd ei wrthod.

26B.138 Mae Bil Hybrid yn methu os nad yw wedi'i basio neu wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad cyn diwedd y Cynulliad y'i cyflwynwyd ynddo.

26B.139 Pan fydd Bil Hybrid yn methu o dan Reol Sefydlog 26B.138, caiff aelod o'r Llywodraeth gyflwyno Bil Hybrid yn yr un telerau yn y Cynulliad nesaf. Rhaid i destun y Bil Hybrid a gaiff ei gyflwyno fod yr un fath â'r fersiwn a oedd yn cael ei hystyried gan y Cynulliad blaenorol ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad.

26B.140 Rhaid i'r dogfennau i gyd-fynd â'r Bil yn y Cynulliad blaenorol y cawsant eu cyhoeddi neu eu gosod yn unol â Rheol Sefydlog 15 hyd at ddyddiad diddymu'r Cynulliad gael eu defnyddio at ddibenion y Bil Hybrid pan fo'n cael ei ailgyflwyno yn y Cynulliad nesaf.

26B.141 Dim ond yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad nesaf ac yn dod i ben ar y degfed diwrnod gwaith ar hugain ar ôl y dyddiad hwnnw y caniateir cyflwyno Bil Hybrid o dan Reol Sefydlog 26B.139.

26B.142 Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ystod y Cynulliad blaenorol gael eu trin fel gwrthwynebiadau i'r Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf a rhaid i unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Bil Hybrid yn ystod y Cynulliad blaenorol mewn perthynas

â'r gwrthwynebiadau hynny fod yn gymwys. Rhaid peidio â chael unrhyw gyfnod gwrthwynebu pellach ar gyfer Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf yn ychwanegol at y cyfnod gwrthwynebu a gafwyd ar gyfer y Bil Hybrid yn y Cynulliad blaenorol.

26B.143 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 26B.144, os nad oedd y Cyfnod yr oedd y Bil Hybrid ynddo ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad ar ben, rhaid i drafodion y Bil Hybrid a gyflwynir yn y Cynulliad nesaf fel arfer gychwyn ar ddechrau'r Cyfnod.

26B.144 Caiff y trafodion gychwyn yn ddiweddarach yn ystod Cyfnod Ystyriaeth Fanwl:

(i) os yw'r Aelod sy'n gyfrifol a phob person a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlwyd yn y Cynulliad blaenorol naill ai:

(a) yn rhoi'r dystiolaeth honno ar lafar i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ("y Pwyllgor newydd"); neu

(b) yn cytuno y caiff aelodau'r Pwyllgor newydd weld recordiad neu ddarllen trawsgrifiad o'r holl dystiolaeth a roddwyd yn lle hynny.

26B.145 Pan fydd asesydd wedi'i benodi ond heb gyflwyno adroddiad cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu, rhaid i'r Pwyllgor Bil Hybrid a sefydlir yn y Cynulliad nesaf ystyried adroddiad yr asesydd.

26B.146 Caniateir i Fil Hybrid gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg gan yr Aelod sy’n gyfrifol amdano ond rhaid peidio â’i dynnu'n ôl ar ôl i'r Ystyriaeth Gychwynnol gael ei chwblhau ac eithrio gyda chytundeb y Cynulliad.

**Diwygiad canlyniadol i Reol Sefydlog 24.**

24.2 Yn Rheol Sefydlog 24, ystyr “deddfwriaeth” yw

(i) Gorchmynion arfaethedig o dan Reol Sefydlog 25; neu

(ii) Gorchmynion drafft o dan Reol Sefydlog 25; neu

(iii) Biliau o dan Reol Sefydlog 26, a 26B.